Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 23/2026

Dyddiad cyhoeddi: 24/02/2026

# Gwerthusiad o Brosesau Cyllido Ysgolion Bro

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-030-5

Gwerthusiad o brosesau cyllido ysgolion bro

Awduron: Alma Economics

alma economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Gwerthusiad o brosesau cyllido ysgolion bro. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 23/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-brosesau-cyllido-ysgolion-bro

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

# Tabl cynnwys

Rhestr o dablau .... 3

Rhestr o ffigurau .... 4

Geirfa 6

1. Cyflwyniad a chefndir .... 7

1.1. Cyd-destun y polisi .... 7

1.1.1. Cyflwyno ysgolion bro yng Nghymru .... 7

1.1.2. Defnydd cynnar o'r dull ysgolion bro .... 8

1.1.3. Polisi a buddsoddiad cyfredol mewn ysgolion bro .... 8

1.1.4. Gweithrediad cyfredol ac effaith ysgolion bro .... 9

1.2. Nodau ac amcanion gwerthuso .... 10

1.3. Strwythur yr adroddiad .... 10

2. Methodoleg .... 12

2.1. Cam 1: Asesiad cwmpasu ac asesiad sylfaenol .... 12

2.1.1. Adolygiad pen desg a mapio rhanddeiliaid .... 12

2.1.2. Cyfweliadau cwmpasu .... 12

2.1.3. Damcaniaeth newid a fframwaith ffyddlondeb .... 12

2.1.4. Moeseg ymchwil .... 13

2.2. Cam 2: Gwaith maes a dadansoddi .... 13

2.2.1. Arolygon gydag ysgolion, awdurdodau lleol, rheolwyr ysgolion bro, a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd .... 13

2.2.2. Cyfweliadau dilynol â rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd .... 14

2.2.3. Astudiaethau achos .... 15

2.2.4. Meintiau sampl a gyflawnwyd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid .... 16

2.3. Cyfyngiadau .... 17

3. Canfyddiadau .... 18

3.1. Dadansoddiad o’r arolygon .... 18

3.1.1. Arolwg yr awdurdodau lleol .... 18

3.1.2. Arolwg y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd .... 22

3.1.3. Arolwg o reolwyr ysgolion bro .... 26

3.1.4. Arolwg ysgolion (byr) ... 31
3.1.5. Arolwg ysgolion (manwl) ... 33
3.1.6. Arolwg o rieni a gofalwyr ... 40
3.2. Cyfweliadau dilynol ... 43
3.2.1. Rheolwyr ysgolion bro ... 43
3.2.2. Swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ... 49
3.2.3. Effeithiau cychwynnol yr adroddwyd amdanynt gan reolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ... 54
3.3. Astudiaethau achos ... 54
3.3.1. Partneriaeth Gymunedol Dwyrain Caerdydd ... 55
3.3.2. Ysgol Gynradd Maesincla, Gwynedd ... 63
3.3.3. Castell-nedd Port Talbot ... 69
3.3.4. Canolfan Ddysgu Sir Benfro ... 79
3.3.5. Ysgolion uwchradd Wrecsam ... 89
3.4. Crynodeb a thriongliant o'r canfyddiadau ... 98
4. Prif ganfyddiadau a chasgliadau ... 101
4.1. Dosbarthu cyllid ysgolion bro ... 101
4.2. Ffyddlondeb ac addasiad wrth gyflwyno'r strategaeth ysgolion bro ... 102
4.3. Galluogwyr a rhwystrau i weithredu ... 104
4.4. Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ... 107
4.5. Crynodeb ... 108
5. Argymhellion ... 109
Atodiad A – Damcaniaeth newid ... 113
Atodiad B – Sampl o astudiaethau achos ... 114
Atodiad C – Arolygon ... 115
5.1. Arolwg o ysgolion ... 115
5.1.1. Arolwg Haen 1 ... 115
5.1.2. Arolwg Haen 2 ... 117
5.2. Arolwg o gynrychiolwyr awdurdodau lleol ... 127
5.3. Arolwg o reolwyr ysgolion bro ... 132
5.4. Arolwg y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ... 139
5.5. Arolwg o rieni ... 144

# Rhestr o dablau


Tabl 1: Maint sampl yr arolygon .......... 16

Tabl 2: Maint y sampl ddilynol .......... 16

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 1:Gweithredu'r strategaeth ysgolion bro: Partneriaethau a chydweithrediadau. Ers rhoi’r strategaeth ysgolion bro ar waith, sut mae partneriaethau a chydweithrediadau rhwng eich awdurdod lleol a'r canlynol wedi newid? ....... 19
Ffigur 2: Galluogwyr a rhwystrau i weithredu’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad .................... 21
Ffigur 3: Canlyniadau’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu’r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol: ...................................... 21
Ffigur 4:Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro: Partneriaethau a chydweithrediadau. Nodwch pa mor aml rydych chi'n cydweithio â'r unigolion a grwpiau canlynol, fel rhan o'ch rôl fel swyddog ymgysylltu â theuluoedd .................................. 23
Ffigur 5:Galluogwyr a rhwystrau i weithredu’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ......... 25
Ffigur 6:Canlyniadau’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu’r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol: ...................................... 26
Ffigur 7:Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro: Partneriaethau a chydweithrediadau. Nodwch pa mor aml rydych chi'n cydweithio â'r unigolion ar grwpiau canlynol fel rhan o'ch rôl fel rheolwr ysgolion bro........................................................ 27
Ffigur 8: Galluogwyr a rhwystrau i weithredu’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ......... 29
Ffigur 9: Canlyniadau’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu’r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol: ...................................... 30
Ffigur 10: Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ......................................... 32
Ffigur 11: Dywedwch wrthym i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r rhesymau posibl canlynol pam nad ydych chi'n gweithredu’r strategaeth yn llawn ................... 32
Ffigur 12:Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro (seilwaith): Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ..................... 34

Ffigur 13: Gweithredu'r strategaeth ysgolion bro (ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned): Pa mor aml mae eich ysgol yn darparu'r mathau canlynol o weithgareddau, gwasanaethau neu fentrau fel rhan o'r strategaeth ysgolion bro? ........ 35
Ffigur 14:Gweithredu'r strategaeth ysgolion bro (ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned): Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ........ 36
Ffigur 16: Galluogwyr a rhwystrau i weithredu'r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad ........ 38
Ffigur 17: Canlyniadau'r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu'r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol: ........ 39
Ffigur 18:Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ........ 40
Ffigur 19: Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi cymryd rhan ynddynt sy'n gysylltiedig ag ysgol eich plentyn? ........ 41

# Geirfa

**ADY**

Anghenion dysgu ychwanegol

**CAMHS**

Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc

**FACE**

Ymgysylltu â’r teulu a'r gymuned

**MALIC**

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

**NEET**

Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

**Rhiant/gofalwr a rhieni/gofalwyr**

Yn cyfeirio at rieni, gwarcheidwaid, a gofalwyr maeth / gofalwyr sy'n berthnasau

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1. Cyd-destun y polisi

Nod strategaeth ysgolion bro yw cyfuno ymgysylltu â theuluoedd, cymunedau a phartneriaid amlasiantaeth er budd dysgwyr a'u teuluoedd (Llywodraeth Cymru, 2022a). Mae hyn yn golygu bod ysgolion yn meithrin partneriaeth gref â theuluoedd, yn ymateb i anghenion y gymuned, ac yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd yn agos â phrif uchelgais y Cwricwlwm i Gymru, sef rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau y mae eu hangen ar bob plentyn ac unigolyn ifanc i ffynnu yn eu bywydau yn y dyfodol. Datblygwyd y model mewn ymateb i ymchwil a ganfu fod cydberthnasau cryf rhwng ysgolion a'r gymuned, yn ogystal ag ymgysylltu cynhwysfawr â phartneriaid amlasiantaeth, yn ffactorau sylfaenol sy'n ysgogi llwyddiant addysgol, yn enwedig yn achos disgyblion o gefndiroedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol (Henig ac eraill, 2016; Hampden-Thompson a Galindo, 2016; Moran a Duffy, 2016).

Mae tlodi plant yn broblem fawr ledled Cymru. Nododd bron pob un o'r ymatebwyr i'r Seithfed Arolwg Blynyddol o Dlodi Plant a Theuluoedd fod tlodi ymhlith y plant a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda hwy yng Nghymru wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sef y ffigur uchaf a gofnodwyd hyd yn hyn (MacFarlane, 2023).Yn 2023, pwysleisiodd Comisiynydd Plant Cymru yr her hon, gan ddatgan mai tlodi plant yw “y mater mwyaf sy’n effeithio ar blant yng Nghymru” (Comisiynydd Plant Cymru, 2023). Er bod hyn wedi bod yn broblem fawr ers peth amser, mae tystiolaeth yn awgrymu bod effaith pandemig COVID-19 wedi gwaethygu cyfraddau tlodi yn ogystal ag effeithio'n negyddol ar addysg, iechyd a llesiant pobl ifanc (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Sefydliad Nuffield, 2021; Tŷ’r Arglwyddi, 2021).

Mae ymchwil wedi tynnu sylw’n gyson at y ffaith bod tlodi’n gysylltiedig yn agos â chanlyniadau addysgol is (Thompson ac Invinson, 2020), yn ogystal â nifer llai o gyfleoedd cyflogaeth a thebygolrwydd uwch o afiechyd a boddhad is â bywyd (Blanden ac eraill, 2010). Mae effaith barhaol ffactorau economaidd-gymdeithasol o oedran ifanc yn tynnu sylw at yr angen am ymyriadau cynnar i gefnogi, i’r graddau gorau posibl, blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

### 1.1.1. Cyflwyno ysgolion bro yng Nghymru

Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi amryw o bolisïau ar waith er mwyn sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn gallu cyrraedd eu potensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol. Elfen graidd o'u dull yw’r strategaeth ysgolion bro, sef cysyniad sydd wedi llywio polisïau addysg Cymru ers blynyddoedd cynnar datganoli (Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, 2023). Mae'r dull hwn yn pwysleisio, er mwyn cefnogi dysgwyr yn well, y dylai ysgolion ddatblygu cysylltiadau agosach â'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

### 1.1.2. Defnydd cynnar o'r dull ysgolion bro

Cyflwynwyd polisi ysgolion bro yn fwy ffurfiol yn 2003 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yr oedd ar y pryd, a ddarparodd gyllid grant i helpu ysgolion i ddarparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd, a'r gymuned ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau a gwasanaethau yn ymwneud â gofal plant, dysgu gydol oes, darpariaeth iaith, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, gwasanaethau chwarae, dysgu y tu allan i oriau, profiad gwaith, gwasanaethau i'r gymuned, a mynediad at adnoddau TG (ibid). Roedd fersiynau pellach o'r strategaeth yn parhau i adlewyrchu'r angen i ysgolion ymwreiddio'n fwy yn y gymuned ehangach, a chanolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol plant o gymunedau difreintiedig (ibid). Cydnabuwyd effaith ysgolion bro yn ffurfiol gan Estyn, sef arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020 (Estyn, 2020). Amlinellodd yr adroddiad hwn hefyd yr wyth nodwedd sy'n diffinio ysgolion bro, gan gynnwys ymgysylltu â theuluoedd, pwyslais ar anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd dysgwyr, a hyfforddiant amlddisgyblaethol a datblygiad staff (ibid).

### 1.1.3. Polisi a buddsoddiad cyfredol mewn ysgolion bro

Ailsefydlodd diweddariad Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "[f]uddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol [bro], cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol" (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r ymrwymiad yn rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen hirdymor o ddiwygio'r sector addysg er mwyn sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn cael eu lleihau yn unol â sicrhau safonau cynyddol i fyfyrwyr yng Nghymru (ibid, 2023a).

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, darparodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £25 miliwn wedi'i dargedu at fynd i'r afael ag effaith tlodi yng nghymunedau Cymru i gefnogi dysgwyr sy'n profi rhwystrau i addysg (Llywodraeth Cymru, 2022b). Nod y cyllid yw galluogi rhagor o ysgolion i allu gweithredu o dan y model ysgolion bro, gan ganiatáu iddynt ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ehangach er mwyn cefnogi dysgwyr. Yn dilyn y buddsoddiadau, cyhoeddwyd dogfennau canllaw a chrynodebau swyddogol gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022a). Mae tua phumed o'r buddsoddiad yn cael ei dyrannu i ehangu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud ag anfantais a phresenoldeb dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2023b). Mae cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu treial o reolwyr ysgolion bro sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion i gydweithio ag asiantaethau eraill i gefnogi disgyblion a'r gymuned ehangach (Llywodraeth Cymru, 2023c). Trwy ddefnyddio swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rheolwyr ysgolion bro yn strategol, disgwylir i ysgolion ddatblygu a gweithredu arferion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n cefnogi cyfranogiad teuluoedd, yn gwella

presenoldeb, ac yn hwyluso cymorth cyfannol sydd wedi'i deilwra i gefnogi dysgu a llesiant dysgwyr.

Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla sy'n seiliedig ar niferoedd disgyblion ac ysgolion ledled Cymru, gan gefnogi ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (cynradd, uwchradd, pob oed, lleoliadau blynyddoedd cynnar, Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac arbennig). Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddwyd £40 miliwn ychwanegol mewn cyllid cyfalaf ar gyfer ehangu seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau (mannau awyr agored, cyfleusterau chwaraeon, ac ati), ynghyd â £6.5 miliwn ychwanegol i ariannu'r gwasanaeth lles addysg a rhagor o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r cyllid cyfalaf hwn yn caniatáu i ysgolion gynnig gwasanaethau wedi'u cydleoli, yn benodol hybiau cymunedol, a all ddarparu gwasanaethau meddygol, tai, a gwasanaethau allweddol eraill. Darparwyd £20 miliwn pellach o gyllid cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25, yn benodol i gefnogi datblygiad gofod amlasiantaeth, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ar feithrin ymgysylltu â phartneriaid amlasiantaeth.

### 1.1.4. Gweithrediad cyfredol ac effaith ysgolion bro

Amlygodd ymchwil gynnar ar ddwy ysgol fro yng Nghymru sut roedd lleoliad a chyd-destunau cymdeithasol ehangach yn llywio’r ffordd roedd yr ysgolion yn dehongli ac yn gweithredu agendâu polisïau (Evans ac eraill, 2024). Mae hyn yn gysylltiedig ag egwyddor sylfaenol ysgolion bro, sef y dylent gael eu llywio a’u cyd-lunio gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu (Sarjeant ac Egan, 2023). Roedd astudiaethau achos o weithredu ysgolion bro yng Nghymru hefyd yn adlewyrchu amrywiol ddulliau gweithredu, yn ogystal â thynnu sylw at effeithiau cadarnhaol eang y cynllun (Llywodraeth Cymru, 2023d). Cyflwynodd ysgolion amrywiaeth o weithgareddau a mentrau, megis grwpiau babanod a phlant bach, ymweliadau â’r cartref, gweithgareddau dros wyliau'r haf, banciau bwyd, a boreau coffi. Llwyddodd nifer o ysgolion i ddefnyddio cyllid i ddefnyddio adeilad ar dir yr ysgol ar gyfer y gweithgareddau hyn, gan weithredu fel canolfan o fewn y gymuned leol.

Mae effeithiau cadarnhaol eang wedi'u nodi o'r fenter, gan gynnwys presenoldeb uwch gan ddysgwyr a chyfraddau gwahardd is, gwell ymgysylltu â dysgu a datblygiad sgiliau, mwy o ymgysylltiad a chyfathrebu rhwng rhieni a staff yr ysgol, llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned ehangach, ac ymdeimlad cyffredinol gwell o gynhwysiant a pharch at bawb (ibid).

Er bod pwysigrwydd y dull hwn yn cael ei gydnabod yn eang, fe dynnodd ymchwiliad a gynhaliwyd gan Gymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (2023) sylw at heriau ymarferol o ran gweithredu, gan ddatgan bod angen arweinyddiaeth gydweithredol bellach ar draws sectorau, oherwydd na all penaethiaid ysgolion weithredu ar eu pen eu hunain. Codwyd pryderon hefyd ynghylch gallu arweinwyr addysgol i weithredu elfennau allweddol o’r strategaeth ysgolion bro, gan

dynnu sylw at yr angen am strwythurau cymorth sylweddol i alluogi datblygiad proffesiynol yn ogystal â lliniaru llwythi gwaith sylweddol.

## 1.2. Nodau ac amcanion gwerthuso

Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cefnogi anghenion plant yn y ffordd orau, mae'n bwysig bod y strategaeth ysgolion bro yn cael ei gwerthuso i gael darlun cynhwysfawr o weithrediad y strategaeth a'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn darparu mewnwelediadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Felly, comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics mewn partneriaeth ag IAITH i werthuso'r camau cynnar o weithredu'r strategaeth ysgolion bro. Amcanion y gwerthusiad oedd fel a ganlyn:

- deall sut mae cyllid ysgolion bro yn cael ei ddyrannu a'i gyflwyno, a pha wahaniaeth y mae'n ei wneud mewn ysgolion
- archwilio sut mae cyllid ysgolion bro yn helpu i fynd i'r afael ag anfantais a rhwystrau eraill i ddysgu a chyfranogiad
- archwilio effeithiau ehangach ar lesiant dysgwyr, capasiti ysgolion, a chymunedau
- nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn sy'n heriol, a lle mae angen gwelliannau
- datblygu argymhellion clir ac ymarferol i ategu datblygiad pellach y strategaeth ysgolion bro

Canolbwyntiodd y gwerthusiad ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, dynameg weithredol rolau'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rheolwyr ysgolion bro, a chyfraniad cyffredinol y fenter at lesiant dysgwyr, tegwch addysgol, ac ymgysylltu â'r gymuned a chydlyniant cymunedol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod amcanion y buddsoddiad yn cael eu cyflawni.

Nod y gwerthusiad yw ategu ymhellach ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o sut mae cyllid ysgolion bro yn cael ei ddefnyddio ar y lefel leol, yr heriau a'r llwyddiannau a wynebir wrth ei weithredu, a'r potensial i efelychu arferion effeithiol ar draws system addysg Cymru a llywio amcanion polisi ehangach.

## 1.3. Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Mae Pennod 2 yn ymdrin â'r dull methodolegol, gan gynnwys meintiau samplau ar gyfer pob cam o'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghyd â chyfyngiadau'r astudiaeth
- Mae Pennod 3 yn nodi canfyddiadau'r ymchwil hon ar y camau cynnar o weithredu'r strategaeth ysgolion bro o arolwg a gynhaliwyd gydag ysgolion, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu

â theuluoedd, cyfweliadau dilynol â'r ddau olaf, a phum astudiaeth achos yn amlinellu dull lleoliad addysgol neu awdurdod lleol o ymdrin ag ysgolion bro

- Mae Pennod 4 yn crynhoi'r prif gasgliadau o'r canfyddiadau ar weithredu'r strategaeth ysgolion bro
- Mae Pennod 5 yn amlinellu cyfres o argymhellion wedi'u llywio gan y canfyddiadau i lywio fersiynau a datblygiad ysgolion bro yn y dyfodol

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnwys yr atodiadau canlynol:

- Mae Atodiad A yn amlinellu'r ddamcaniaeth newid a ddatblygwyd ar gyfer yr ymchwil hon (offeryn a ddefnyddir mewn gwerthusiadau i fapio mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau allweddol i gefnogi'r broses o werthuso polisïau)
- Mae Atodiad B yn rhoi rhagor o fanylion am ddadansoddiad y cyfranogwyr ar gyfer yr astudiaethau achos
- Mae Atodiad C yn cyflwyno'r sgriptiau ar gyfer pob arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hon

# 2. Methodoleg

Defnyddiodd y gwerthusiad ddull cymysg, gan gyfuno data ansoddol o ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid ag arolygon. Rhannwyd y gwaith yn ddau brif gam, a amlinellir isod.

## 2.1. Cam 1: Asesiad cwmpasu ac asesiad sylfaenol

### 2.1.1. Adolygiad pen desg a mapio rhanddeiliaid

Roedd Cam 1 yn cynnwys adolygiad archwiliadol o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd, ynghyd â pholisïau a deddfwriaeth, er mwyn gwella dealltwriaeth o'r materion, datblygu deunyddiau ymchwil ar lawr gwlad, a nodi bylchau i fynd i'r afael â hwy drwy'r ymchwil hon. Roedd yr adolygiad yn cynnwys adroddiadau pwyllgorau'r Senedd, cyhoeddiadau gan Estyn, a data monitro grantiau ar lefel awdurdodau lleol i asesu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi'r strategaeth ar waith, canlyniadau sy'n dod i'r amlwg, ac ansawdd data. Roedd rhai ffynonellau pwysig yng nghyd-destun Cymru yn cynnwys cyhoeddiad Estyn 'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol' (2020), canllawiau Llywodraeth Cymru ar 'ysgolion bro' (2022), ac erthygl Evans a'i gydweithwyr 'An ethic of care in two community focused schools in Wales' (2023). Wrth gynnal yr adolygiad pen desg, fe gynhaliwyd ymarfer mapio rhanddeiliaid ar yr un pryd, lle nodwyd rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu â nhw wrth gynnal y prosiect.

### 2.1.2. Cyfweliadau cwmpasu

Er mwyn rhoi cyd-destun pellach ar gyfer ysgolion bro, ac i helpu i fireinio'r dull ymchwil, fe gynhaliwyd wyth cyfweliad cwmpasu â swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru, cynrychiolydd awdurdod lleol, rheolwr ysgolion bro, swyddog ymgysylltu â theuluoedd, academydd blaenllaw, a sefydliad trydydd sector, gan weithio'n agos gyda theuluoedd. Darparodd y cyfweliadau hyn wybodaeth gyd-destunol bwysig ar sut mae ysgolion bro yn cael eu gweithredu ledled Cymru, gan alluogi addasiadau i'r dull methodolegol.

### 2.1.3. Damcaniaeth newid a fframwaith ffyddlondeb

Yn seiliedig ar yr adolygiad pen desg a'r cyfweliadau cwmpasu, datblygwyd damcaniaeth newid i helpu i ddiffinio a darlunio'r canlyniadau bwriadedig ar gyfer ysgolion bro a'r llwybrau y disgwylir iddynt gael eu cyflawni drwyddynt. Mae'r ddamcaniaeth newid yn offeryn a ddefnyddir mewn gwerthusiadau i fapio mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau allweddol i ategu'r broses o werthuso polisïau a rhaglenni. Gellir dod o hyd i'r ddamcaniaeth newid yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

Ar ôl i'r ddamcaniaeth newid gael ei chymeradwyo, fe ddatblygwyd fframwaith ffyddlondeb, gyda'r bwriad o asesu pa mor agos y gweithredwyd y strategaeth ysgolion bro mewn lleoliadau unigol o'i gymharu â'i dyluniad a'i bwriad gwreiddiol. Dilynodd feysydd awgrymedig Caroll a'i gydweithwyr (2007), sef ymlyniad, dos, ansawdd, ac ymatebolrwydd cyfranogwyr. Canolbwyntiodd y fframwaith ar ganlyniadau tymor byr a oedd yn gyson â'r cam gweithredu (yn unol â'r ddamcaniaeth newid). Llywiodd y fframwaith hwn y broses o ddatblygu deunyddiau ymchwil, gan sicrhau bod y gwerthusiad yn cyd-fynd ag ymchwil weithredu sefydledig.

### 2.1.4. Moeseg ymchwil

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau cwmpasu eraill, cynullwyd pwyllgor moeseg ymchwil mewnol. Roedd hwn yn cynnwys uwch-ymchwilwyr Alma Economics nad oeddent yn rhan o'r prosiect i ddarparu cyngor moesegol. Fe wnaethant gymeradwyo dyluniad yr ymchwil a'r deunyddiau priodol ym mis Ionawr 2025, cyn i unrhyw waith maes ddechrau.

## 2.2. Cam 2: Gwaith maes a dadansoddi

### 2.2.1. Arolygon gydag ysgolion, awdurdodau lleol, rheolwyr ysgolion bro, a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd

Ar ôl cwblhau'r cam cwmpasu, dosbarthwyd arolygon ar-lein i ysgolion, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, rheolwyr ysgolion bro, a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Nod yr arolygon hyn oedd asesu’r ffordd mae ysgolion bro yn cael eu deall a’u gweithredu ledled Cymru (gweler Atodiad C am sgriptiau'r arolygon). Gan gydnabod yr heriau o ymgysylltu ag ysgolion sydd dan bwysau amser, a chan anelu at wneud y mwyaf o gyfranogiad ar draws lleoliadau addysgol, fe ddatblygwyd dau arolwg ar wahân ar gyfer ysgolion:

- fersiwn fer (tua phum munud) i gasglu gwybodaeth bwysig ynghylch a oedd ysgolion yn ymwybodol o’r strategaeth ysgolion bro, a/neu'n ymgysylltu â hi, ai peidio
- fersiwn fwy manwl (tua 15 munud) ar gyfer ysgolion sydd ag ymgysylltiad mwy datblygedig a'r gallu i ddarparu mewnwelediadau ychwanegol

Archwiliodd yr arolwg manwl feysydd megis gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion bro, rhwystrau a galluogwyr i weithredu, cyllid sydd wedi dod i law, a chanlyniadau cychwynnol. Ar gyfer rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, fe ganolbwyntiodd yr arolwg ar ganfyddiadau o'u rôl, profiadau o hyfforddiant, arweiniad a datblygiad proffesiynol, cyfrifoldebau dyddiol, a chanlyniadau cynnar y fenter. Gofynnwyd i gynrychiolwyr awdurdodau lleol am weithredu ysgolion bro yn eu hardal, gan gynnwys unrhyw rwystrau neu alluogwyr a wynebwyd, cyllid,

partneriaethau a chydweithrediadau a ddatblygwyd, a'u dulliau o fonitro, gwerthuso a mesur canlyniadau.

Dewiswyd yr amseroedd pryd y dosbarthwyd yr arolygon yn ofalus er mwyn osgoi gwyliau ysgol, a allai fod wedi cyfyngu ar unrhyw ymgysylltu. Er mwyn sicrhau ymgysylltu eang, fe ddefnyddiwyd y dulliau canlynol i rannu'r arolygon:

- Cylchlythyr Hwb (ar gyfer ysgolion)
- Rhwydwaith ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog IAITH (ar gyfer ysgolion)
- Rhwydweithiau e-bost Llywodraeth Cymru (ar gyfer rheolwyr ysgolion bro, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, a chynrychiolwyr awdurdodau lleol)

Anfonwyd arolygon at y boblogaeth lawn ar gyfer pob grŵp targed (e.e. pob rheolwr ysgolion bro), a dewisodd yr ymatebwyr eu hunain i gwblhau'r arolwg. Roedd yr arolygon ar agor rhwng mis Mai a mis Mehefin 2025. I gofrestru ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu dilynol, ar ddiwedd yr arolwg, gallai rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ddewis cwblhau ffurflen datganiad o ddiddordeb ar wahân i ddarparu eu henw a'u manylion cyswllt, a oedd yn golygu bod ymatebion yr arolwg yn aros yn anhysbys. Ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, roedd y ffurflen datganiad o ddiddordeb hefyd yn cynnwys y cyfle i enwebu lleoliad ysgol neu awdurdod lleol i gymryd rhan mewn astudiaeth achos (darperir rhagor o wybodaeth isod).

Wrth ddadansoddi data'r arolygon, fe gynhyrchwyd ystadegau disgrifiadol a thablau, gan gynnwys cymedrau ac amlder a dadansoddiadau seiliedig ar grwpiau pan oedd y rhain yn berthnasol. Er bod y mwyaf o'r cwestiynau'n gaeedig, fe ddefnyddiwyd dadansoddiad cynnwys ansoddol i ddadansoddi ymatebion testun agored gan ddefnyddio fframwaith thematig.

### 2.2.2. Cyfweliadau dilynol â rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd

Yn dilyn cau'r arolwg, fe gynhaliwyd cyfweliadau dilynol â rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i gael rhagor o ddyfnder ar eu profiadau o weithredu'r strategaeth ysgolion bro yn eu cyd-destun penodol. Recriwtiwyd cyfranogwyr yn bennaf drwy'r arolwg, gyda rhywfaint o recriwtio atodol yn cael ei gynnal drwy gysylltiadau uniongyrchol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Targedwyd recriwtio er mwyn sicrhau sylw ledled Cymru. Roedd y meysydd pwnc allweddol yn cynnwys cyfrifoldebau dyddiol a datblygu rôl, blaenoriaethau o fewn y rôl a chyd-fynd â strategaeth ysgolion bro, partneriaethau a chydweithrediadau, ac effeithiau canfyddedig eu rôl. Cynhaliwyd cyfweliadau dilynol ar-lein dros Microsoft Teams a wnaeth bara am oddeutu 45 munud.

### 2.2.3. Astudiaethau achos

I ddangos sut mae’r strategaeth ysgolion bro yn cael ei gweithredu'n ymarferol ar draws cyd-destunau yng Nghymru, fe gynhaliwyd pum astudiaeth achos. O restr hir o leoliadau ysgolion ac awdurdodau lleol a enwebwyd, fe ddewiswyd pum astudiaeth achos i ddarparu cymysgedd o nodweddion ysgolion (e.e. cyfrwng iaith, lefel gynradd neu uwchradd), lefelau amrywiol o anfantais economaidd-gymdeithasol (e.e. canran y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim), ac ystod o ran y cynnydd a wnaed a dulliau gweithredu. Er y gallai fod wedi bod o ddiddordeb cynnwys lleoliadau â gweithrediad cyfyngedig neu arbennig o anodd, fe gydnabuwyd y byddai ymgysylltu yn y lleoliadau hyn yn debygol o fod wedi bod yn hynod heriol. Felly, canolbwyntiodd yr astudiaethau achos ar enghreifftiau o lwyddiant ac arferion da, er eu bod yn dal i gofnodi ystod o gyfyngiadau a rhwystrau.

Hwyluswyd y broses o gydlynu astudiaethau achos gan gyswllt allweddol ym mhob lleoliad. Roedd pob astudiaeth achos yn cynnwys ymweliad wyneb yn wyneb â safle gan ddau ymchwilydd, wedi'i ategu gan gyfweliadau ar-lein â phersonél allweddol cyn yr ymweliad â’r safle, ac ar ei ôl. Yn ogystal, rhannwyd arolwg byr â rhieni/gofalwyr.

Cafodd dulliau gwaith maes eu teilwra i bob cyd-destun lleol, gan gynnwys cymysgedd o gyfweliadau, grwpiau ffocws, ac ymarfer ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys rheolwyr ysgolion bro, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr ysgolion, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, athrawon a staff eraill, rhieni/gofalwyr, a phartneriaid cymunedol. Pan fo modd, fe aliniwyd y gwaith maes â gweithgareddau lleol, megis digwyddiadau dathlu, prynhawniau ymgysylltu â rhieni, a boreau coffi. Nod hyn oedd lleihau'r baich lleol, oherwydd y byddai rhanddeiliaid yn cael eu casglu ynghyd beth bynnag, gan ganiatáu i'r tîm gwerthuso arsylwi gweithgareddau rheolwyr ysgolion bro ar waith.

Ymhlith y cynlluniau cychwynnol ar gyfer yr astudiaethau achos oedd mwy o ymgysylltu drwy arolygon ag arweinwyr ysgolion, staff, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, partneriaid cymunedol, a theuluoedd. Fodd bynnag, oherwydd bod rhanddeiliaid yn y cam cwmpasu wedi nodi'r heriau cyffredin o gyfradd isel o ymgysylltu â’r arolwg, fe newidiwyd y dull tuag at ymgysylltu mwy ansoddol. Yn wreiddiol, y bwriad hefyd oedd cynnal rhagor o ymarferion ymgysylltu ffurfiol â rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, yn y pen draw, ystyriwyd mai ymgysylltiadau anffurfiol, fel trafodaethau heb eu recordio yn ystod gweithgareddau ysgolion bro, oedd y mwyaf priodol i rieni/gofalwyr, o ystyried yr heriau o ran ymgysylltu. Roedd cymhlethdodau ymarferol a moesegol hefyd yn cyfyngu ar allu'r gwerthusiad i ymgysylltu â dysgwyr.

I ddadansoddi data ansoddol o gyfweliadau, grwpiau ffocws, ac ymgysylltiadau anffurfiol mewn ymweliadau safle, fe gynhaliwyd pedwar cam ailadroddus o ddadansoddiad thematig: ymgyfarwyddo, codio, datblygu themâu, ac adrodd. Cynhaliwyd hyn o fewn fframwaith dadansoddol i nodi meysydd lle roedd rhanddeiliaid yn cytuno a phwyntiau o wahaniaeth ar themâu allweddol.

### 2.2.4. Meintiau sampl a gyflawnwyd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid

Dyma faint y sampl a gafwyd ar gyfer yr arolygon (nid yw meintiau llawn y boblogaeth a chanran y cyrhaeddiad wedi'u cynnwys, oherwydd nad yw hyn yn glir ar gyfer pob grŵp):

**Tabl 1: Maint sampl yr arolygon**

| Grŵp cyfranogwyr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| **Rheolwyr ysgolion bro** | 18 (15 awdurdod lleol) |
| **Swyddogion ymgysylltu â theuluoedd** | 37 (15 awdurdod lleol) |
| **Cynrychiolwyr awdurdodau lleol** | 12 (12 awdurdod lleol) |
| **Ysgolion (arolwg byr)** | 91 (18 awdurdod lleol) |
| **Ysgolion (arolwg hirach)** | 22 (7 awdurdod lleol) |
| **Ysgolion astudiaeth achos: rhieni/gofalwyr** | 114 (5 awdurdod lleol) |

Dyma faint y sampl ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu dilynol, gan gynnwys astudiaethau achos:

**Tabl 2: Maint y sampl ddilynol**

| Grŵp cyfranogwyr | Nifer y cyfranogwyr yn y cyfweliadau dilynol | Nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran mewn astudiaethau achos |
|---|---|---|
| **Rheolwyr ysgolion bro** | 6 (ar draws 6 awdurdod lleol) | 4 |
| **Swyddogion ymgysylltu â theuluoedd** | 5 (ar draws 4 awdurdod lleol) | 11 |
| **Cynrychiolwyr awdurdodau lleol** | Ddim yn berthnasol | 5 |
| **Y tîm arwain mewn ysgolion** | Ddim yn berthnasol | 14 |
| **Llywodraethwyr ysgol / pwyllgorau rheoli** | Ddim yn berthnasol | 10 |
| **Athrawon a staff ysgol eraill** | Ddim yn berthnasol | 8 |
| **Partneriaid cymunedol** | Ddim yn berthnasol | 18 |
| **Rhieni/gofalwyr** | Ddim yn berthnasol | 26 |
| **Cyfanswm** | **11** | **96** |

Am ddadansoddiad pellach o grwpiau rhanddeiliaid ym mhob astudiaeth achos, gweler Atodiad B.

## 2.3. Cyfyngiadau

Er bod llawer o grwpiau amrywiol wedi cymryd rhan yn yr ymchwil hon, roedd sawl her o ran recriwtio ac ymgysylltu. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai rhieni/gofalwyr a dysgwyr ym mhob astudiaeth achos yn ymgysylltu drwy gyfweliadau ffurfiol neu grwpiau ffocws bach. Yn y pen draw, nid oedd y math hwn o ymgysylltu yn ymarferol mewn llawer o gyd-destunau astudiaethau achos.

Mewn rhai achosion, bu ymgysylltu cyfyngedig â dysgwyr oherwydd bod llawer o waith yr ysgolion bro yn digwydd ar y lefel strategol a bod y cysylltiadau lleol yn teimlo na fyddai dysgwyr yn gallu gwneud sylwadau yn y cam cynnar hwn, yn ogystal â sensitifrwydd wrth ymgysylltu â dysgwyr mewn rhai lleoliadau (er enghraifft, dysgwyr ag anghenion cymhleth yn astudiaeth achos Sir Benfro).

Gyda rhieni/gofalwyr, fe newidiwyd y fethodoleg i flaenoriaethu ymgysylltu â nifer fwy o unigolion drwy gyfranogiad anffurfiol (e.e. trafodaethau yn ystod gweithgareddau parhaus) ac arolwg byr. Er bod hyn wedi cynyddu helaethrwydd y mewnbwn a gafwyd gan rieni/gofalwyr ac wedi osgoi rhoi baich ar y cyfranogwyr, nid oedd y gwerthusiad yn gallu casglu eu safbwyntiau manwl ar faterion megis heriau a chymhellion ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion. Yn y dyfodol, dylai unrhyw werthusiad o ysgolion bro, neu fentrau tebyg, flaenoriaethu archwiliad o safbwyntiau dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn fanylach.

Bu hefyd ymgysylltu mwy cyfyngedig â staff ysgolion nad ydynt yn arweinwyr na’r hyn a ragwelwyd, yn bennaf oherwydd pwysau parhaus o ran capasiti a gwahanol ofynion a oedd yn cystadlu am eu hamser. Fodd bynnag, roedd athrawon a staff ehangach ysgolion yn ymwneud yn ystyrlon â sawl un o'r astudiaethau achos, a ddarparodd fewnwelediadau gwerthfawr i'w profiadau o’r strategaeth ysgolion bro o fewn yr ysgol.

Fel yn achos unrhyw brosiect o'r raddfa hon, nid oedd maint a dull y sampl yn caniatáu cynrychiolaeth ddemograffig lawn o leoliadau ledled Cymru. Roedd y rheini a gymerodd ran wedi dewis gwneud hynny eu hunain, gan ddibynnu ar unigolion a sefydliadau a chanddynt yr amser, y diddordeb a'r gallu i gymryd rhan. Yn anochel, fe effeithiodd hyn ar gyfansoddiad y sawl a oedd wedi cymryd rhan. Dylid nodi y gallai'r sawl sy'n gwirfoddoli i gymryd rhan mewn gwerthusiad o unrhyw fenter fod yn fwy cadarnhaol a brwdfrydig yn ei chylch na'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi cael eu hystyried yn y dadansoddiad a'r adrodd. Serch hynny, roedd yr ymchwil yn cynnwys ystod eang ac amrywiol o safbwyntiau. Mae'r mewnwelediadau wedi cyfrannu at ddealltwriaeth gyfoethog a manwl o sut mae’r strategaeth ysgolion bro wedi'i gweithredu a'i deall, fel yr amlinellir yn y canfyddiadau isod.

# 3. Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau ar gyfer pob elfen o'r gwerthusiad, gan ddechrau gyda chanfyddiadau ar y lefel genedlaethol, ac yna astudiaethau achos.

## 3.1. Dadansoddiad o'r arolygon

### 3.1.1. Arolwg yr awdurdodau lleol

**Prif ganfyddiadau:**

- Mae'r strategaeth ysgolion bro yn gyfrifoldeb ystod o adrannau, ond teimlir bod pob un yn addas.
- Tystiolaeth sylweddol o fwy o gydweithio yn sgil y strategaeth ysgolion bro, yn enwedig gydag adrannau eraill yr awdurdod lleol ac ysgolion lleol; tystiolaeth gyfyngedig o gydweithrediadau cwbl newydd.
- Ymhlith yr heriau y mae dangos perthnasedd y strategaeth ysgolion bro i ysgolion, a chyfyngiadau o ran cyllido.
- Nid yw hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn casglu unrhyw ddata monitro a gwerthuso ar ysgolion bro.

Cawsom 12 ymateb gan randdeiliaid sy'n gweithio mewn awdurdod lleol yng Nghymru ac sydd â rôl allweddol yng ngweithrediad y strategaeth ysgolion bro. Nid yw'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan wedi'u rhestru yma er mwyn gwarchod anhysbysrwydd. O ran sut mae cyllid grant ysgolion bro yn cael ei ddyrannu, fe ddywedodd pum awdurdod lleol eu bod yn cadw cyllid yn ganolog, mae tri yn dosbarthu cyllid i ysgolion yn uniongyrchol, ac mae pedwar yn defnyddio cyfuniad o'r ddwy strategaeth.

Adroddodd ymatebwyr o'r mwyaf o'r awdurdodau lleol fod yr adrannau sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ysgolion bro yn gysylltiedig ag addysg (e.e. gwasanaethau addysg, gwasanaeth lles addysg, addysg a gwasanaethau plant, neu addysg, blynyddoedd cynnar a phobl ifanc) neu adrannau fel gwasanaethau presenoldeb a llesiant neu degwch a llesiant. Roedd pob ymatebydd yn teimlo bod ei adran mewn sefyllfa dda i oruchwylio gweithrediad y strategaeth ysgolion bro, gan nodi bod y strategaeth ysgolion bro yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau addysg ac yn adlewyrchu ethos ehangach o gefnogi presenoldeb a llesiant.


Yn ddiddorol, mewn un achos, nodwyd mai'r tîm datblygu cymunedol oedd yn gyfrifol am ysgolion bro, ond bellach yr adran addysg sy'n gyfrifol amdani. Gwelwyd y newid hwn fel un cadarnhaol, gan helpu i ganolbwyntio'r gwaith ar effaith ac angen eto wrth gadw'r wybodaeth a chydberthnasau gwerthfawr a adeiladwyd trwy'r tîm datblygu cymunedol.

Roedd nifer yr ysgolion a adroddwyd eu bod yn gweithredu'r strategaeth ysgolion bro o fewn awdurdodau lleol yn amrywio. Rhoddodd rhai niferoedd penodol tra oedd eraill yn myfyrio bod hyn yn anodd i'w ateb, oherwydd y gall ysgolion gofleidio ethos ysgolion bro heb gael cyllid penodol.

Adroddodd pob awdurdod lleol am fwy o gydweithio ag adrannau eraill o fewn eu sefydliadau eu hunain a chyda ysgolion lleol ers gweithredu'r strategaeth ysgolion bro. Nododd y mwyafrif hefyd fwy o gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid allanol, gan gynnwys sefydliadau'r sector cymunedol a gwirfoddol, asiantaethau a gwasanaethau statudol, sefydliadau celfyddydol a chreadigol, awdurdodau lleol eraill sy'n gweithredu'r strategaeth ysgolion bro, rhieni/gofalwyr a theuluoedd, gwasanaethau ieuenctid, clybiau chwaraeon, sefydliadau tai, a sefydliadau addysg bellach neu alwedigaethol.

Mewn cyferbyniad, fe ddywedodd rhwng pump a chwe awdurdod lleol fod eu lefel o gydweithio wedi parhau i fod yr un peth â sefydliadau addysg uwch, grwpiau crefydd a chred, a busnesau lleol. Yn ddiddorol, fe nododd nifer fach o awdurdodau lleol (un ar gyfer pob categori) fod llai o gydweithio wedi bod ers gweithredu'r strategaeth ysgolion bro, yn enwedig gyda chymdeithasau tai, sefydliadau addysg bellach neu alwedigaethol, a sefydliadau addysg uwch. Roedd tystiolaeth gyfyngedig o gydweithrediadau newydd wedi'u sefydlu.

**Ffigur 1: Gweithredu'r strategaeth ysgolion bro: Partneriaethau a chydweithrediadau. Ers rhoi'r strategaeth ysgolion bro ar waith, sut mae partneriaethau a chydweithrediadau rhwng eich awdurdod lleol a'r canlynol wedi newid?**




Ffynhonnell: Arolwg awdurdodau lleol, n = 12

Ymhlith y partneriaethau eraill a adroddwyd amdanynt y mae gwasanaethau iechyd, yr heddlu, grwpiau cymunedol megis canolfannau teuluoedd, a chanolfannau addysg yn yr awyr agored a sefydliadau rhanbarthol, megis consortia addysg rhanbarthol (cafodd consortia addysg rhanbarthol yng Nghymru eu diddymu'n raddol erbyn diwedd 2024, wrth i Lywodraeth Cymru symud i fodel gwella ysgolion mwy lleol). Adroddwyd bod y cydweithrediadau hyn wedi cyfrannu at lwyddiant ysgolion bro mewn ffyrdd pwysig. Maent wedi galluogi'r gallu i ddarparu cymorth cyfannol i blant a theuluoedd, gan fynd i'r afael nid yn unig ag anghenion addysgol ond hefyd â materion megis presenoldeb, iechyd meddwl, tai, a llesiant cyffredinol y teulu. Mae'r gwaith cydweithredol hwn hefyd wedi helpu i nodi meysydd o angen ac arferion gorau ac wedi hwyluso'r broses o rannu adnoddau a syniadau. Fodd bynnag, nodwyd y gall datblygu'r math hwn o gydweithio gymryd amser.

Adroddodd rhai awdurdodau lleol am heriau wrth ymgysylltu ag ysgolion penodol. Er enghraifft, nodwyd y gallai rhai ysgolion â lefelau isel o ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ystyried nad yw'r polisi'n berthnasol iddynt. Ymhlith y rhwystrau eraill rhag ymgysylltu y mae nifer gyfyngedig o aelodau staff sydd ar gael, maint neu leoliad daearyddol yr ysgol, diffyg gofod ffisegol i swyddogion ymgysylltu â theuluoedd weithio, a blaenoriaethau ysgolion gwahanol. Amlygwyd hefyd fod cyllid yn ffactor pwysig a all gyfyngu ar allu ysgolion i ymgysylltu'n effeithiol, yn aml mewn perthynas â chyllid ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd gan Lywodraeth Cymru.


Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr (pum awdurdod lleol) nad oeddent yn casglu unrhyw ddata monitro ar weithrediad a/neu effeithiolrwydd ysgolion bro nac yn eu gwerthuso. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am ddulliau cliriach a mwy cyson o fonitro a gwerthuso gweithgareddau ysgolion bro. Nododd sawl un ei bod yn anodd mesur canlyniadau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â'r gymuned a chymorth i deuluoedd, gan wneud gwerthuso'n heriol. Gwnaethant awgrymu y gallai cael canllawiau cliriach a dangosyddion allweddol o lwyddiant fod o fudd, yn ogystal â ffurflen casglu data safonol i'w chwblhau, i gofnodi heriau ac enghreifftiau o arferion da.

Soniodd rhai ymatebwyr eu bod eisoes yn datblygu systemau lleol i gryfhau monitro, megis cofnodi gweithgareddau wythnosol, cynhyrchu adroddiadau diwedd tymor, a drafftio adroddiadau gwerthuso er mwyn sicrhau parhad. Tynnodd eraill sylw at awgrymiadau strwythurol ehangach, gan gynnwys trefnu cynhadledd flynyddol genedlaethol ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, cynllun gwobrwyo, a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am gymorth gan bartneriaid gwasanaethau statudol megis byrddau iechyd i hyrwyddo gweithredu teg ledled Cymru.

Roedd y mwyaf o'r awdurdodau lleol (rhwng wyth a deg) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn glir ynglŷn â beth yw'r strategaeth ysgolion bro a sut i'w rhoi ar waith, pwy sy'n gyfrifol am ei gweithredu, a'r hyn a ddisgwylir gan bawb sy'n gysylltiedig. Fe wnaethant hefyd adrodd bod ysgolion yn eu hardal wedi croesawu'r dull ysgolion bro.

Er gwaethaf hyn, roedd naw awdurdod lleol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf eu bod wedi cael digon o gyllid i weithredu’r strategaeth ysgolion bro yn effeithiol.


**Ffigur 2: Galluogwyr a rhwystrau i weithredu’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad**




Ffynhonnell: Arolwg awdurdodau lleol, n = 12

O ran canlyniadau, roedd y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol (11) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y strategaeth yn arwain at fwy o ymgysylltiad â theuluoedd, partneriaethau a gwaith amlasiantaeth gwell, a mwy o ymgysylltiad â’r gymuned. Yn ddiddorol, nid oedd yr awdurdodau lleol yn anghytuno ag unrhyw un o'r canlyniadau a awgrymwyd, gydag un eithriad. Roedd anghytundeb cryf gan nifer fach o ymatebwyr bod gweithredu’r strategaeth yn cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg.

**Ffigur 3: Canlyniadau’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu’r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol:**




Ffynhonnell: Arolwg awdurdodau lleol, n = 12

### 3.1.2. Arolwg y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd

**Prif ganfyddiadau:**

- Mae amrywiad eang yn strwythurau gwaith a rolau beunyddiol swyddogion ymgysylltu â theuluoedd.
- Mae galluogwyr yn cynnwys ymreolaeth a hyblygrwydd, cefndir proffesiynol a brwdfrydedd, cyfleoedd hyfforddi, a rhwydweithio â swyddogion ymgysylltu â theuluoedd eraill.
- Ymhlith y rhwystrau y mae llwythi gwaith a llwythi achosion uchel, diffyg gofod ffisegol i weithio ynddo, a gorfod ymgymryd â gwaith nad yw'n waith swyddogion ymgysylltu â theuluoedd.
- Mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn nodi lefel uchel o ddealltwriaeth o ysgolion bro, ond mae llai na hanner yn teimlo bod yr ysgolion maen nhw'n gweithio gyda nhw yn deall ysgolion bro yn dda.

At ei gilydd, daeth 37 o ymatebion gan swyddogion ymgysylltu â theuluoedd presennol yng Nghymru i law. Daeth tua thraean o'r ymatebion o Ben-y-bont ar Ogwr (12), a daeth nifer tebyg o Gastell-nedd Port Talbot (10). Cafwyd ymatebion ychwanegol gan yr awdurdodau lleol canlynol: Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Bro Morgannwg, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, a Rhondda Cynon Taf (un ymateb yr un).

Roedd 25 o'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a atebodd yr arolwg wedi bod yn eu swydd ers mwy na dwy flynedd, naw rhwng un a dwy flynedd, a'r ymatebwyr sy'n weddill ers llai na blwyddyn. Ar gyfartaledd, mae'r swyddogion hyn yn gweithio gyda 3.3 o ysgolion (amrediad = 1–12). Roedd 22 o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol a 15 gan ysgol neu ysgolion.

O ran hyfforddiant, dywedodd pump eu bod yn cael hyfforddiant o leiaf unwaith y mis, 21 bob ychydig fisoedd, ac wyth ddwywaith y flwyddyn. Adroddodd yr ymatebwyr sy'n weddill amlder hyfforddi gwahanol (unwaith y flwyddyn, llai nag unwaith y flwyddyn, neu byth). Er gwaethaf yr amrywiad hwn, roedd 28 o'r 37 o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cyfarwyddyd a datblygiad proffesiynol.


Mae amrywiad sylweddol yn y math o hyfforddiant a faint o hyfforddiant y mae’r swyddogion yn ei gael. Pan ofynnwyd iddynt am yr hyfforddiant, y cyfarwyddyd a'r datblygiad proffesiynol yr oeddent wedi ymgymryd â hwy i gefnogi eu rôl, soniodd yr ymatebwyr am ystod eang o gyrsiau. Ymhlith y rhain oedd sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant sylfaenol ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, diogelu, cymorth cyntaf iechyd meddwl, dulliau sy'n seiliedig ar drawma, llesiant yn yr awyr agored, a hyfforddiant ar ddelio â sgyrsiau anodd a phrofedigaeth. Cyfeiriodd eraill at gyrsiau mwy arbenigol neu uwch fel y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gweithio gyda Rhieni a Gofalwyr, hyfforddiant Thrive i arweinwyr ac ymarferwyr, gweithio gydag

oedolion gelyniaethus, osgoi'r ysgol oherwydd gorbryder, trefnu cymunedol, Diploma Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a'r cymhwyster cydlynydd Bwyd a Hwyl.

Soniodd llawer o'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd eu bod yn barod i gael cyfleoedd hyfforddi mwy cydnabyddedig a ffurfiol, yn enwedig mewn meysydd megis iechyd meddwl, ymarfer sy'n ystyriol o drawma, datrys gwrthdaro, cyfryngu, a phresenoldeb yn yr ysgol. Fodd bynnag, tynnodd ymatebwyr eraill sylw at ddiffyg canllawiau clir a hyfforddiant ffurfiol wrth ymgymryd â'r rôl, ac roeddent yn teimlo y dylid teilwra hyn oherwydd bod y dull ysgolion bro yn aml yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, roedd bron pob un (34 o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd) wedi mynd i gyfarfodydd, digwyddiadau neu gynadleddau i gysylltu â swyddogion eraill. O'r rheini, roedd 32 o swyddogion yn eu cael yn ddefnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol.

Mae ymatebion i'r arolwg yn dangos amrywiad pwysig o ran yr ystod o weithgareddau y mae'r swyddogion yn ymgymryd â hwy, a pha mor aml ydynt. Mae'r swyddogion yn darparu cymorth un-i-un i ddysgwyr ac i rieni/gofalwyr neu deuluoedd amlaf, gyda 29 i 30 ohonynt yn nodi eu bod yn cyflawni'r gweithgareddau hyn yn ddyddiol neu'n wythnosol. Ymhlith y gweithgareddau cyffredin eraill a adroddir amdanynt a wneir yn ddyddiol neu'n wythnosol y mae sesiynau cymorth grŵp gyda rhieni/gofalwyr neu deuluoedd (16 o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd) ac ymweliadau â'r cartref (15 o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd). I'r gwrthwyneb, fe ddywedodd cyfran o swyddogion (saith ohonynt) nad ydynt byth yn rhoi cymorth ymarferol, fel casglu dysgwyr o'r ysgol, i deuluoedd.

**Ffigur 4: Gweithredu'r strategaeth ysgolion bro: Partneriaethau a chydweithrediadau. Nodwch pa mor aml rydych chi'n cydweithio â'r unigolion a grwpiau canlynol, fel rhan o'ch rôl fel swyddog ymgysylltu â theuluoedd**




Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, n = 37

Adroddodd swyddogion ymgysylltu â theuluoedd fod elfennau allweddol eraill o’u gwaith yn cynnwys cyflwyno sesiynau sy’n ystyriol o drawma i ddisgyblion, cysylltu ag asiantaethau allanol, megis banciau bwyd, Cyngor ar Bopeth, a thimau cymorth i deuluoedd, a chefnogi mentrau mewn ysgolion, megis siopau “Talwch fel y Mynnwch” a chlybiau brecwast. Weithiau mae’r swyddogion hefyd yn monitro presenoldeb ac yn cyfathrebu’n rheolaidd â theuluoedd trwy alwadau ffôn a negeseuon testun. Yn aml, mae eu cymorth yn ymestyn i feysydd ehangach o fywyd y teulu, gan gynnwys cymorth gyda chyllidebu, llywio argyfyngau tai, mentora rhieni/gofalwyr a theuluoedd, hyrwyddo rheoleiddio emosiynau, a magu hunan-barch a hyder rhieni. Yn ogystal, maen nhw'n helpu i gyfeirio pobl at gyrsiau cyflogadwyedd, yn gwrando ar deuluoedd ac yn eirioli drostynt, yn rhoi cymorth ynghylch anghenion ychwanegol, ac yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.


Tynnodd y swyddogion sylw hefyd at sawl rhwystr sy'n effeithio ar gyflawni eu gwaith. Ymhlith y rhain y mae llwythi gwaith trwm, llwythi achosion trwm, a'r her o gefnogi nifer o ysgolion. Adroddodd rhai eu bod wedi gwneud dyletswyddau eraill, megis cyflenwi yn y dosbarth (a grybwyllir mewn tri ymateb), sy'n cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer eu cyfrifoldebau craidd. Yn ogystal, ystyriwyd nid yw contract yn ystod y tymor yn unig yn ddigonol i swyddogion gefnogi teuluoedd sy'n gweithio'n effeithiol. Nodwyd hefyd fod diffyg gofod ffisegol pwrpasol ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn rhai ysgolion yn rhwystr i gyflawni eu rôl yn llwyddiannus. Roedd anawsterau wrth ymgysylltu â rhieni/gofalwyr yn thema gyffredin arall. Adroddwyd y gall stigma ynghylch ceisio cymorth ei gwneud hi'n anodd ymgysylltu. Nododd rhai swyddogion y gall rhieni/gofalwyr deimlo'n orbryderus wrth ryngweithio â rhieni/gofalwyr eraill a gweithwyr proffesiynol.

Ar y llaw arall, nododd y swyddogion hefyd hwyluswyr sy'n eu cefnogi yn eu rôl. Roedd rhyddid, hyblygrwydd, a'r gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain yn aml yn cael eu hamlygu fel pethau pwysig. Er enghraifft, ystyriwyd bod cael yr ymreolaeth i reoli eu dyddiaduron eu hunain i gyd-fynd ag anghenion teuluoedd a mynediad at ffôn symudol gwaith ar gyfer cyswllt uniongyrchol yn ffactorau allweddol. Roedd y gallu i addasu i anghenion beunyddiol a newidiol teuluoedd hefyd yn cael ei werthfawrogi. Nodwyd bod profiad blaenorol yn ddefnyddiol, fel bod wedi gweithio mewn ysgol neu fod yn rhiant i blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ystyriwyd bod angerdd personol dros y rôl ac ymrwymiad cryf i gefnogi teuluoedd hefyd yn gryfderau pwysig. Ymhlith yr hwyluswyr ychwanegol y soniwyd amdanynt y mae rhyngweithiadau anffurfiol bob dydd, fel sefyll wrth gatiau'r ysgol a sgwrsio â phlant a rhieni/gofalwyr.

Mae pob swyddog a ymatebodd (37) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae’n rhaid iddynt ei wneud yn eu rôl fel swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Mae rhwng 19 a 23 o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall pwy sy'n gyfrifol am weithredu’r strategaeth ysgolion bro o fewn yr awdurdod lleol, yr hyn a ddisgwylir gan bawb sy'n gysylltiedig, bod dysgwyr a theuluoedd wedi croesawu ysgolion bro, a bod ymrwymiad cryf

cyffredin ymhlith rhanddeiliaid allweddol (e.e. ysgolion, awdurdodau lleol, a phartneriaid cymunedol) i weithredu'r strategaeth. Fodd bynnag, mae deg swyddog yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod eu gwaith yn adlewyrchu'r hyn a ysgrifennwyd yn y disgrifiad o'r swydd. Yn nodedig, roedd llai na hanner y swyddogion yn teimlo bod gan yr ysgolion y maent yn gweithio gyda nhw ddealltwriaeth dda o'r strategaeth ysgolion bro, ac roedd 16 yn ymateb nad ydynt yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno, neu'n anghytuno'n gryf.


**Ffigur 5: Galluogwyr a rhwystrau i weithredu'r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol**




Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, n = 37

Roedd y mwyafrif o'r swyddogion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r mwyaf o'r datganiadau am ganlyniadau'r strategaeth ysgolion bro. Roedd 28 o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd o'r farn bod y strategaeth wedi cryfhau partneriaethau a gweithio amlasiantaeth ac wedi gwella llesiant dysgwyr. Teimlai 27 o swyddogion hefyd ei bod wedi arwain at ymgysylltu'n fwy â theuluoedd ac wedi cefnogi datblygiad cymdeithasol a phersonol dysgwyr, teuluoedd a chymunedau. Fodd bynnag, gan adlewyrchu barn swyddogion awdurdodau lleol, roedd naw swyddog yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y strategaeth wedi cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg.

**Ffigur 6: Canlyniadau'r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu'r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol:**




Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, n = 37

### 3.1.3. Arolwg o reolwyr ysgolion bro

**Prif ganfyddiadau:**


- Tystiolaeth eang o gydweithrediadau amrywiol, sy'n arwain at gefnogi teuluoedd mewn ffordd gyfannol, gwell llesiant a pherthyn, a llai o ddyblygu yn y system, yn ôl y sôn.
- Ymhlith y galluogwyr y mae gweithio mewn partneriaeth, eglurder a chyfathrebu, gwybodaeth leol, cymorth gan awdurdodau lleol, a rhwydweithio â rheolwyr eraill.
- Ymhlith y rhwystrau y mae ansicrwydd ynghylch cyllido, heriau wrth ymgysylltu ag ysgolion, a diffyg cymorth gan awdurdodau lleol.

Cawsom ymatebion gan 18 o reolwyr o 15 awdurdod lleol. Nid yw'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan wedi'u rhestru yma er mwyn gwarchod anhysbysrwydd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (13 o reolwyr) wedi bod yn eu rôl am fwy na dwy flynedd.

Nododd hanner y rheolwyr eu bod wedi cael hyfforddiant, cyfarwyddyd, neu ddatblygiad proffesiynol i gefnogi eu rôl bob ychydig fisoedd, tra bod pedwar wedi nodi eu bod wedi'i gael o leiaf unwaith y mis, a'r gweddill ychydig weithiau'r flwyddyn neu'n flynyddol. Roedd mwyafrif helaeth (17) wedi mynd i o leiaf un cyfarfod rhwydwaith ar gyfer rheolwyr ysgolion bro, ac roedd pob un wedi canfod bod y cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol i raddau.

Yn ôl ymatebion i'r arolwg, mae rheolwyr ysgolion bro yn cydweithio amlaf â swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, ac mae oddeutu 15 o reolwyr yn nodi eu bod yn cydweithio'n ddyddiol neu'n wythnosol. Ymhlith y grwpiau eraill y mae'r rheolwyr yn cydweithio â hwy yr un mor aml y mae asiantaethau a gwasanaethau statudol (a adroddwyd gan 13 o reolwyr), rhieni/gofalwyr a theuluoedd (a adroddwyd gan 12 o reolwyr), a sefydliadau yn y sector cymunedol a gwirfoddol (a adroddwyd gan 12 o reolwyr).

**Ffigur 7: Gweithredu'r strategaeth ysgolion bro: Partneriaethau a chydweithrediadau. Nodwch pa mor aml rydych chi'n cydweithio â'r unigolion ar grwpiau canlynol fel rhan o'ch rôl fel rheolwr ysgolion bro**




Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer rheolwyr ysgolion bro, n = 18

Adroddodd rhai rheolwyr hefyd eu bod wedi ymgysylltu ag ystod ehangach o bartneriaid y tu hwnt i'r rheini a grybwyllir yn y graff uchod. Ymhlith y rhain y mae disgyblion, gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag addysg, megis contractwyr prydau bwyd ysgol, darparwyr y blynyddoedd cynnar, cymorth i bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), y gwasanaeth lles addysg, a'r gwasanaeth cerddoriaeth; sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys elusennau a darparwyr arbenigol; cyrff lleol fel cynghorau tref a'r Uchel Siryf; a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys tai, yr heddlu, meddygon teulu, gwasanaethau iechyd, CAMHS, a Chyngor ar Bopeth. Fe wnaethon nhw hefyd weithio gyda gwirfoddolwyr cymunedol a mentrau lleol megis canolfannau hamdden a gweithgareddau.

Pan ofynnwyd am effeithiau'r cydweithrediadau hyn, amlygwyd sawl canlyniad allweddol. Soniwyd, o ganlyniad i'r cydweithio, fod teuluoedd wedi cael cymorth cyfannol ac amserol, gan alluogi gwelliannau mewn llesiant trwy ddarparu gwasanaethau ategol a lleihau dyblygu cymorth. Yn ogystal, mae disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth ehangach o'u hawliau, ac mae ymdeimlad cryfach o gymuned a pherthyn wedi'i feithrin o amgylch ysgolion. Nodwyd hefyd fod y gwaith wedi helpu i sefydlu grwpiau cymheiriaid ar gyfer rhieni, gan ddarparu gofod i wrando ar eu hanghenion ac ymgysylltu â gwasanaethau lleol i gefnogi cymunedau ADY. Soniodd un rheolwr, “Heb y cydweithrediadau hyn, ni fyddai gen i'r wybodaeth na'r gallu i gyflawni fy rôl.” Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod y gall cydweithio cyson gymryd llawer o amser, a gall fod yn heriol rheoli'r llwyth gwaith ar adegau.

Ymhlith y galluogwyr yr adroddwyd amdanynt y mae gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig ymgysylltu gan bartneriaid cymunedol, cymorth o fewn yr awdurdod lleol, a rhwydweithio a chymorth gan reolwyr eraill. Tynnwyd sylw hefyd at eglurder o ran ffiniau a chyfrifoldebau, yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth leol. Nododd y rheolwyr bedwar prif fath o rwystrau wrth gyflawni eu rolau. Cyllid a diogelwch swyddi oedd yr heriau a nodwyd amlaf. Adroddwyd bod cyllid tymor byr ac ansicr yn cyfyngu ar y gallu i gynllunio ar gyfer yr hirdymor, yn effeithio ar y gallu i gadw staff, ac yn tanseilio cynaliadwyedd rhaglenni. Mae contractau dros dro, megis swyddi am gyfnod o chwe mis, yn creu ansefydlogrwydd, gan ei gwneud hi'n anodd meithrin cydberthnasau cryf a rhoi cymorth cyson.

Daeth ymgysylltu gan ysgolion i'r amlwg fel problem hefyd. Adroddodd sawl rheolwr am ddiffyg dealltwriaeth neu ymgysylltu gan rai ysgolion, yn enwedig yn ystod y camau cynnar o weithredu'r strategaeth. Disgrifiwyd ysgolion uwchradd fel rhai llai derbyniol nag ysgolion cynradd, a effeithiodd ar hyder staff ac a arweiniodd rhai i flaenoriaethu gwaith mewn lleoliadau mwy cefnogol. Roedd camsyniadau bod y rheolwyr yn canolbwyntio'n unig ar wella presenoldeb hefyd yn ei gwneud hi'n anodd dangos gwerth ehangach y dull a sicrhau ymrwymiad llawn.


Adroddwyd hefyd am heriau yn ymwneud ag ymgysylltiad awdurdodau lleol. Roedd rhai adrannau o fewn awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn ddiffygiol o ran eu dealltwriaeth o'r sefyllfaoedd cymhleth y mae teuluoedd yn eu hwynebu, a'u gallu i

gydymdeimlo â hwy. Roedd hefyd achosion o amharodrwydd gan dimau awdurdodau lleol i gydweithio â staff ysgolion bro oherwydd pryderon ynghylch dyblygu rolau a diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau.

Yn olaf, soniwyd hefyd am rwystrau a wynebir gan y teuluoedd eu hunain. Mae teuluoedd yn aml yn wynebu heriau ymarferol, megis problemau trafnidiaeth a mynediad cyfyngedig at wasanaethau a gweithgareddau. Gall y rhwystrau hyn effeithio ar eu gallu i ymgysylltu'n llawn â'r cymorth a gynigir trwy'r strategaeth ysgolion bro.

Roedd y mwyaf o'r rheolwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â datganiadau a oedd yn dangos dealltwriaeth a derbyniad da o'r strategaeth. Teimlai 12 fod gan yr ysgolion maen nhw'n gweithio gyda nhw ddealltwriaeth dda o'r strategaeth ysgolion bro, a dywedodd 15 fod eu gwaith yn cyd-fynd â'r disgrifiad o'u swydd. Adroddodd y mwyafrif helaeth (16) ymrwymiad cyffredin eang i weithredu'r strategaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol, ac roedd yr un nifer yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o'u rôl fel rheolwr ysgolion bro. Ar ben hynny, dywedodd 17 o reolwyr eu bod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth o fewn yr awdurdod lleol a'r hyn a ddisgwylir gan bawb sy'n gysylltiedig. Yn ogystal, cytunodd 16 fod dysgwyr a theuluoedd wedi croesawu'r dull ysgolion bro.


**Ffigur 8: Galluogwyr a rhwystrau i weithredu'r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol**




Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer rheolwyr ysgolion bro, n = 18

Roedd y mwyafrif o'r rheolwyr a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r mwyaf o'r datganiadau am ganlyniadau'r strategaeth ysgolion bro. Roedd pob ymatebydd yn credu bod y strategaeth wedi cynyddu ymgysylltu â'r gymuned, wedi cryfhau ymgysylltu â theuluoedd, ac wedi gwella gweithio gyda phartneriaethau a gweithio amlasiantaeth. Teimlai rhwng 17 a 18 o reolwyr bod y strategaeth wedi gwella ymgysylltu ag addysg (e.e. presenoldeb) ac wedi cefnogi datblygiad cymdeithasol a phersonol dysgwyr, teuluoedd a chymunedau. Yn ogystal, cytunodd 17 fod y strategaeth wedi cyfrannu at gynnydd mewn datblygiad proffesiynol a 12 at well llesiant dysgwyr. Fodd bynnag, dim ond dau reolwr oedd yn anghytuno bod y strategaeth wedi cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg.

**Ffigur 9: Canlyniadau'r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu'r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol:**




Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer rheolwyr ysgolion bro, n = 18

### 3.1.4. Arolwg ysgolion (byr)

**Prif ganfyddiadau:**

- Mae bron pob ysgol yn nodi bod ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn flaenoriaeth, ac mae ychydig dros ddau draean yn nodi dealltwriaeth dda o’r strategaeth.
- Ymhlith y prif resymau dros beidio â gweithredu’r strategaeth yn llawn y mae diffyg adnoddau a gwybodaeth, a theimlad nad y strategaeth yw'r dull cywir.


Cafwyd ymatebion gan 91 o ysgolion. Gallai ysgolion naill ai ddarparu eu cyfeirnod neu ateb cwestiynau ychwanegol am eu nodweddion, fel awdurdod lleol a maint. I'r rheini a roddodd cyfeirnod dilys, cysylltwyd yr ymatebion â data ar nifer y myfyrwyr, canran y myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y cymhareb disgybl–athro, cyfradd presenoldeb disgyblion, a chyllideb yr ysgol fesul disgybl, gan ddefnyddio ffynonellau megis Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, a ffigurau Fy Ysgol Leol o 2024. Darparodd deugain o ysgolion gyfeirnod, ond dim ond ar gyfer 30 ohonynt y gellid paru data. Ar gyfer y 61 ysgol sy'n weddill, fe ddefnyddiwyd gwybodaeth a adroddwyd ganddynt yn uniongyrchol yn yr arolwg, pan oedd ar gael.

Ymhlith yr ysgolion yr oedd y data hwn ar gael ar eu cyfer, daeth y nifer uchaf o ymatebion o ysgolion ym Mhowys (wyth ysgol), ac yna Abertawe (pedair ysgol). Cafwyd ymatebion hefyd gan ysgolion ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Torfaen, a Wrecsam.

Daeth mwyafrif yr ymatebion o ysgolion cynradd (72 o ysgolion), ac yna ysgolion uwchradd (chwe ysgol), ysgolion arbennig (tair ysgol), meithrinfeydd (dwy ysgol), ac ysgolion phob oed (un ysgol). Roedd nifer y disgyblion yn yr ysgolion hyn yn amrywio o 33 i 1,200, ac roedd canran yr ysgolion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn amrywio o 1% i 71%. Ymhlith y rheini a roddodd gyfeirnod dilys, 91.3% (amrediad: 85% i 95%) oedd y gyfradd bresenoldeb gyfartalog, 20:3 (amrediad: 13.5 i 29.2) oedd y gymhareb disgybl–athro, a £4,931 (amrediad: £4,000 i £6,000) oedd y gyllideb gyfartalog fesul disgybl.

Roedd y mwyaf o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg (89 o ysgolion) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau yn flaenoriaeth i'w hysgol. Roedd 67 o ysgolion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ganddynt ddealltwriaeth dda o ysgolion bro, tra oedd deg ysgol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

**Ffigur 10: Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol**





Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fer), n = 91

Nododd llai na hanner yr ymatebwyr (40 o ysgolion) eu bod yn gweithredu’r strategaeth yn weithredol, nododd 39 eu bod yn ei gweithredu i ryw raddau, a nododd 12 nad oeddent yn ei gweithredu o gwbl.

Gofynnwyd i'r 51 o ysgolion nad oeddent yn gweithredu’r strategaeth yn llawn am y rhesymau dros hynny. Gwnaeth mwyafrif o 42 o ysgolion gytuno neu gytuno’n gryf fod diffyg cyllid ac adnoddau yn rhwystr allweddol. Dywedodd dros hanner (29 o ysgolion) nad oeddent yn glir ynglŷn â beth yw’r strategaeth ysgolion bro neu sut y dylid ei gweithredu. Fodd bynnag, roedd 30 o ysgolion yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad “Nid yw’r strategaeth yn cyd-fynd â'n ffyrdd o weithio”, gan awgrymu y gallai'r broblem fod oherwydd diffyg adnoddau yn hytrach na chydnawsedd ag ethos y rhaglen.

**Ffigur 11: Dywedwch wrthym i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r rhesymau posibl canlynol pam <u>nad</u> ydych chi'n gweithredu’r strategaeth yn llawn**




Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fer), n = 51

Mewn ymatebion testun agored, rhoddodd ysgolion gyd-destun pellach ynghylch pam nad oeddent yn gweithredu'r strategaeth yn llawn. Roedd y mwyaf o'r ymatebion yn tynnu sylw at ddiffyg amser neu adnoddau i ryddhau aelodau staff i gefnogi'r broses o weithredu'r strategaeth. Byddai unrhyw ymdrechion i wneud hyn yn golygu na fyddai'r ysgol yn gallu cyflawni ei chyfrifoldebau addysgu craidd. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn teimlo bod diffyg tryloywder ynghylch sut mae ysgolion yn cael eu dewis i gael swyddog ymgysylltu â theuluoedd a sut i wneud cais am gyllid sy'n gysylltiedig â'r strategaeth, tra nad oedd eraill wedi clywed dim byd am y strategaeth. Awgrymodd ychydig o ymatebion eraill fod y strategaeth yn gosod gofynion gormodol ar ysgolion, gan ymestyn eu cyfrifoldebau y tu hwnt i addysgu, gan arwain rhai i deimlo bod y cyfrifoldebau hyn wedi "mynd yn rhy bell".

> "Nid ydym yn rhieni corfforaethol, rydym yn addysgwyr." (Ymatebydd i'r arolwg byr ar gyfer ysgolion)

### 3.1.5. Arolwg ysgolion (manwl)

**Prif ganfyddiadau:**

- Mae ystod eang o weithgareddau'n cael eu darparu o dan y strategaeth ysgolion bro, a'r rheini sy'n ymwneud ag ymgysylltu rhieni yw'r rhai mwyaf cyffredin.
- Mae tystiolaeth eang o fwy o gydweithio, yn enwedig gyda rhieni a theuluoedd, ond tystiolaeth gyfyngedig o gydweithrediadau cwbl newydd.
- Nid oedd dwy ran o dair yn ymwybodol bod cyllid cyfalaf ar gael ar gyfer ysgolion bro.
- Adroddwyd ar lefelau uchel o eglurder ynghylch y strategaeth a'i gweithrediad, ond adroddwyd bod cyllid ac adnoddau yn rhwystr amlwg.

Cafwyd ymatebion gan 22 o ysgolion, y mwyaf gan benaethiaid neu ddirprwy benaethiaid. Fel gyda'r arolwg byrrach, gallai ysgolion ddewis darparu cyfeirnod ai peidio. Gwnaeth 13 hynny, er na ellid dilysu pedwar o'r rhain (gweler yr arolwg (byr) o ysgolion i gael manylion ar sut y casglwyd data).

Daeth y nifer uchaf o ymatebion o ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot (naw ysgol), ac yna Conwy (tair ysgol), a Chasnewydd (dwy ysgol). Cafwyd un ymateb gan bob un o nifer o awdurdodau lleol eraill. Roedd data awdurdod lleol ar goll ar gyfer pedair ysgol.

Ysgolion cynradd (13 ysgol) oedd y mwyaf o'r ysgolion a gymerodd ran, ac yna ysgolion uwchradd (pedair ysgol) ynghyd ag un ysgol arbennig. Ar gyfartaledd, roedd gan yr ysgolion hyn 392 o ddysgwyr (amrediad: 126 i 1,025) gyda 30% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (amrediad: 2% i 71%). Ymhlith yr ysgolion a ddarparodd


gyfeirnod dilys, 90% (amrediad: 86% i 93%) oedd y gyfradd bresenoldeb gyfartalog, 20 (amrediad: 15:25) oedd y gymhareb disgybl–athro, a £5,217 (amrediad: £4,350 i £6,700) oedd y gyllideb gyfartalog fesul disgybl.

Adroddodd naw ysgol eu bod wedi gweithredu'r strategaeth fel rhan o glwstwr, gan weithio fel arfer gyda chyfartaledd o 5.5 o ysgolion eraill (yn amrywio o dair i wyth). Nid oedd y 12 ysgol sy'n weddill yn rhan o glwstwr, ac roedd un ysgol yn ansicr. Yn y mwyaf o’r achosion, lle'r oedd ysgolion yn gweithio gyda swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, roeddent yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol (12 ysgol), tra oedd y gweddill (wyth ysgol) yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol.

Pan ofynnwyd iddynt am ymwybyddiaeth o’r cyllid grant cyfalaf sydd ar gael ar gyfer datblygu adeiladau a chyfleusterau o dan strategaeth ysgolion bro, dywedodd 14 ysgol nad oeddent yn ymwybodol, dywedodd pum ysgol eu bod yn ymwybodol, ac roedd tair ysgol yn ansicr.

O'r ysgolion oedd yn ymwybodol, nid yw'r mwyaf yn cytuno nac yn anghytuno, yn ansicr, neu'n teimlo ei bod hi'n rhy gynnar i wybod a yw: i) y seilwaith a ddatblygwyd trwy’r strategaeth wedi cefnogi ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned (14 ysgol), ii) a yw'r cyllid yn ddigonol i ddatblygu'r seilwaith y mae ei angen ar gyfer gweithredu’r strategaeth (13 ysgol), a iii) a yw'r seilwaith wedi helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol (12 ysgol). Fodd bynnag, ymhlith yr opsiynau hyn, mae 21 o ysgolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y seilwaith a ddatblygwyd fel rhan o’r strategaeth ysgolion bro wedi cefnogi ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau.


**Ffigur 12: Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro (seilwaith): Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol**




Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fanwl), n = 21

At ei gilydd, roedd gweithgareddau wythnosol yn llawer mwy cyffredin na rhai dyddiol ar draws pob categori. Y gweithgaredd yr adroddwyd amdano amlaf oedd cynnwys rhieni/gofalwyr a theuluoedd ym mywyd ysgol eu plentyn/plant, gyda 15 o ysgolion yn nodi eu bod yn cynnal y gweithgareddau hyn yn ddyddiol neu'n wythnosol. Ymhlith y gweithgareddau eraill a wneir yn gyffredin yn ddyddiol neu'n wythnosol y mae darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu fel teulu (12 ysgol), galluogi defnydd cymunedol ehangach o'r ysgolion (deg ysgol), a chefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref (deg ysgol). Mewn cyferbyniad, y gweithgareddau gyda'r cyfrannau mwyaf o ymatebion “byth” oedd ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i gynllunio a gwneud penderfyniadau am y strategaeth (pedair ysgol) a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymunedol i oedolion (pedair ysgol).


**Ffigur 13: Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro (ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned): Pa mor aml mae eich ysgol yn darparu'r mathau canlynol o weithgareddau, gwasanaethau neu fentrau fel rhan o'r strategaeth ysgolion bro?**




Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fanwl), n = 22

Gwnaeth y mwyaf o'r ymatebwyr o ysgolion gytuno neu gytuno'n gryf fod gweithredu’r strategaeth ysgolion bro wedi eu helpu i gael mynediad at gyllid i gyflwyno gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned (12 ysgol), bod ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned fel rhan o’r strategaeth wedi helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol (15 ysgol), a bod y gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd fel rhan o’r strategaeth wedi helpu gydag ymdrechion i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned (19 ysgol).


**Ffigur 14: Gweithredu’r strategaeth ysgolion bro (ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned): Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol**




Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fanwl), n = 22

Ers gweithredu’r strategaeth ysgolion bro, y grŵp y nododd ysgolion eu bod yn cydweithio ag ef yn amlach yw rhieni/gofalwyr a theuluoedd (16 ysgol), ac yna asiantaethau a gwasanaethau statudol (12 ysgol), a sefydliadau’r sector cymunedol a gwirfoddol (11 ysgol). Yn ddiddorol, adroddodd un ysgol ei bod wedi cychwyn cydweithio am y tro cyntaf â sefydliadau yn y sector cymunedol a gwirfoddol, sefydliadau addysg uwch, a grwpiau crefydd a chred o ganlyniad i’r strategaeth. Mewn cyferbyniad, nododd cyfran o ysgolion (rhwng wyth ac 13 ysgol) fod eu lefel o gydweithio â'r mwyaf o’r grwpiau, ac eithrio rhieni/gofalwyr a theuluoedd, a grybwyllwyd gan bum ysgol, wedi parhau i fod yr un peth. Hefyd, adroddodd un ysgol fesul achos am ostyngiad mewn cydweithio ers gweithredu’r strategaeth, yn enwedig yn achos grwpiau crefydd a chred, sefydliadau celfyddydol a chreadigol, cymdeithasau tai, a’r awdurdod lleol. Fel gydag arolygon yr awdurdodau lleol, roedd tystiolaeth gyfyngedig o gydweithrediadau a oedd yn gwbl newydd.

**Ffigur 15: Gweithredu'r strategaeth ysgolion bro (partneriaethau a chydweithrediadau): Ers gweithredu'r strategaeth, sut mae eich partneriaethau a'ch cydweithrediadau â'r canlynol wedi newid?**





Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fanwl), n = 22

Adroddodd ysgolion eu bod hefyd yn cydweithio ag ystod eang o unigolion a grwpiau eraill. Ymhlith y partneriaid allweddol y mae asiantaethau allanol megis Barnardo's, Gweithredu dros Blant, a grwpiau cymunedol lleol. Mae cydweithio hefyd yn ymestyn i wasanaethau fel asiantaethau tai a budd-daliadau, banciau bwyd lleol, canolfannau teuluoedd lleol, a gweithwyr ieuenctid. Mae staff yn gweithio ar y cyd â darparwyr dysgu i oedolion, hyfforddwyr dysgu yn yr awyr agored, ac artistiaid lleol, ac yn cynnal mentrau fel dosbarthiadau hunanamddiffyn a sesiynau galw heibio i ofalwyr ifanc.

Ymhlith effeithiau'r cydweithrediadau hyn yr adroddwyd amdanynt y mae rhieni'n ymgysylltu'n fwy â dysgu a gweithgareddau ysgol eu plant, llesiant gwell, a chydberthnasau cryfach rhwng rhieni/gofalwyr, ysgolion, a'r gymuned leol. Ymhlith y manteision hyn yw bod rhai teuluoedd wedi cael eu cyfeirio at asedau cymunedol. Mae cydweithio a rhannu ymarfer ymhlith gweithwyr proffesiynol wedi meithrin canlyniadau cadarnhaol i ddisgyblion, teuluoedd ac aelodau'r gymuned, gan gynnwys presenoldeb gwell, llai o waharddiadau, a chanlyniadau gwell yng Nghyfnod Allweddol 4. Adroddwyd hefyd am welliannau ym mhresenoldeb mewn clybiau ieuenctid a llesiant cyffredinol myfyrwyr. Fodd bynnag, dywedodd rhai ysgolion hefyd ei bod hi'n rhy gynnar i wybod a yw'r cydweithrediadau'n dwyn ffrwyth ai peidio.

Roedd y mwyafrif o'r ysgolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â datganiadau a oedd yn dangos dealltwriaeth a derbyniad da o'r strategaeth. Cytunodd dros hanner yr ysgolion (14 ysgol) fod staff eraill yn eu hysgol yn glir ynglŷn â beth yw'r strategaeth ysgolion bro a sut i'w gweithredu, dywedodd mwyafrif (15 ysgol) fod dysgwyr a theuluoedd wedi croesawu'r strategaeth, ac roedd mwyafrif helaeth (19 ysgol) yn teimlo'n glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth a'r hyn sy'n ofynnol gan y rheini sy'n cymryd rhan, yn ogystal â beth yw'r strategaeth a sut i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd llai na hanner yr ysgolion (saith ysgol) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gan staff ddigon o amser ac adnoddau i weithredu'r strategaeth ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau eraill, gyda chyfran gyfartal (saith ysgol) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â hyn.


**Ffigur 16: Galluogwyr a rhwystrau i weithredu'r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad**




Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fanwl), n = 21

Roedd y mwyaf o’r ymatebwyr ysgolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r mwyaf o’r datganiadau am ganlyniadau’r strategaeth ysgolion bro. Roedd y mwyafrif helaeth o ysgolion (20 ysgol) yn credu bod y strategaeth wedi gwella gweithio mewn partneriaethau a gweithio amlasiantaeth, tra bod mwyafrif (18 ysgol) yn teimlo ei fod wedi gwella llesiant dysgwyr, cynyddu ymgysylltu â theuluoedd, a chryfhau ymgysylltu â'r gymuned. Cytunodd 16 o ysgolion fod y strategaeth ysgolion bro wedi arwain dysgwyr i ymgysylltu’n well ag addysg ac wedi arwain at newidiadau cadarnhaol yn niwylliant yr ysgol a gwell datblygiad cymdeithasol a phersonol i ddysgwyr, teuluoedd a chymunedau. Yn ogystal, adroddodd 14 ysgol am welliannau yng nghyrhaeddiad dysgwyr a chynnydd mewn capasiti ac adnoddau o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, roedd naw ymatebydd yn anghytuno bod y strategaeth wedi cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg.

**Ffigur 17: Canlyniadau’r strategaeth ysgolion bro: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Mae gweithredu’r strategaeth ysgolion bro wedi arwain at y canlynol:**




Ffynhonnell: Arolwg ysgolion (fersiwn fanwl), n = 22

## 3.1.6. Arolwg o rieni a gofalwyr

**Prif ganfyddiadau:**


- Roedd y mwyaf o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn teimlo eu bod yn rhan o ysgol eu plentyn a bod yr ysgol yn gwneud ymdrech i ymgysylltu â theuluoedd.
- Roedd rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi cyfathrebu a chyfleoedd i ddysgu ar y cyd, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwrando arnynt.
- Adroddwyd am heriau o ran cael amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n gweithio.

Cwblhawyd yr arolwg gan 114 o rieni a gofalwyr ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos. Daeth y mwyaf o'r ymatebion o Gaerdydd (44%) a Chastell-nedd Port Talbot (39%), gyda llai o ymatebion o Wrecsam (7%) a Sir Benfro (6%). Ni chafwyd yr un ymateb o Wynedd. Ni nododd 4% o'r ymatebwyr ysgol eu plentyn, felly ni ellid adnabod eu hawdurdod lleol.

Pan ofynnwyd iddynt a yw ysgol eu plentyn yn gwneud ymdrech gref i ymgysylltu â theuluoedd, a ydynt yn gwybod beth yw'r strategaeth ysgolion bro, a ydynt yn teimlo eu bod yn rhan o ysgol eu plentyn, ac a yw ysgol eu plentyn yn rhan ganolog o'r gymuned, roedd y mwyaf o'r rhieni a gofalwyr (o leiaf 70%) yn cytuno naill ai llawer neu ychydig â'r datganiadau hyn. Yn arbennig, y datganiad gyda'r lefel uchaf o gytundeb oedd "Mae ysgol fy mhlentyn yn gwneud ymdrech fawr i ymgysylltu â theuluoedd", gyda thua 85% o'r ymatebwyr yn cytuno llawer neu ychydig. Gwelwyd patrymau tebyg ar draws awdurdodau lleol.

Mewn cyferbyniad, ymwybyddiaeth o beth oedd y strategaeth ysgolion bro oedd y datganiad gyda'r gyfran uchaf o ansicrwydd neu anghytundeb. Roedd oddeutu 30% o rieni/gofalwyr naill ai'n anghytuno, heb gytuno nac anghytuno, neu wedi dewis "Dydw i ddim yn gwybod".

**Ffigur 18: Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol**





Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer rhieni a gofalwyr, n = 114

Pan ofynnwyd iddynt pa weithgareddau ysgol yr oeddent wedi ymgymryd â hwy, nid oedd unrhyw weithgaredd yn amlwg ar draws y sampl gyffredinol. Y ddau weithgaredd a grybwyllwyd amlaf oedd digwyddiadau chwaraeon (tua 23%) a sesiynau aros-a-chwarae (tua 20%). Y gweithgaredd lleiaf cyffredin oedd cegin/caffi ysgol neu gymunedol, a ddewiswyd gan lai nag 1% o'r ymatebwyr. Yn ogystal, soniodd tua 4% o rieni/gofalwyr am weithgareddau eraill, gan gynnwys mynd i'r eglwys, gwylio llyfrau plant, cyngherddau, neu ddigwyddiadau Nadolig.

Fodd bynnag, gwelwyd rhywfaint o amrywiad ar draws awdurdodau lleol, er y dylid dehongli'r tueddiadau hyn yn ofalus, o ystyried y nifer wahanol o ymatebion a gafwyd fesul ardal. Yng Nghaerdydd a Chastell-nedd Port Talbot, digwyddiadau chwaraeon a sesiynau aros-a-chwarae oedd y gweithgareddau a ddewiswyd amlaf, gyda dros hanner yr ymatebwyr o Gaerdydd yn sôn am o leiaf un o'r rhain (28 a 30 o ymatebwyr, yn y drefn honno). Mewn cyferbyniad, roedd y gweithgareddau hyn yn llai cyffredin yn Sir Benfro a Wrecsam. Yn Sir Benfro, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd gweithio gyda swyddog ymgysylltu â theuluoedd, mynd i ddigwyddiadau dysgu fel teulu, a "dim o'r uchod", pob un wedi'i grybwyll gan tua 22% o'r ymatebwyr (tri rhiant/gofalwr). Yn Wrecsam, y gweithgaredd a grybwyllwyd amlaf oedd gweithio gyda swyddog ymgysylltu â theuluoedd hefyd, a ddewiswyd gan dri ymatebydd. Dylid nodi bod dulliau dosbarthu arolygon yn amrywio ar draws ardaloedd, a lle roedd swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn chwarae rhan bwysig yn y dosbarthiad, gallai hyn fod wedi dylanwadu ar gyfran y rhieni/gofalwyr a nododd eu bod wedi gweithio gyda'r swyddogion hyn.

**Ffigur 19: Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi cymryd rhan ynddynt sy'n gysylltiedig ag ysgol eich plentyn?**




Ffynhonnell: Arolwg ar gyfer rhieni a gofalwyr, n = 114, atebion lluosog

Gofynnwyd i rieni/gofalwyr am y ffyrdd pwysicaf o fod yn rhan o addysg eu plentyn. Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd cyfathrebu cryf a chydberthnasau cadarnhaol ag athrawon. Mae rhieni/gofalwyr am gael gwybod am gynnydd, llesiant a gweithgareddau ysgol eu plentyn, a theimlo bod eu pryderon yn cael eu clywed a'u datrys.

> "Cyfathrebu da ag athrawon, adborth gonest." (Rhiant neu ofalwr)

Agwedd arall a amlygwyd gan rieni/gofalwyr oedd y cyfle i "ddysgu gyda'i gilydd" gyda'u plant. Roedd gweithgareddau megis dosbarthiadau dysgu fel teulu, sesiynau coginio neu arddio, ac apiau addysgol a rennir yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu bod yn caniatáu i rieni/gofalwyr ddeall yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu ac yn eu caniatáu i'w cefnogi yn y cartref.

> "Dysgu gyda'n gilydd. Mwy o gyfleoedd i weld sut alla i helpu fy mhlentyn gartref ar ei lefel ef. Mwy o weithgareddau ysgol fel gardd lysiau y gall rhieni ddod i mewn a helpu gyda nhw. Mwy o gyfleoedd wyneb yn wyneb." (Rhiant neu ofalwr)

Nododd rhieni/gofalwyr hefyd yr heriau o ran cymryd rhan oherwydd gwaith neu gyfyngiadau eraill ar eu hamser. Gofynnodd llawer am drefniadau mwy hyblyg neu rybudd ymlaen llaw am ddigwyddiadau ysgol i alluogi cyfranogiad ehangach.

> "Cyfarfodydd ag athrawon ar ôl oriau ysgol oherwydd ein bod ni'n cael trafferth gwneud gweithgareddau eraill oherwydd ein bod ni'n dau'n gweithio'n llawn-amser." (Rhiant neu ofalwr)

> "Rwy'n dwlu ar y ffaith bod ganddyn nhw ddiwrnodau ymgysylltu â rhieni, ond mae'n anodd iawn bod yn rhieni sy'n gweithio oherwydd na allwn ni fod yn bresennol ac rwy'n teimlo'n drist dros fy mhlant." (Rhiant neu ofalwr)

Pan ofynnwyd iddynt beth allai ysgolion ei wneud yn well i weithio gyda theuluoedd a chymunedau, fe dynnodd rhieni/gofalwyr sylw at sawl maes allweddol. Ystyriwyd bod cyfathrebu clir ac amserol yn hanfodol, gyda rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi rhybudd ymlaen llaw o ddigwyddiadau, diweddariadau rheolaidd ar gynnydd eu plentyn, ac arweiniad ar y cymorth neu adnoddau cymunedol sydd ar gael.

> "Rhoi digon o rybudd o pryd mae'r gweithgareddau'n digwydd." (Rhiant neu ofalwr)

> "Diweddariadau gonest rheolaidd a chyfeirio at grwpiau neu asiantaethau allanol os oes angen." (Rhiant neu ofalwr)

Pwysleisiodd llawer o rieni/gofalwyr hefyd ba mor bwysig yw hi bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried, gan awgrymu y gallai ysgolion wella cyfranogiad drwy geisio adborth yn weithredol a chydnabod na fydd pob teulu'n cytuno â phob penderfyniad.

> "Byddwch yn agored i'r ffaith nad yw pawb yn cytuno â'u penderfyniadau, a byddai gofyn mwy i rieni am bethau penodol yn gwella eu cyfranogiad." (Rhiant neu ofalwr)

Yn olaf, roedd rhai rhieni/gofalwyr yn fodlon ar y ffordd roedd ysgolion eisoes yn perfformio.

> "A dweud y gwir, dydw i ddim yn meddwl bod angen ei wella. Mae cyfathrebu wedi bod yn wych a hyd yn oed yn well ers defnyddio'r ap Dojo." (Rhiant neu ofalwr)

## 3.2. Cyfweliadau dilynol

Mae'r adran hon yn cynnwys canfyddiadau o gyfweliadau â rheolwyr ysgolion bro (n = 6) a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (n = 5) a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2025.

### 3.2.1. Rheolwyr ysgolion bro

**Prif ganfyddiadau:**

- Adroddodd y rheolwyr bod tensiwn rhwng gwerthfawrogi ymreolaeth a theimlo bod diffyg arweiniad ar y cychwyn.
- Roedd y dulliau o ymgysylltu ag ysgolion yn amrywio – roedd rhai'n defnyddio data i dargedu angen, roedd rhai'n targedu ysgolion uwchradd a'u clystyrau, ac roedd rhai'n anelu at ledaenu adnoddau mor gyfartal â phosibl.
- Ymhlith y ffactorau llwyddiant y mae ymrwymiad gan bobl allweddol, yn enwedig yr awdurdod lleol, seilwaith, teilwra i anghenion lleol, ac ymgynghori â theuluoedd.
- Ymhlith y rhwystrau y mae diffyg eglurder ynghylch strategaeth a chanlyniadau, heriau wrth ennill ymrwymiad gan ysgolion, ansicrwydd ynghylch cyllid, a chapasiti awdurdodau lleol.

#### 3.2.1.1. Rôlau a chyfrifoldebau

Datgelodd canfyddiadau o'r cyfweliadau dilynol â rheolwyr ysgolion bro natur a'r sail resymegol dros yr amrywiadau ledled Cymru. Mae'r rheolwyr wedi'u lleoli o fewn ystod o adrannau awdurdodau lleol, gan arwain at amrywiadau yn eu strwythurau gweithredol. Daeth y rheolwyr a gymerodd ran o ystod o gefndiroedd proffesiynol hefyd, gan gynnwys gwaith ieuenctid ac addysg, a ddylanwadodd ar eu dulliau o ymdrin â'r strategaeth ysgolion bro a'i gweithrediad.

Er bod cyfrifoldebau penodol y rheolwyr yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, pwyslais cyffredin y rôl oedd cynllunio a chydlynu strategol. Roedd hyn yn cynnwys nodi ffynonellau ariannu a grantiau amgen, sefydlu rhwydweithiau, ac eirioli dros newidiadau ehangach o fewn yr awdurdod lleol a chymunedau lleol i gefnogi'r

strategaeth. Cafodd y gweithrediad amrywiol o'r rôl ei gydnabod yn eang ymhlith y rheolwyr yn y cyfweliadau. Er bod yr hyblygrwydd hwn yn aml yn cael ei ystyried yn gryfder, nododd y rheini a gyfwelwyd hefyd heriau wrth ddewis cyfeiriad strategol a oedd yn cyd-fynd â'r strategaeth, gan gwestiynu a oedd eu hymdrechion yn cyd-fynd â'r canlyniadau a fwriadwyd.

Nodwyd bod oedi wrth ryddhau canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu at anghysondebau yn y ffordd y cafodd y strategaeth ei dehongli a'i gweithredu. Dywedodd un rheolwr fod y canllawiau wedi'u rhyddhau "yn llawer rhy hwyr". Arweiniodd yr oedi hwn hefyd at gwestiynau gan rai reolwyr o ran a oeddent yn cymhwyso'r strategaeth yn "gywir". Fodd bynnag, pan gawsant eu ryddhau, adroddodd y mwyaf fod y canllawiau a ddarparwyd yn ddefnyddiol ac yn sylfaen gref i ysgolion a chymunedau sy'n gweithredu'r strategaeth ysgolion bro. Awgrymodd sawl cyfranogwr y byddai cynnwys rheolwyr yn natblygiad fersiynau yn y dyfodol o'r canllawiau yn eu gwneud yn fwy perthnasol ac yn fwy effeithiol.

> "Roedd y canllawiau'n dda oherwydd fe osodon nhw'r sylfaen, ac yn rhoi'r cerrig camu i ni – beth oedd yr egwyddorion neu'r syniadau y tu ôl i'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni nawr." (Rheolwr ysgolion bro)

Roedd yna hefyd ddulliau amrywiol o fonitro a gwerthuso. Er bod rhai rheolwyr wedi'u blaenoriaethu fel ffordd o fesur effaith, nid oedd hyn yn gyson ar draws pob awdurdod lleol ac yn aml roedd yn adlewyrchu blaenoriaethau a chefndir y rheolwr unigol. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u haddasu'n dabl sydd wedi'i deilwra i bob ysgol fro ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, a defnyddir system sgorio Coch Melyn Gwyrdd i asesu perfformiad ar draws gwahanol feysydd pwysig.

#### 3.2.1.2. Blaenoriaethau'r strategaeth ysgolion bro

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod rheolwyr ysgolion bro ac arweinwyr awdurdodau lleol yn blaenoriaethu ysgolion â'r angen mwyaf am gymorth ac ymyrraeth bellach, gan ystyried ffactorau megis cyfran y myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, adborth arolygiadau Estyn, a dangosyddion cyd-destunol eraill. Ar lefel yr ysgol unigol, roedd blaenoriaethau fel arfer yn cael eu gosod gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol ac yn cael eu teilwra i anghenion penodol y gymuned leol. Roedd enghreifftiau o'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys gwella presenoldeb, rhoi cymorth wrth bontio, a gwella llesiant dysgwyr. Dangosodd rhai ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd ymgysylltiad cryf â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau bod lleisiau'r gymuned wedi'u hymgorffori yn y dull gweithredu, a bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion lleol.

#### 3.2.1.3. Gweithgareddau

Roedd pob gweithgaredd y strategaeth yn dod o fewn un neu ragor o'r tri chategori a amlinellwyd ym model y strategaeth (ymgysylltu â theuluoedd, ymgysylltu â'r

gymuned, amlasiantaeth), gan ddigwydd yn ystod y tymor a thros wyliau'r ysgol hefyd. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r gweithgareddau'n aml yn gorgyffwrdd ac yn gweithredu'n gyfnewidiol. Roedd gweithgareddau hefyd yn amrywio'n fawr ar draws pob ysgol a chymuned, yn seiliedig ar y cyd-destun a blaenoriaethau lleol.

Ymhlith y gwaith ymgysylltu â theuluoedd oedd gweithgareddau haf i blant a'u teuluoedd, cymorth wrth bontio, siop wisg ysgol, ‘cwtsh cymunedol’, cyrsiau a addysgir (e.e. i athrawon ar ymgysylltu â rhieni/gofalwyr; cyrsiau rhianta), nosweithiau agored anffurfiol i deuluoedd, digwyddiadau llesiant, dull rhwydwaith teuluoedd (dod â gweithwyr proffesiynol perthnasol ynghyd i greu cynllun ymgysylltu), a defnyddio ymyriadau cymorth unigol ac ymyriadau cymorth wedi’u teilwra (e.e. helpu gyda chludiant i'r ysgol). Disgrifiwyd gwaith y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd hefyd, gan gynnwys ymweliadau â’r cartref, swyddogion yn cefnogi rhieni/gofalwyr sy'n mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau, a chyswllt rheolaidd ar WhatsApp i ddarparu cymorth. Y tu ôl i lawer o'r gwaith hwn o ymgysylltu â theuluoedd oedd cydnabyddiaeth bod angen dull cyfannol i gefnogi dysgwyr, ac nad oedd cymorth o fewn ysgolion bob amser yn ddigonol i fynd i'r afael â heriau sy'n deillio o'r cartref.

> “Mae’n anodd gweithio [gyda]’r plant a’u helpu pan nad yw’r cartref yn iawn. Felly dyna pam mae angen inni fynd i mewn i'r cartrefi a dweud, iawn, beth sy'n digwydd yma?” (Rheolwr ysgolion bro)

Ymhlith y gweithgareddau ymgysylltu â’r gymuned oedd eirioli dros newidiadau o fewn y gymuned (e.e. gwella neu adnewyddu cyfleusterau), brecwastau cymunedol, digwyddiadau rhwydweithio, sesiynau dysgu ar gyfer oedolion, cymorth dysgu, gweithdai (e.e. coginio, ysgrifennu CV), a sicrhau bod cyfleusterau ysgol ar gael i'w defnyddio gan y gymuned. Cafodd ymyriadau ymgysylltu â’r gymuned eu teilwra yn seiliedig ar anghenion lleol a’r asedau sydd ar gael ac fe’u nodwyd fel rhywbeth hanfodol i ymgorffori ethos ysgolion bro y tu hwnt i ysgolion unigol.

Ymhlith y gweithgareddau amlasiantaeth oedd ymgysylltu ag ystod eang o asiantaethau, gan gynnwys Bwyd a Hwyl, ONE Wales, Home-Start Cymru, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, byrddau iechyd lleol, sesiynau iaith a lleferydd, Coginio ar Gyllideb, Siarad Gyda Fi, Dechrau’n Deg, Cyngor ar Bopeth, Waliau Anweledig, Achub y Plant, Barnardo’s, a thimau heddlu lleol. Yn aml, roedd y gwaith ymgysylltu hwn ar ffurf cyfarfodydd rhwydwaith, trafodaethau amlasiantaeth ar achosion, a chydleoli gwasanaethau (e.e. gwasanaethau cam-drin domestig, CAMHS, cymorth iechyd meddwl, ac ati).

Adroddodd rhai ysgolion ac awdurdodau lleol am heriau gydag agweddau penodol ar y strategaeth ysgolion bro, e.e. cael trafferth ymgysylltu â theuluoedd er gwaethaf llwyddo i feithrin cysylltiadau cryf â'r gymuned ehangach. Un rheswm a ddyfynnwyd yn gyffredin am hyn oedd bod gan rai rhieni/gofalwyr brofiadau negyddol yn y gorffennol gydag ysgolion, naill ai fel dysgwyr eu hunain neu fel rhieni/gofalwyr, a effeithiodd ar eu parodrwydd i ymgysylltu. Oherwydd maint cyfyngedig y sampl, nid oedd yn bosibl

pennu unrhyw batrymau clir o ran pa elfennau o'r strategaeth oedd yn fwy heriol yn gyson ar draws lleoliadau.

### 3.2.1.4. Partneriaethau a chydweithio

Nododd y rheolwyr fod partneriaethau amlasiantaeth a chymunedol wedi deillio o gydberthnasau sy’n bodoli eisoes ac o ymdrechion rhagweithiol ganddynt hwy eu hunain a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i chwilio am gyfleoedd newydd. Defnyddiodd ac adeiladodd y rheini â phrofiad helaeth yn y sector a'r ardal leol eu rhwydweithiau a sefydlwyd ymlaen llaw, gan ganolbwyntio’n benodol ar sicrhau bod eu cynnig yn osgoi dyblygu'r hyn a oedd eisoes ar gael. Ni wnaeth y rheolwyr adrodd am heriau difrifol wrth sefydlu partneriaethau, ar wahân i ddiffyg ymatebion o bryd i’w gilydd gan gysylltiadau ac anawsterau logistaidd ehangach yn gysylltiedig â strwythurau mewnol sefydliadau statudol a sefydliadau’r trydydd sector (e.e. cyllid).

Drwy gydol y cyfweliadau, amlygwyd yn gyson fod cydweithio a rhwydweithio rhwng rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo arferion gorau a chefnogi gwaith amlasiantaeth effeithiol, e.e. rhannu gwybodaeth gyswllt sefydliadau perthnasol. I reolwyr ysgolion bro, roedd y nifer gyfyngedig o rolau yng Nghymru yn golygu bod rhwydwaith cenedlaethol yn hollbwysig i ddarparu cymorth a helpu i sicrhau bod eu gwaith yn parhau i fod yn gyson ag egwyddorion ehangach y strategaeth.

> “Mae ganddyn nhw bobl yn dod i mewn o wahanol ardaloedd sy’n rhan o’r strategaeth ysgolion bro i siarad am yr hyn maen nhw wedi'i sefydlu fel y gallwch chi rannu syniadau. Rhennir gwybodaeth ac arbenigedd bob amser.” (Rheolwr ysgolion bro)

### 3.2.1.5. Cyllid

Yn gyson â chanfyddiadau'r arolwg, fe ddyrannwyd y rhan fwyaf o’r gyllideb ar gyfer y strategaeth ysgolion bro i staffio, a ddarparwyd naill ai'n uniongyrchol drwy ysgolion neu drwy awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd llawer hefyd yn dibynnu ar ffynonellau ariannu ychwanegol i gefnogi’r gwaith o gyflawni’r strategaeth ysgolion bro. Er enghraifft, defnyddiodd rhai ysgolion y Grant Datblygu Disgyblion i ariannu cyflog swyddog ymgysylltu â theuluoedd, sy'n golygu eu bod yn gweithredu model y strategaeth heb gael unrhyw gyllid sy’n benodol iddi. Fel y nodwyd uchod, un o brif gyfrifoldebau i lawer o reolwyr oedd sicrhau cyllid grant i gefnogi’r broses o ddarparu’r strategaeth yn fwy eang hefyd.

### 3.2.1.6. Gweithredu ac effaith

*Ffactorau ar gyfer llwyddiant*

Nododd y rheolwyr sawl ffactor allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth ysgolion bro yn llwyddiannus. Y pwynt a bwysleisiwyd amlaf a chryfaf oedd ymrwymiad gan arweinwyr. Ystyriwyd bod tîm uwch-arwain cyson a chydlynol, gan gynnwys

llywodraethwyr ysgolion, yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r strategaeth yn llwyddiannus. Helpodd cymorth cryf gan arweinwyr i sicrhau ymrwymiad ehangach gan staff, gan sicrhau bod ethos ysgolion bro wedi'i wreiddio ledled yr ysgol.

Nodwyd hefyd fod mynediad at seilwaith a gofod ffisegol priodol yn ffactor allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth ysgolion bro yn effeithiol. Roedd hyn yn amrywio o ddarparu gofod swyddfa pwrpasol ar gyfer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i gynnig cyfleusterau ar gyfer cyd-leoli gwasanaethau. Fodd bynnag, nodwyd bod cyflawni hyn yn aml yn dibynnu ar fuddsoddiad ychwanegol.

Pwysleisiodd y rheolwyr pa mor bwysig yw hi i ganolbwyntio hefyd ar anghenion lleol a theilwra'r cymorth yn unol â hynny, a wnaed yn bosibl trwy'r rhyddid a'r hyblygrwydd y mae'r strategaeth yn eu cynnig. Amlygwyd bod ymgynghori rheolaidd â theuluoedd drwy arolygon a chyfarfodydd ac, yn bwysicach fyth, gweithredu ar eu hadborth, yn hanfodol. Helpodd y dull hwn i feithrin perthynas ac ymddiriedaeth, gan feithrin ymgysylltiad ystyrlon â theuluoedd a theimlad o gysylltiad a ddisgrifiwyd fel rhywbeth canolog i ethos ysgolion bro.

> "Rwy'n meddwl mai cysylltiad yw'r [ffactor pwysicaf]. […] Oherwydd er mwyn i [rieni/gofalwyr] deimlo'n wirioneddol fod yr ysgol yn canolbwyntio ar y gymuned, mae angen iddyn nhw deimlo fel petaent wedi'u cysylltu. Maen nhw angen yr ymdeimlad hwnnw o berthyn. Mae angen iddyn nhw deimlo fel petaent yn cael eu gwerthfawrogi. Mae angen iddyn nhw deimlo fel petai eu lleisiau'n cael eu gwrando arnynt, a bod y broses yn eu cynnwys, ch'mod, gyda nhw ac nid iddyn nhw." (Rheolwr ysgolion bro)

*Heriau*

Tynnodd y rheolwyr sylw hefyd at yr heriau allweddol y maent wedi'u hwynebu yn eu rôl. Roedd diffyg eglurder yn fater a godwyd yn gyson. Nodwyd bod angen mwy o eglurder am ddau faes allweddol: disgrifiadau swyddi a chanlyniadau diffiniedig. Yn benodol, nodwyd bod disgrifiadau swyddi yn aml yn aneglur o ran rolau'r rheolwyr ysgolion bro eu hun a rolau swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Nododd y rheolwyr fod diffyg eglurder weithiau'n golygu bod swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn mynd y tu hwnt i'w cyfrifoldebau bwriadedig, a oedd yn ei dro yn achosi dryswch ymhlith staff ysgolion ynghylch cylch gwaith y swyddogion hyn.

> "Maen nhw [swyddogion ymgysylltu â theuluoedd] yn ei chael hi'n anodd deall ble mae eu rôl yn dechrau a ble mae'r tîm gwaith ieuenctid ac addysg yn gorffen." (Rheolwr ysgolion bro)

Maes arall yr oedd angen eglurder pellach arno oedd canlyniadau. Er bod rheolwyr ysgolion bro yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a ddarperir gan y strategaeth ysgolion bro, roeddent wedi mynegi'r angen am ganlyniadau cliriach a mwy penodol i lywio eu hymdrechion. Ystyriwyd bod cael canlyniadau diffiniedig yn fuddiol, nid yn unig ar

gyfer canolbwyntio, ond hefyd i alluogi ysgolion i ddangos ac arddangos eu cyflawniadau'n well.

> “Rwy’n credu y gallai cael rhai canlyniadau penodol fel canlyniad anoddach arddangos [ein gwaith a] gallai fod yn haws i Lywodraeth Cymru arddangos y gwaith sy’n digwydd.” (Rheolwr ysgolion bro)

Myfyriodd rheolwyr eraill ar yr heriau sydd ynghlwm wrth gynllunio strategol gydag ysgolion bro, yn enwedig oherwydd nad oedd llawer wedi mabwysiadu dull o'r fath o fewn ysgolion o'r blaen ac yn ansicr sut i'w lywio. Tynnodd un rheolwr sylw at yr anawsterau a geir wrth weithredu rhai elfennau, yn benodol ymgysylltu â theuluoedd, gan nodi nad oedd yr ysgolion yr oedd yn gweithio gyda nhw “yn gwbl parod eto”.

> “Os nad yw erioed wedi’i wneud o’r blaen, sut ydym ni’n mynd i lywio hynny?” (Rheolwr ysgolion bro)

Awgrymodd rheolwr arall y byddai mwy o gymorth strategol gan Lywodraeth Cymru yn fuddiol, gan gynnwys cefnogi ysgolion i ymgysylltu â busnesau lleol, yn enwedig y rheini a gafodd gyllid gan Lywodraeth Cymru. Byddai cymorth pellach yn caniatáu cydweithio a rhannu arbenigedd ehangach.

Her bellach a amlygwyd gan reolwyr oedd yr ansicrwydd ynghylch cyllid grantiau, a oedd yn llesteirio’r broses o gynllunio ar gyfer yr hirdymor a chadw staff. Nododd sawl un fod yr heriau ariannu hyn yn cyfyngu ar gapasiti ac effeithiolrwydd eu dull ar gyfer y strategaeth. Er enghraifft, nodwyd y gall defnyddio contractau dros dro i gyflogi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd arwain at golli ymgeiswyr profiadol, oherwydd efallai byddai diffyg diogelwch swydd a thâl digonol yn atal ymgeiswyr profiadol.

Her sylfaenol arall a nodwyd oedd sicrhau ymrwymiad yr ysgolion. Nododd y rheolwyr, pan nad yw eu rôl wedi'i lleoli o fewn ysgol, gall fod yn anodd hyrwyddo buddion y strategaeth. Nododd un rheolwr fod sicrhau ymrwymiad ysgolion uwchradd wedi bod yn arbennig o heriol o'i gymharu ag ysgolion cynradd. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r ffaith nad yw rhieni/gofalwyr yn tueddu i ollwng eu plant wrth y giât yn achos ysgolion uwchradd, sy'n lleihau'r cyfle iddynt ymgysylltu ag aelodau staff. Tynnwyd sylw at y mater hwn hefyd ar gyfer lleoliadau fel ysgolion arbennig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle siaredir Saesneg yn bennaf, lle mae dysgwyr yn teithio i’r ysgol ar fws o'r tu allan i'r ardal leol ac nad oes ‘gymuned’ benodol sy’n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol. Nododd eraill fod ystyried y strategaeth fel ymyrraeth tymor byr wedi arwain at betruster wrth wneud ymrwymiadau hirdymor, yn enwedig oherwydd y ffaith bod ysgolion eisoes yn llywio diwygiadau addysgol ehangach.

> “Mae dwy o’r ysgolion yn parhau i fod ychydig yn bryderus ynglŷn ag ymgysylltu oherwydd, yn eu meddyliau, maen nhw wedi dweud wrtha i, ei bod yn ymyrraeth tymor byr. Rydyn ni'n mynd i fod i adael yr wythnos nesaf, fath o beth. Ac maen nhw’n dweud pethau fel, o, wel, does gen i

> ddim yr awydd i ymgysylltu oherwydd nid yw'n hirdymor. Felly mae hynny wedi bod yn anodd.” (Rheolwr ysgolion bro)

Mynegodd rhai rheolwyr bryderon ynghylch y capasiti o fewn awdurdodau lleol i weithredu'r strategaeth yn llawn, gan nodi bod y galw gan ysgolion yn aml yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Pwysleisiodd sawl rheolwr ba mor bwysig yw hi i integreiddio'r model ar draws pob ysgol i gael yr effaith fwyaf posibl, gan dynnu sylw at yr angen am gyllid ychwanegol i gefnogi'r ehangiad hwn. Nododd un, wrth i ymwybyddiaeth o lwyddiannau’r strategaeth ysgolion bro mewn rhai ysgolion dyfu ar draws eu hawdurdod lleol, fod mwy o ddiddordeb gan ysgolion eraill nad oedd gan y tîm ysgolion bro y capasiti i'w cefnogi.

## 3.2.2. Swyddogion ymgysylltu â theuluoedd

**Prif ganfyddiadau:**

- Roedd swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a oedd wedi'u lleoli mewn ysgolion yn wynebu heriau o ran gorfod gwneud tasgau eraill, dim yn gweithio drwy gydol y flwyddyn, ac weithiau’n cael tâl is na’r swyddogion hynny a gyflogir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, i swyddogion a gyflogir gan awdurdodau lleol, gallai rhannu amser ar draws ysgolion hefyd fod yn heriol.
- Wrth ymgysylltu â theuluoedd, roedd dulliau anffurfiol yn hanfodol, gan gymryd amser i feithrin cydberthnasau a dod yn rhan o’r gymuned.
- Ymhlith y ffactorau a oedd yn sicrhau llwyddiant oedd cymryd amser i feithrin cysylltiadau, diwylliant yr ysgol ac agweddau’r aelodau staff, ymgynghori â theuluoedd, seilwaith a lle i weithio, ac angerdd yr unigolyn.
- Ymhlith y rhwystrau oedd diffyg eglurder ynghylch rolau a dulliau, cymorth annigonol gan ysgolion ac arweinwyr, capasiti, contractau dros dro, effaith nad oes modd ei mesur, a diffyg datblygiad a chynnydd.

### 3.2.2.1. Rôlau a chyfrifoldebau

Yn debyg i reolwyr ysgolion bro, fe ddatgelodd canfyddiadau o gyfweliadau â swyddogion ymgysylltu â theuluoedd amrywiad sylweddol yn y ffordd yr oedd y rôl wedi'i strwythuro. Roedd rhai swyddogion yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion, tra oedd eraill yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol. Yn ogystal, roedd rhai yn gweithio o fewn un ysgol, tra oedd eraill yn cefnogi nifer o ysgolion ar draws clwstwr. Er gwaethaf y gwahaniaethau yn nemograffeg ysgolion, roedd blaenoriaeth glir yn cael ei rhoi i ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Roedd amrywiad hefyd o ran a oedd rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn swydd amser llawn neu'n rhan-amser, gyda rhai'n cydbwyso cyfrifoldebau eraill a allai yn aml gael blaenoriaeth (e.e. cymorth yn yr ystafell ddosbarth). Tynnodd swyddogion

ymgysylltu â theuluoedd amser llawn sylw at fuddion neilltuo eu hamser yn gyfan gwbl i'r rôl, er eu bod yn cydnabod bod hyn yn anghyffredin mewn ysgolion. Yn bennaf, roedd y rôl yn cynnwys gwaith ymarferol gyda phlant, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

> “Roeddwn i ar y safle drwy’r dydd bob dydd o’r wythnos, felly cefais fewnwelediad go iawn a gwybodaeth ddyfnach am ein teuluoedd, rwy’n meddwl. Er bod rhai [swyddogion ymgysylltu â theuluoedd] sydd mewn ysgolion bro bellach yn mynd ac yn dod, wn i ddim, ddau ddiwrnod yr wythnos neu mae ganddyn nhw ddwy ysgol, a gallaf ddychmygu bod hynny'n beth anodd iawn i'w gyfleu.” (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Roedd trefniadau rheoli llinell yn amrywio, gyda rhai swyddogion yn cael eu goruchwylio gan eu rheolwr ysgolion bro, tra nad oedd eraill yn gwybod pwy oedd eu rheolwr ysgolion bro ac yn cael eu rheoli gan unigolyn o fewn yr ysgol lle'r oeddent wedi'u lleoli. Pwysleisiodd sawl cyfranogwr pa mor werthfawr yw hi i gael cyswllt dynodedig i fynd i'r afael ag ymholiadau sy'n ymwneud â’r strategaeth a darparu cymorth bugeiliol, gyda'r rheini sydd mewn cysylltiad â rheolwr ysgolion bro yn adlewyrchu buddion cael y cyswllt hwn. Nodwyd bod goruchwyliaeth reolaidd yn llai cyffredin o fewn amgylcheddau ysgol. Er y cydnabuwyd bod pob lleoliad yn wahanol, fe bwysleisiodd llawer o swyddogion yr angen am oruchwyliaeth gyson, i gefnogi eu llesiant ac i hyrwyddo twf proffesiynol parhaus.

Roedd llai o swyddogion yn ymwybodol o ganllawiau'r strategaeth ac, o ganlyniad, ni wnaethant eu defnyddio. Fodd bynnag, dywedodd y rheini a oedd wedi edrych ar y canllawiau eu bod yn adlewyrchu eu rôl yn gywir. Awgrymwyd y byddai canllawiau ychwanegol sy’n amlinellu cwmpas y rôl yn ddefnyddiol i atal swyddogion rhag gweithio y tu hwnt i'w cylch gwaith bwriadedig.

#### 3.2.2.2. Blaenoriaethau’r strategaeth ysgolion bro

Nododd y mwyaf o'r cyfranogwyr mai'r uwch-dîm arwain a bennodd y blaenoriaethau'n bennaf. Fodd bynnag, roedd yna hefyd enghreifftiau lle roed y swyddogion yn chwarae rhan fwy ymarferol wrth gyfrannu at bennu blaenoriaethau, gyda hynny'n cael ei lywio gan eu gwaith gyda theuluoedd a'r gymuned ehangach. Ar draws y cyfweliadau, daeth presenoldeb a phontio i'r amlwg fel blaenoriaethau allweddol a nodwyd o fewn ysgolion.

#### 3.2.2.3. Partneriaethau a chydweithio

Myfyriodd y swyddogion fod partneriaethau a chydweithrediadau wedi eu galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd a'r gymuned ehangach, gan dynnu sylw at ba mor bwysig yw gweithio amlasiantaeth. Gwnaeth swyddogion ddefnydd o bartneriaethau presennol tra hefyd yn chwilio'n weithredol am gyfleoedd newydd, gan neilltuo cyfran fawr o amser ac ymdrech i'r agwedd hon ar eu rôl. Defnyddiwyd rhwydwaith cenedlaethol y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, yn ogystal â fersiynau

rhanbarthol, yn helaeth ar gyfer ysbrydoliaeth ac i rannu cysylltiadau. Fe'u nodwyd hefyd fel cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu a rhannu arferion gorau, gyda chyfranogwyr yn tynnu sylw at yr angen i flaenoriaethu cyfleoedd i arsylwi a dysgu o ddulliau eraill.

Pwysleisiodd y mwyaf o’r swyddogion ba mor bwysig yw datblygiad proffesiynol parhaus i'w cefnogi yn eu rolau. Fodd bynnag, roedd mynediad at gyfleoedd hyfforddi penodol yn amrywio, yn aml yn dibynnu ar y darpariaethau sydd ar gael o fewn ysgolion unigol. Mewn un awdurdod lleol, sicrhawyd bod swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogwyd yn uniongyrchol gan ysgolion yn cael yr un hyfforddiant a chymorth o ran goruchwyliaeth â'r rheini a gyflogwyd drwy'r awdurdod lleol.

#### 3.2.2.4. Gweithredu ac effaith

*Ffactorau ar gyfer llwyddiant*

Ystyriwyd bod neilltuo amser ac egni i feithrin cysylltiadau yn hanfodol. Nodwyd pa mor bwysig yw hi i feithrin perthynas a ffurfio cydberthnasau cryf â theuluoedd a'r gymuned ehangach fel elfen graidd o ymgorffori egwyddorion y strategaeth. Roedd hyn hefyd yn ymestyn i rwydweithio â swyddogion ac ymarferwyr eraill, fel ffynhonnell dysgu proffesiynol ac fel cefnogaeth emosiynol, gyda rhai swyddogion yn tynnu sylw at natur emosiynol heriol y rôl.

Nododd swyddogion fod gweithredu’r strategaeth ysgolion bro yn llwyddiannus hefyd yn gofyn am newid diwylliannol o fewn llawer o ysgolion, yn enwedig o ran sut mae aelodau staff a rhieni/gofalwyr yn meithrin cydberthnasau, er mwyn meithrin mwy o gydweithio ac ymgysylltu ystyrlon. Sylwodd nifer o’r swyddogion ar feddylfryd ‘nhw yn erbyn ni’ a oedd wedi sefydlu yn yr ysgolion, a all rwystro rhieni rhag cymryd rhan. Teimlwyd bod mynd i'r afael â'r rhaniad hwn yn arbennig o bwysig ar gyfer ymgysylltu â rhieni/gofalwyr sydd wedi cael profiadau negyddol gydag ysgolion (fel cyn-fyfyrwyr a rhieni/gofalwyr) er mwyn atal unrhyw ddatgysylltiad parhaus rhwng ysgolion a theuluoedd.

Nodwyd pa mor bwysig ydyw i gysylltu’n rheolaidd â theuluoedd hefyd ac, yn hollbwysig, gweithredu ar yr adborth a ddarperir ganddynt, fel agwedd bwysig arall ar feithrin ymddiriedaeth a chryfhau ymgysylltu.

> “Rydw i wedi dysgu llawer iawn gan [rieni/gofalwyr] felly mae ein dull ni fel ysgol wedi bod yn rhannu’r hyn a ddysgwyd â’r arweinyddiaeth. Felly dyma beth mae [rhieni/gofalwyr] yn ei chael yn anodd. Dyma’r hyn allwn ni ei newid pan maen nhw'n cael galwad ffôn o'r ysgol ac maen nhw'n gweld y rhif ar y ffôn, eu hymateb ar unwaith, maent yn pryderu bod rhywbeth wedi mynd o'i le, ac, os felly, mae yna bob math o wahanol ffyrdd y gallwn ni newid hynny a gwneud ein dull o ymdrin â rhieni'n well, i wneud iddyn nhw deimlo fel petaent yn cael eu croesawu’n well ac yn ymgysylltu’n fwy â'r ysgol.” (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Roedd seilwaith hefyd yn rhwystr ymarferol hanfodol. Tynnodd un swyddog sylw at ba mor bwysig ydyw i gael digon o le ar gyfer gweithgareddau ysgolion bro, a nododd yr effaith gadarnhaol a gafodd seilwaith priodol ar ei ysgol.

Ffactor pwysig arall ar gyfer sicrhau llwyddiant oedd cael unigolion a oedd yn angerddol, yn frwdfrydig, ac yn ymroddedig iawn i'w gwaith ar y tîm staffio. Gweithredwyd y strategaeth yn fwyaf effeithiol mewn ysgolion a chymunedau lle'r oedd y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a'r rheolwyr ysgolion bro yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl, sef lefel o ymrwymiad sy'n aml yn angenrheidiol o ystyried gofynion eu rolau.

*Heriau*

Tynnodd y swyddogion sylw hefyd at heriau yn eu gwaith beunyddiol, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni/gofalwyr mewn ysgolion uwchradd, rheoli materion yn ymwneud â diogelu, mynd i'r afael â phryderon presenoldeb wrth feithrin cydberthnasau, a chefnogi rhieni/gofalwyr sy'n gweithio.

Yr her fwyaf nodedig a nodwyd gan y swyddogion yn ystod y cyfweliadau oedd diffyg eglurder ynghylch materion allweddol megis disgrifiadau swyddi, canlyniadau disgwyliedig, a phenderfyniadau ariannu. O ran disgrifiadau swyddi, adroddodd y swyddogion fod eu rolau'n amrywio'n fawr ar draws ysgolion, clystyrau ac awdurdodau lleol. Roedd llawer yn teimlo y byddai cael disgrifiad swydd clir a safonol gyda gradd briodol yn eu galluogi i gynnal hyblygrwydd wrth ddeall cwmpas eu rôl a sicrhau cyflog teg yn seiliedig ar brofiad. Yn ogystal, ystyriwyd bod canllawiau cliriach ar ganlyniadau disgwyliedig yn hanfodol i gefnogi ysgolion i weithredu'r strategaeth yn effeithiol. Ar ben hynny, nododd swyddogion nad oedd gwybodaeth am gyllid yn aml yn cael ei rhannu â hwy, gan gyfyngu ar eu gallu i reoli adnoddau a chyflawni eu rolau'n effeithiol.

> "Yr hyn sy'n anodd yw bod [rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd] yn cael ei galw'n wahanol bethau ym mhob ysgol. Mae'n edrych yn wahanol ym mhob ysgol, a dyna pam rydw i wir am i Lywodraeth Cymru fod fel, wel, na, dyma'r drefn, dyma'r radd y dylai fod ar ei chyfer. Dyma'r hyn y disgwylir gennych." (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Amlygwyd sicrhau ymrwymiad gan uwch-arweinwyr ac aelodau staff eraill yr ysgol ei amlygu fel her gan y mwyaf o'r swyddogion y cyfwelwyd â hwy. Sylwyd bod uwch-dimau arwain yn aml yn disgwyl canlyniadau ar unwaith o'r rôl, yn hytrach na chydnabod bod ysgolion bro yn ymyrraeth hirdymor y mae angen ei hymgorffori yn niwylliant ac ethos yr ysgol. Nododd swyddogion anawsterau wrth weithredu'r strategaeth pan oedd penaethiaid blaenorol wedi ei thynnu fel blaenoriaeth. I'r gwrthwyneb, roedd yn amlwg, pan oedd yr uwch-arweinyddiaeth yn cofleidio'r strategaeth yn llawn, fod gweddill aelodau staff yr ysgol yn fwy tebygol o'i chofleidio hefyd.

> “Fydd hi ddim yn bodoli os nad yw’r pennaeth yn ymrwymo iddi, oherwydd os bydd y gyllideb yn mynd yn dynn a bod yn rhaid i rywun fynd, os nad yw’ch pennaeth yn cydnabod y gwaith rydych chi’n ei wneud, yna byddwch chi’n wynebu’r perygl o golli’ch swydd.” (Rheolwr Ysgolion Bro)

Nododd y swyddogion hefyd nad oedd digon o gyllid i gyflawni'r strategaeth yn llawn, gydag adnoddau'n aml yn cael eu dargyfeirio o ymyriadau eraill i lenwi’r diffyg. Gallai hyn beri heriau penodol mewn lleoliadau lle'r oedd swyddogion yn cael eu cyflogi gan yr ysgol yn hytrach na'r awdurdod lleol, ac felly'n fwy agored i newidiadau ym mlaenoriaethau’r arweinyddiaeth.

Mae her bellach yn gysylltiedig â chapasiti, yn enwedig i'r swyddogion hynny sy'n gweithio'n rhan-amser. Er enghraifft, dyrannwyd 15 awr i un cynorthwyydd addysgu ar gyfer dyletswyddau swyddog ymgysylltu â theuluoedd, ond cafodd ei dynnu'n aml i dasgau eraill, gan adael dim ond tua thair o'r oriau hynny iddo allu eu neilltuo i waith y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn y cyfnod hwnnw. Awgrymwyd y gallai gwneud rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn llawn amser helpu i liniaru'r mater hwn.

> “Weithiau mae [swyddogion ymgysylltu â theuluoedd] yn cael dydd Gwener yr wythnos ar gyfer y dyletswyddau hynny, weithiau maen nhw'n rhan-amser, ac roedd sôn am rannu swyddi, ac doeddwn i byth yn hoff iawn o'r syniad oherwydd doeddwn i ddim am gorfod dweud wrth fy rhieni, o, alla i ddim delio â hynny tan ddydd Llun neu ddydd Mawrth pan fydda i yn yr ysgol […] oherwydd rydych chi wedi colli’r cysylltiad â’r rhiant wedyn.” (Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd)

Tynnodd y swyddogion sylw hefyd at ba mor gyffredin yw contractau dros dro fel her. Myfyriodd y rheini y cyfwelwyd â hwy y gallai'r diffyg diogelwch swydd atal llawer o unigolion profiadol a chymwys rhag gwneud cais am y rolau hyn. Mae'r mater hwn yn gysylltiedig yn agos â chael eu hariannu drwy grantiau o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal, nododd y swyddogion yr angen am ragor o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol strwythuredig, oherwydd bod mynediad ar hyn o bryd yn dibynnu'n helaeth ar yr hyn y mae ysgolion unigol yn ei ddarparu. Nodwyd y gallai swyddogion galluog adael eu swydd os nad oes potensial ar gyfer datblygiad proffesiynol na chyfle i wella’u sgiliau.

Pryder allweddol arall a fynegwyd gan y swyddogion oedd y diffyg cydnabyddiaeth am eu rôl, ynghyd â'r angen am gydnabyddiaeth ehangach a mwy o ddylanwad. Pwysleisiodd y swyddogion raddfa eu cyfrifoldebau, a oedd yn aml yn mynd heb ei chydnabod.

> “Ein nod yw dangos i ysgolion nad yw’n braf cael swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn unig, ond bod *angen* swyddog ymgysylltu â theuluoedd ar bawb.” (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Nodwyd, pe bai'r rôl yn cael ei chydnabod yn briodol, y byddai ysgolion ac awdurdodau lleol pellach yn defnyddio'r adnodd hwn.

### 3.2.3. Effeithiau cychwynnol yr adroddwyd amdanynt gan reolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd

Roedd effeithiau cychwynnol y strategaeth ysgolion bro yr adroddwyd amdanynt yn eang eu cwmpas ac yn dangos canlyniadau canfyddedig cadarnhaol i deuluoedd, ysgolion a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, adroddodd llawer o leoliadau am welliant clir yn yr ymgysylltiad rhwng rhieni/gofalwyr, ysgolion a chymunedau lleol.

Teimlai’r cyfranogwyr fod rhieni/gofalwyr wedi dod yn fwy grymus ac yn fwy gwybodus, gan eu galluogi i eirioli’n effeithiol drostynt eu hunain a’u plant. Ar yr un pryd, adroddwyd am bartneriaethau newydd neu gryfach gydag amrywiol asiantaethau statudol a sefydliadau trydydd sector, gan ehangu'r rhwydwaith o gymorth sydd ar gael i deuluoedd. O ganlyniad, roedd rhieni/gofalwyr yn defnyddio gwasanaethau allanol fwyfwy, fel CAMHS, gan wella’r cymorth i blant ag anghenion mwy amrywiol.

Adroddwyd bod presenoldeb dysgwyr wedi cynyddu mewn rhai lleoliadau, a nodwyd fel blaenoriaeth allweddol i lawer a ddefnyddiodd y strategaeth ysgolion bro. Addaswyd rhagor o gyfleusterau cymunedol hefyd i gefnogi teuluoedd yn well, ac roedd pwyslais ar ymgysylltu â’r gymuned wedi creu cyfleoedd i ysgolion gynhyrchu refeniw ychwanegol trwy ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar y gymuned a phartneriaethau cydweithredol.

Fodd bynnag, heb fonitro a gwerthuso systematig, mae'n anodd mesur newidiadau ar draws meysydd â blaenoriaeth neu ddadansoddi canfyddiadau yn ôl awdurdod lleol neu grwpiau demograffig. Teimlai rhai fod hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddangos gwerth eu gwaith.

> “Byddwn i’n dymuno y gallwn ei fesur oherwydd byddai wir yn dangos iddyn nhw pa mor bwysig yw’r rôl hon, ac rydych chi’n gwybod mai eich buddugoliaethau bach yn aml yw eich buddugoliaethau mawr.” (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Serch hynny, tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at y ffaith nad oedd canlyniadau’r strategaeth bob amser yn fesuradwy ac yn aml bod yr effeithiau mwyaf dwys yn dod o newidiadau cynnil mewn ymddygiadau ac agweddau unigol, na fyddai'n briodol neu hyd yn oed yn bosibl eu mesur yn ffurfiol.

## 3.3. Astudiaethau achos

Fel rhan o'r ymchwil hon, dewiswyd pum astudiaeth achos o weithredu’r strategaeth ysgolion bro ledled Cymru. Dewiswyd y rhain i arddangos a rhannu llwyddiannau,

heriau, a’r gwersi a ddysgwyd o wahanol gyd-destunau. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos ehangder y gwaith a wnaed o dan y strategaeth hyd yn hyn, a'r amrywiol leoliadau y mae egwyddorion y strategaeth wedi'u cymhwyso ynddynt.

Cyflwynir yr astudiaethau achos yma yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw'r awdurdod lleol. Tynnir canfyddiadau o waith maes astudiaethau achos (a amlinellir yn y fethodoleg), a lle bo'n briodol, cânt eu hategu â data perthnasol o ffrydiau gwerthuso eraill (e.e. cyfweliadau dilynol a gynhaliwyd â rhanddeiliaid yn yr un awdurdod lleol). Mae ysgolion wedi cael ffugenwau pan nad oeddent yn cydsynio i gael eu henwi.

Mewn achosion pan oedd dim ond un cyfranogwr mewn categori nad oedd yn cytuno i fod yn adnabyddadwy, mae categorïau wedi'u cyfuno wrth briodoli dyfyniadau i ddiogelu cyfrinachedd. Cafwyd pob ffigur sy'n ymwneud ag ysgolion (e.e. canrannau’r dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, y nifer ar y gofrestr) o ddata StatsCymru ar gyfer 2024/2025 a data MALIC ar gyfer 2025.

Dylid nodi bod y canfyddiadau a amlinellir yn seiliedig ar yr hyn a adroddwyd gan gyfranogwyr yr astudiaeth achos. Ni chafodd barn ynghylch ansawdd na chanlyniadau gwaith ei gwirio gan y tîm gwerthuso, oherwydd nad oedd yn ymarferol yn gyffredinol cael y data na'r safbwyntiau eang y byddai hyn yn gofyn amdanynt. Serch hynny, mae barn y cyfranogwyr yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut y cafodd y gwaith ei ddeall, ei brofi a'i ganfod gan y rheini a oedd yn ymwneud â’r achos yn uniongyrchol, ac yn helpu i oleuo prosesau gweithredu, effeithiau canfyddedig, a ffactorau cyd-destunol sy'n llunio'r ddarpariaeth.

## 3.3.1. Partneriaeth Gymunedol Dwyrain Caerdydd

### 3.3.1.1. Trosolwg

Rhwydwaith sy'n cynnwys asiantaethau statudol, partneriaid cymunedol ac ysgolion lleol yw Partneriaeth Gymunedol Dwyrain Caerdydd. Sefydlwyd y partneriaeth gan reolwr ysgolion bro Dwyrain Caerdydd ddechrau 2024 ac mae wedi bod yn tyfu ers hynny. Ei diben yw dod â phawb yn yr ardal sydd â diddordeb mewn cefnogi dysgwyr a theuluoedd ynghyd i rannu dysgu, hyrwyddo mynediad at weithgareddau a chymorth, ac osgoi dyblygu darpariaeth.

### 3.3.1.2. Cyd-destun yr astudiaeth achos

Mae Dwyrain Caerdydd yn cynnwys rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, ac mae sawl cymdogaeth yn y degraddau isaf o dan MALIC mewn categorïau sy’n cynnwys incwm, iechyd, addysg a chyflogaeth. Mae gan y tair ysgol a gymerodd ran yn uniongyrchol yn y gwerthusiad (Ysgol Gynradd Meadowlane, Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd, ac ‘Ysgol Gynradd A’) gyfradd dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim gyfartalog o dros 50%, gyda’r uchaf dros 60%. Adlewyrchwyd effeithiau heriau hirdymor gan gyfranogwyr, yn enwedig sut mae diweithdra rhwng cenedlaethau yn effeithio ar uchelgeisiau dysgwyr. Tynnwyd sylw hefyd at faterion

newyddach, fel y cynnydd mewn gweithgarwch gangiau ‘llinellau cyffuriau’ a chamfanteisio troseddol ar bobl ifanc. Nododd sawl cyfranogwr ddiffyg buddsoddiad hanesyddol yn Nwyrain Caerdydd o'i gymharu ag ardaloedd eraill y ddinas, gan arwain at ddarpariaeth gymorth anghyson dros amser, gan ddwysáu problemau.

Mae gan y gymuned asedau sylweddol hefyd. Mae Llyfrgell a Hyb Llaneirwg ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Neuadd Llanrhymni yn darparu mannau a gwasanaethau a arweinir gan y gymuned, gan gynnwys sesiynau cynghori a digwyddiadau ar gyfer y teulu am ddim. Mae bod o fewn prifddinas Cymru yn golygu bod amrywiaeth o sefydliadau gwirfoddol, prifysgolion a chwmnïau preifat gerllaw sydd ag asedau, fel cyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel ym Mhrifysgol Caerdydd a Champws Cyncoed Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (Met Caerdydd). Fodd bynnag, yn hanesyddol, nid yw’r ystod ehangach hon o asedau nad ydynt yn cael eu rhedeg gan y gymuned wedi bod yn hygyrch i lawer o gymunedau Dwyrain Caerdydd er gwaethaf pa mor agos ydynt, gyda rhwystrau'n cynnwys costau, trafnidiaeth a diffyg ymwybyddiaeth.

Er bod y dwyrain yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd na rhai ardaloedd eraill yng Nghaerdydd, mae gan rai ysgolion yn Nwyrain Caerdydd gynrychiolaeth uchel o deuluoedd Sipsiwn, Teithwyr a Roma, a nododd y cyfranogwyr niferoedd cynyddol o ddysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

#### 3.3.1.3. Canfyddiadau

*Cefndir*

Ysbrydolwyd y bartneriaeth yn rhannol gan fenter debyg yng Ngorllewin Caerdydd, a ddechreuodd o dan fersiwn flaenorol o’r polisi ysgolion bro yn y 2010au. Mae'r bartneriaeth yn y gorllewin wedi hen sefydlu ac ers hynny mae wedi ffurfio a dod yn elusen, gan alluogi mynediad at ystod eang o ffrydiau ariannu. I'r rheolwr ysgolion bro yn y dwyrain, amlygodd hyn absenoldeb amlwg o rwydweithiau'n lleol i ddarparu cymorth cyfannol.

Yn gynnar yn y rôl, profodd y rheolwr rai heriau wrth ymgysylltu ysgolion â’r strategaeth (er bod llawer, yn enwedig ysgolion cynradd, wedi dangos diddordeb ar unwaith). Mewn ymateb, fe benderfynodd y rheolwr oedi a chanolbwyntio ar ymgysylltu ehangach â sefydliadau yn yr ardal. Anfonodd y rheolwr neges e-bost at sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd yn yr ardal, yn ogystal ag ysgolion, i ddod i gyfarfod cychwynnol. Aeth dros 40 i’r cyfarfod cyntaf hwn, gan fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau; mae'r rhestr bostio wedi tyfu i dros 80 ers hynny.

Fel rhan o ddull gweithredu sy'n seiliedig mewn ysgolion, mae'r bartneriaeth yn cynnal cyfarfodydd bob hanner tymor mewn lleoliad hygyrch (fel arfer Hyb Ieuenctid Llaneirwg, er bod ymdrechion i ddod o hyd i leoliadau addas eraill ar draws yr ardal) yn ystod y diwrnod gwaith, er mwyn caniatáu i gynifer o bartneriaid â phosibl fod yn bresennol. Mae yna hefyd ddau Padlet (negesfwrdd digidol) i rannu gwybodaeth; i

weithwyr proffesiynol, mae hyn yn cynnwys adnoddau fel sleidiau o gyfarfodydd y bartneriaeth a diweddariadau ar wasanaethau, tra bod gan deuluoedd fynediad at restrau o gyfleoedd lleol.

Ar ôl tua blwyddyn, sefydlwyd y bartneriaeth yn ffurfiol fel grŵp a chytunwyd ar y cyd ar nodau a gwerthoedd cyffredin. Nodwyd hyn gan ddigwyddiad dathlu gyda rhestr estynedig o wahoddiadau a fideo cysylltiedig. Fe wnaeth hyn ymhellach egluro a hyrwyddo'r cynnig i bartneriaid newydd posibl.

Nododd ysgolion a phartneriaid cymunedol fod ganddynt ddiddordeb yn y strategaeth ysgolion bro a'r bartneriaeth i ddechrau oherwydd eu bod yn adlewyrchu dull yr oeddent eisoes yn ei werthfawrogi, ac yn teimlo y byddai'n eu galluogi i adeiladu ar waith presennol. Croesawodd partneriaid cymunedol y cyfle i gael 'troed yn nrws' ysgolion, ar ôl ceisio'n flaenorol gyda dim ond rhywfaint o lwyddiant. Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi'r gallu i gael mynediad at gymorth priodol ac o ansawdd uchel yng nghanol y cyfathrebiad maen nhw'n ei gael nad oes ganddyn nhw'r gallu i'w asesu.

*Cyflwyno'r strategaeth ysgolion bro*

Mae ystod eang o weithgareddau, gwasanaethau a chymorth wedi'u darparu trwy'r bartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- cydweithrediad â Met Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd er mwyn sicrhau bod cyfleusterau pêl-droed ar gael i ysgolion cynradd lleol, y mae eu disgyblion yn aml yn methu ymuno â chlybiau pêl-droed lleol oherwydd diffyg capasiti
    - hwyluswyd hyn ymhellach gan rodd o barau o esgidiau pêl-droed gan Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, a sicrhawyd gan y rheolwr ysgolion bro
- rhaglen a gynhelir mewn cydweithrediad â Met Caerdydd i roi mynediad i ddysgwyr i Glwb Rasio BMX Caerdydd, cyfleuster o'r radd flaenaf yn Nhredelerch gerllaw
    - nod y prosiect yw caniatáu i bobl ifanc ddethol sydd mewn perygl o fod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac sy'n agored i gamfanteisio gael mynediad cadarnhaol, diogel a strwythuredig at chwaraeon
    - mae hefyd yn anelu at ail-lunio perthynas dysgwyr â beicio a gweithgarwch corfforol, gan roi profiad hwyliog a chyffrous iddynt na fyddent wedi gallu ei gael fel arall
    - hwyluswyd hyn gan grant ariannu a wnaed cais amdano ar y cyd â Met Caerdydd a'r rheolwr ysgolion bro
- darparu cyrsiau achrededig i rieni/gofalwyr a theuluoedd, a gyflwynir gan hwyluswyr hyfforddedig o Goleg Caerdydd a'r Fro
    - mae cyrsiau'n cwmpasu ystod eang o bynciau, gan gynnwys rhifedd, mathemateg a sgiliau digidol

    - mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â rhaglen ‘Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd’ Coleg Caerdydd a'r Fro a’r Cwricwlwm Dinasyddion, gan alluogi budd i'r ddwy ochr o ran recriwtio ac aliniad strategol
- sesiynau gwybodaeth i deuluoedd lle mae sefydliadau partner (e.e. Cymru Gynnes, GIG Cymru, Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, Rhianta Caerdydd, a grwpiau celfyddydau lleol) yn gosod stondinau ar safleoedd ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd i rannu gwybodaeth a chyfleoedd (ceir rhagor o fanylion isod)
- gweithio gyda chwmnïau adeiladu sy'n gweithredu'n lleol i ddefnyddio eu cynnig gwerth cymdeithasol
    - mewn un achos, cyflogwyd cwmni adeiladu i adeiladu cegin ar safle ysgol, tra oedd enghreifftiau eraill yn cynnwys trafodaethau gyrfaoedd ynghylch gweithio yn y diwydiant adeiladu
    - cymerodd Ysgol Meadowlane ran hefyd ym mhrosiect Llunio Fy Ysgol, Llunio Fy Stryd, lle bu aelodau’r gymuned a gweithwyr safle adeiladu yn ymgysylltu â dysgwyr ynghylch sut yr hoffent i’w cymuned leol edrych
- siopau mewn ysgolion i ddarparu bwyd a chyflenwadau gwisg ysgol, a gwaith arall a wneir yn ymwneud â bwyd
    - yn Ysgol Gynradd A, mae hyn wedi cynnwys cydweithio â FareShare Cymru i ailddosbarthu bwyd dros ben gan fusnesau lleol, ac mae Ysgol Meadowlane wedi gweithio gyda phantrïoedd lleol yn Trowbridge a Llaneirwg
- rhaglenni coginio i rieni/gofalwyr a phlant ddysgu gyda'i gilydd; yn Ysgol Sant Ioan Llwyd, cyflwynwyd y rhain mewn cydweithrediad â Sêr Coginio
- boreau coffi i rieni/gofalwyr a sesiynau cyngor galw heibio gyda Chyngor Arian Annibynnol Glan-yr-afon
- cefnogi ysgolion a phartneriaid eraill i nodi a gwneud cais am grantiau ariannu ychwanegol

Mae’r strategaeth hefyd wedi helpu i wella digwyddiadau ysgol rheolaidd, megis hwyluso cyllid ar gyfer cwricwlwm gŵyl y cynhaeaf yr ysgolion a gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw’r strategaeth ar gyfer broceru’r cydberthnasau i alluogi'r gweithgareddau hyn i gael eu cynnal gan sawl cyfranogwr.

> “Y gwir yw, ni fyddai hanner yr ysgolion sy’n rhan o’r [rhaglen] yn bresennol oni bai am y strategaeth ysgolion bro.” (Partner cymunedol)

Ystyrir gweithgareddau'n ofalus i wneud y mwyaf o effaith gyffredin ymgysylltu â theuluoedd, ymgysylltu â chymunedau ac ymgysylltu amlasiantaeth. Mewn sesiwn gwybodaeth i deuluoedd yr oedd y tîm gwerthuso’n bresennol ynddi yn Ysgol Gynradd Meadowlane, fe gynlluniwyd yr amseru i alluogi i rieni/gofalwyr ymweld cyn casglu eu plant o'r ysgol. Roedd system ar waith lle roedd pob unigolyn a oedd yn bresennol yn

cael darn o bapur y gallai pob stondin ei stampio wrth ymweld. Gallai'r rheini a ymwelodd â phob stondin ddychwelyd eu slipiau i gael eu cynnwys mewn raffl i ennill taleb Tesco gwerth £50, ac fe gyhoeddwyd yr enillydd ar y diwedd.

Nododd rhieni/gofalwyr a ymgysylltodd â'r tîm gwerthuso yn y digwyddiad pa mor ddefnyddiol oedd y digwyddiad, a dywedodd sawl un eu bod wedi dysgu am wasanaethau newydd yn yr ardal ac yn bwriadu eu defnyddio. Roedd llawer wedi cael eu hysgogi i gymryd rhan yn y raffl, ac roedd presenoldeb wedi'i hwyluso gan amseriad y digwyddiad. Roedd un rhiant a oedd wedi mudo i'r DU yn ystod y 18 mis diwethaf yn ystyried bod y digwyddiad a'r cysylltiad â'r ysgol yn gyffredinol yn beth pwysig wrth iddi ymgyfarwyddo â bywyd yn y DU ac yn caniatáu iddi deimlo'n rhan o'r gymuned.

Roedd y system raffl yn annog ymgysylltu ystyrlon, gan gynnwys gyda gwasanaethau y gellid eu hystyried yn wasanaethau 'tabŵ' i gysylltu â hwy heb gymhelliant, megis Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro. Nododd rhai partneriaid cymunedol fod y math hwn o ddigwyddiad wedi ysgogi sgyrsiau na fyddai'n bosibl gan ddefnyddio dulliau o bell neu anuniongyrchol, e.e. trafod â rhieni/gofalwyr pa mor bwysig yw hi i ddarllen yn hytrach na dim ond darparu llyfrau.

*Galluogwyr a rhwystrau i weithredu*

Adroddwyd gan lawer o gyfranogwyr fod eglurder ynghylch cynnig y strategaeth yn alluogwr pwysig. Soniodd sawl un am sgwrs mewn cyfarfod cynnar o'r bartneriaeth gan hwylusydd Partneriaeth Ddysgu Gorllewin Caerdydd, gan deimlo ei bod wedi rhoi gweledigaeth glir iddynt o sut olwg fyddai ar y bartneriaeth, ac ysbrydoliaeth i ddilyn yn ei llwyddiant.

Ystyriwyd bod teilwra i amodau lleol hefyd yn hanfodol. Yn Ysgol Gynradd A, fe alluogwyd hyn drwy gynnal holiaduron gyda rhieni i ddeall yr hyn yr hoffai rhieni/gofalwyr a'r agweddau ymarferol, megis pa amseroedd o'r dydd sy'n addas. Yna trosglwyddwyd yr wybodaeth hon i'r rheolwr ysgolion bro, a allai awgrymu a darparu dolenni i gyfleoedd addas. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r dull cyffredinol sy'n seiliedig ar leoedd wrth i gyfranogwyr bwysleisio pa mor bwysig yw gwybodaeth ddofn y bartneriaeth am Ddwyrain Caerdydd.

> "Cryfder y bartneriaeth yw'r wybodaeth leol ddofn y mae pob aelod yn ei chyfrannu. Maen nhw'n deall llais y gymuned, ei hanghenion, a'i harlliwiau. Mae'r mewnwelediad hwnnw'n sicrhau bod yr hyn a gynigir yn berthnasol, yn osgoi dyblygu, ac yn bodloni'r galw go iawn, oherwydd os nad dyna mae pobl ei eisiau, ni fyddant yn dod. Gall y rheini sy'n mynd i gyfarfodydd y bartneriaeth roi cipolwg ar a fydd rhywbeth yn gweithio ai peidio." (Partner cymunedol)

Yn gysylltiedig â hynny, roedd ysgogiad, sgiliau a gwybodaeth leol unigolion yn ffactorau pwysig. Nodwyd gan lawer o gyfranogwyr fod y rheolwyr a nifer o bartneriaid

cymunedol allweddol yn hanfodol i lwyddiant y prosiect, oherwydd eu hangerdd a'u hunanhyder wrth fynd ar drywydd cyfleoedd. Nodwyd hefyd fod cymorth arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr yn ffactor galluogi pwysig.

Mae dull systemig, cyfannol yn hanfodol i'r bartneriaeth. Roedd rôl 'cysylltydd' y strategaeth yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr, oherwydd nad oedd yn ychwanegu at system a oedd eisoes yn brysur nac yn dyblygu darpariaeth, ond yn hytrach yn cysylltu unigolion ac yn codi ymwybyddiaeth o waith presennol. Roedd llawer o'r farn bod y dull o ymgysylltu â sefydliadau ac asiantaethau yn gyntaf i ffurfio partneriaeth, ac yna dod i ysgolion gyda'r cynnig strwythuredig hwn, wedi bod yn llwyddiannus. Tynnodd sawl cyfranogwr sylw at unigrywiaeth y bartneriaeth o ran dod â chynifer o randdeiliaid ynghyd mewn ffordd wirioneddol gydweithredol. Fe wnaeth rhai wella'r cydweithio hwn ymhellach trwy arferion fel cydweithio mewn mannau a rennir gyda gwahanol sefydliadau partner i alluogi'r broses o rannu gwybodaeth a syniadau.

> "Rydym yn ceisio gweithio yn y ffordd systemau honno, gan [wneud] cynifer o gysylltiadau â phosibl a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bosibl yn hytrach na bod [y pennaeth] yn un pwynt cyswllt, lle gellid dadlau bod hynny'n ormod o waith ac mae'n debyg na fyddai'n mynd i unman. [...] Ac yna mae bron yn dod yn newid diwylliant o fewn yr ysgol fel nad yw'n, o, byddwn yn gofalu amdanom ein hunain ac yn ein cadw'n eithaf ynysig. Na, mewn gwirionedd, y gymuned [ardal] ydyw, a'r hyn allwn ni ei ddysgu gan [yr ysgol] neu'r hyn allwn ni ei rannu â […] yr ysgolion cynradd eraill." (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Nododd rhai cyfranogwyr hefyd sut y gall y strategaeth yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, drwy alluogi ysgolion i wneud cysylltiadau lleol i gefnogi dysgu, fel dysgu am gynllunio trefi drwy gwmnïau adeiladu sy'n gweithio'n lleol. Ystyriwyd bod cyd-fynd â'r cwricwlwm yn hanfodol i lwyddiant unrhyw fenter mewn ysgolion, oherwydd heb hyn, byddai'n heriol cael cymorth yr arweinyddiaeth a llywodraethwyr a chynnal y strategaeth fel blaenoriaeth.

Mae rhai elfennau o'r strategaeth wedi datblygu'n llai ar y cam hwn. Er bod rhai ymdrechion ar y gweill i hyrwyddo'r Gymraeg, megis sefydlu clwb ieuenctid Cymraeg, nid oeddent yn gysylltiedig yn llwyr â'r bartneriaeth. Er gwaethaf llwyddiannau mewn ysgolion lle roedd ymgysylltu â theuluoedd wedi bod yn bwysig erioed, parhaodd heriau o ran ymgysylltu ag ysgolion eraill, yn enwedig ysgolion uwchradd, nad oeddent yn ystyried hyn yn flaenoriaeth.

Yn nodedig, hyd yn hyn mae gwaith y bartneriaeth wedi digwydd yn absenoldeb swyddogion ymgysylltu â theuluoedd wedi'u hariannu, oherwydd oedi a newidiadau yn null ariannu'r strategaeth yng Nghaerdydd. Roedd y cyfranogwyr yn optimistaidd y byddai cyflwyno swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rennir ar draws clystyrau ysgolion yn gwella'r gwaith ymhellach trwy gael unigolyn ymroddedig i ymgymryd â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan staff neu arweinwyr ysgolion, ar ben eu rôl graidd.

*Canlyniadau*

Gwnaeth cyfranogwyr sylwadau’n aml ei bod hi’n rhy gynnar i allu mesur neu briodoli effaith eu gwaith gyda’r bartneriaeth yn glir. Fodd bynnag, roedd pob un yn myfyrio ar ganlyniadau a llwyddiannau a ddaeth i'r amlwg. Pwysleisiodd llawer nad oedd canlyniadau’n aml yn fesuradwy a’u bod yn gallu ymwneud â newidiadau cynnil mewn ymddygiad ac agweddau, a thrwy hynny dim ond yn y tymor llawer hwy y byddai effeithiau’n dod yn amlwg.

Cafwyd sawl canlyniad pwysig yn gysylltiedig ag effeithiau cadarnhaol ar rieni/gofalwyr. Yn benodol, fe welwyd bod darparu cyrsiau dysgu i oedolion yn cael effaith hollbwysig. Tynnwyd sylw at hyn gan rieni/gofalwyr eu hunain; nododd un eu bod yn llawn edmygedd am y ffaith bod yr ysgol yn darparu cyrsiau bron bob wythnos, a dywedodd fod y dysgu hwn wedi ei helpu i ddod o hyd i swydd. Mae gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro wedi galluogi mynediad at gyrsiau achrededig a ddarperir gan aelodau staff cymwys, a darparwyd enghreifftiau pellach o rieni/gofalwyr yn mynd ymlaen i addysg bellach a chyflogaeth, wedi'u hwyluso gan gyfleoedd dilyniant o fewn y coleg.

Nodwyd mwy o ymgysylltu ymhlith teuluoedd, gydag arwyddion bod rhai teuluoedd yn dod yn fwy agored i ddod i leoliadau ysgol a gofyn am gymorth, oherwydd hyder cynyddol y bydd y cymorth hwnnw ar gael. Roedd hyn yn gysylltiedig yn agos â gwelliannau cyffredinol mewn cydberthnasau ag ysgolion. Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith bod cynnig profiadau hwyliog, fel dosbarthiadau coginio yn yr ysgol, yn golygu nad oedd teuluoedd bellach yn cysylltu'r ysgol ag emosiynau negyddol yn unig, fel cyfarfodydd disgyblu i blant neu eu profiadau anodd eu hunain yn yr ysgol. Nodwyd bod teuluoedd nad oeddent wedi ymgysylltu â'r ysgol o'r blaen wedi mynd i rai gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â’r strategaeth ysgolion bro, gan gynnwys teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Disgrifiodd y cyfranogwyr effaith ganlyniadol y cydberthnasau gwell hyn rhwng yr ysgol a'r rhieni ar ddysgwyr. Roedd hyn yn gysylltiedig â thystiolaeth newydd o bresenoldeb cynyddol mewn rhai ysgolion, a gysylltodd cyfranogwyr â chanfyddiadau mwy cadarnhaol o'r ysgol gan deuluoedd a dysgwyr, a dulliau mwy cyfannol o gefnogi ac annog y rheini â phresenoldeb isel.

> “Yn hytrach na bod yr athrawon yma a’r teuluoedd a’r rhieni acw, ac mae’n rhaid i [blant] ofalu amdanyn nhw eu hunain, mae’n ein portreadu fel uned gymunedol, ac rydyn ni’n cefnogi ein gilydd, a bod pethau ar waith i’w cefnogi nhw.” (Aelod o dîm arwain ysgol)

Yn gysylltiedig â hyn, myfyriodd y cyfranogwyr ar y cyfleoedd gwell i ddysgwyr a theuluoedd a alluogwyd gan y bartneriaeth, e.e. cafodd dysgwyr fynediad i rai o gyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel Caerdydd a fyddai fel arall wedi bod yn anhygyrch iddynt, er gwaetha’r ffaith eu bod yn byw gerllaw. Gobeithiwyd y byddai'r cyfleoedd hyn yn arwain at ddyheadau cynyddol i ddysgwyr ac agweddau ac arferion

gwell mewn perthynas â gweithgarwch corfforol. Nododd rhai cyfranogwyr hefyd fod dull y bartneriaeth yn galluogi ysgolion y tu allan i glystyrau'r awdurdod lleol i gymryd rhan, megis ysgolion ffydd, a oedd yn hanesyddol yn aml wedi cael eu gadael allan o gyfleoedd.

> "Mae wedi agor byd cyfan i ni yn [yr ysgol]. Ac nid ydw i'n dweud hynny'n ddidaro, oherwydd yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gallu cael mynediad at lawer mwy o bethau – nid yn unig ar gyfer ein disgyblion, ond ein teuluoedd hefyd – nad oeddem yn ymwybodol ohonynt o'r blaen." (Aelod o dîm arwain ysgol)

Pan oedd arweinwyr ysgolion eisoes yn gweld ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned fel rhan o'u hethos, fe welwyd bod y bartneriaeth yn gwella eu gwaith ac yn hwyluso'r gwaith o rannu'r pwyslais hwn ar draws cymuned yr ysgol. Mewn rhai achosion, roedd y strategaeth ysgolion bro wedi datblygu'r ffordd yr oedd yr ysgol yn meddwl, i symud y tu hwnt i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ac ystyried y gymuned ehangach fel rhan o'u cylch gwaith.

> "Rydyn ni wastad wedi eisiau bod, ac wedi ceisio bod, yn ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ond rydyn ni wedi bod yn gwneud y math hwnnw o waith ar ein pennau ein hunain. Ond nawr mae'n beth mwy swyddogol, ac rwy'n credu bod hynny'n cael ei gefnogi gan aelodau staff sydd efallai'n teimlo bod ysgol yn ymwneud ag ysgol yn unig [...] i agor eu meddyliau i ddweud, na, mae ysgol [...] yn beth mwy na hynny. Mae hyn yn ymwneud â'n plant, ein teuluoedd, a'r gymuned o'n cwmpas." (Aelod o dîm arwain ysgol)

Tynnodd cyfranogwyr yn yr ysgol sylw at y ffaith bod bod yn rhan o'r strategaeth wedi codi baich oddi ar eu hysgwyddau, wrth gael gwared ar y gwaith yr oedd angen ei wneud i geisio mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer dysgwyr a theuluoedd. Rhoddwyd sicrwydd iddynt fod unrhyw gyfleoedd a gyflwynwyd iddynt gan y rheolwr ysgolion bro o ansawdd da a'u bod yn gallu canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr a theuluoedd. Rhoddodd rhai cyfranogwyr y bai am yr heriau o ymgysylltu â rhai ysgolion penodol ar yr ysgolion hynny, nad oeddent yn cydnabod y cyfle hwn, gan gredu yn hytrach y byddai'r strategaeth yn creu mwy o waith iddynt.

#### 3.3.1.4. Gwersi

Mae astudiaeth achos Partneriaeth Gymunedol Dwyrain Caerdydd yn tynnu sylw at y ffaith y gellir hwyluso ymgysylltu ag ysgolion, partneriaid cymunedol a theuluoedd drwy gyflwyno gweledigaeth glir o beth yw'r strategaeth ysgolion bro a'r hyn y gall ei gynnig. Gall sefydlu strwythur ysgolion bro â nod clir, a dod â hyn i ysgolion fel cynnig cydlynol, chwalu dryswch neu betruster ar y dechrau yn effeithiol. Serch hynny, mae rhai o'r heriau parhaus yn Nwyrain Caerdydd hefyd yn adlewyrchu themâu y tynnwyd sylw atynt ar draws y gwerthusiad, yn enwedig ynghylch pa mor bwysig yw angerdd

unigolion er mwyn gyrru'r strategaeth yn ei blaen ac anawsterau wrth sicrhau ymrwymiad yn absenoldeb hyn.

Yn y bartneriaeth, prif rôl y strategaeth yw gweithredu fel grym canolog sy'n cysylltu grwpiau o'r un anian ynghyd mewn ffordd gydlynol, gan annog mwy o ymrwymiad i genhadaeth gyffredin o gymorth cyfannol i deuluoedd. Mae'r model hwn yn haws ei efelychu mewn ardaloedd trefol sydd ag asedau cymunedol cryf y gellir manteisio arnynt a rhywfaint o ymrwymiad sy'n bodoli eisoes gan yr ysgolion lleol. Fodd bynnag, gellir cymhwyso llawer o wersi yn eang, gan gynnwys gwerth dulliau cymunedol ac amlasiantaeth cydlynol a chynnig strategaeth ysgolion bro sy'n glir ac yn hygyrch.

## 3.3.2. Ysgol Gynradd Maesincla, Gwynedd

### 3.3.2.1. Trosolwg

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaernarfon, Gwynedd, yw Ysgol Gynradd Maesincla, ac mae'n cynnig dosbarthiadau prif ffrwd a dosbarthiadau anogaeth i gefnogi plant ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n creu rhwystrau i ddysgu. Maent yn yr ail flwyddyn o weithredu'r strategaeth ysgolion bro o fewn yr ysgol, gyda phwyslais allweddol ar ymgysylltu â'r gymuned, a gafodd ei feithrin trwy gydweithrediadau a gychwynnwyd gan y swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r ymdrechion ymroddedig hyn wedi galluogi dysgwyr i ymweld â chanolfannau gofal, siopau llyfrau a hybiau cymunedol, gan feithrin y gallu i ddatblygu sgiliau bywyd allweddol, annog rhyngweithio cymdeithasol, a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn ymhlith dysgwyr ac aelodau'r gymuned fel ei gilydd.

### 3.3.2.2. Cyd-destun yr astudiaeth achos

Mae gan Wynedd y gyfran amcangyfrifedig uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (74.3%) (Llywodraeth Cymru, 2025). Yn Ysgol Gynradd Maesincla, mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith (tua 84%, fel yr adroddwyd gan gyfranogwyr), gan atgyfnerthu ethos cyfrwng Cymraeg cryf yr ysgol a'i rôl wrth gynnal defnydd yr iaith yn y gymuned.

Ar hyn o bryd, mae tua 200 o ddysgwyr wedi cofrestru yn Ysgol Gynradd Maesincla, sy'n cynnwys nifer fach o blant oedran meithrin. Mae'r ysgol yn un o bedair ysgol gynradd yng Nghaernarfon. Mae'n ysgol wirfoddol a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru o fewn Esgobaeth Bangor, ond cyflogir yr aelodau staff gan yr awdurdod lleol.

Mae tua 45% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o'i gymharu â'r ganran gyfartalog genedlaethol o 22.2%. Mae gan yr ysgol hefyd gyfran uwch na'r cyfartaledd o ddysgwyr ag ADY. Er gwaetha'r heriau, mae gan yr ysgol bresenoldeb o dros 90%, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac sydd wedi bod yn cynyddu ers 2023.

Mae hanes cyfoethog Caernarfon, a'i thirnodau, wedi ei gwneud yn ganolfan dwristaidd dra phwysig, ac mae ei hasedau'n cynnwys harbwr naturiol a Pharc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, mae Caernarfon ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae ganddi heriau penodol o ran incwm isel a diogelwch cymunedol. Er bod lefelau amddifadedd yn amrywio ar draws y dref, mae dalgylch Maesincla yn cynnwys Peblig, sydd yn y degradd mwyaf difreintiedig yn gyffredinol ar MALIC.

#### 3.3.2.3. Canfyddiadau

*Cefndir*

Mae Ysgol Gynradd Maesincla wedi bod yn darparu'r strategaeth ysgolion bro ers dwy flynedd, ar ôl cael ei dewis gan yr awdurdod lleol oherwydd ei chyfran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, penodwyd swyddog ymgysylltu â theuluoedd i fod wedi'i leoli yn yr ysgol ddwy ddiwrnod yr wythnos. Roedd y swyddog ymgysylltu â theuluoedd a benodwyd wedi gweithio yn yr ysgol mewn swyddogaeth wahanol ers blynyddoedd lawer, ac felly roedd ganddo eisoes gydberthnasau cryf â chymuned yr ysgol, yn ogystal â llawer o ddysgwyr a'u teuluoedd.

Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn cael ei chyflogi gan adran addysg yr awdurdod lleol, ac mae ganddo reolwr llinell yn yr adran hon hefyd. Mae wedi'i leoli ym Maesincla am ddau ddiwrnod yr wythnos, yn treulio dau ddiwrnod mewn ysgol uwchradd leol mewn ardal arall o Wynedd (dalgylch gwahanol i Faesincla), ac yn neilltuo'r diwrnod sy'n weddill i weithio yn y gymuned.

Roedd gan yr ysgol grwpiau a dosbarthiadau anogaeth eisoes ar waith cyn gweithredu ysgolion bro, ac roedd y cyfranogwyr yn ystyried bod hyn yn cyd-fynd ag ethos ysgolion bro oherwydd y ffaith eu bod yn canolbwyntio ar roi cymorth cyfannol (adlewyrchwyd y gwaith hwn mewn adroddiad gan Estyn yn 2019). Er nad oedd Maesincla yn sicr ar y dechrau ynghylch sut i weithredu'r strategaeth oherwydd y canllawiau cyfyngedig a oedd ar gael pan lansiwyd y cyllid gyntaf, mabwysiadodd ddull a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd a'r gymuned leol, sy'n cael ei adlewyrchu wrth gyflwyno'r strategaeth. Pwyslais allweddol gwaith ysgolion bro'r ysgol hefyd yw gwella presenoldeb a chefnogi pontio llyfn i addysg uwchradd. Mae'r strategaeth ysgolion bro wedi'i hymgorffori yng nghynllun datblygu'r ysgol a pholisïau perthnasol, gan adlewyrchu ymrwymiad cryf yr ysgol i les disgyblion.

*Cyflwyno'r strategaeth ysgolion bro*

Adroddwyd mai adnodd hanfodol ar gyfer cyflwyno'r strategaeth ysgolion bro gan Ysgol Gynradd Maesincla oedd y swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Gall cyfrifoldebau'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd amrywio o ddydd i ddydd mewn ymateb i anghenion teuluoedd. Fodd bynnag, mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys gwneud cais am gyllid grant i gefnogi gweithgareddau'r strategaeth (e.e. gweithgareddau garddio a chrefft), cyfeirio rhieni/gofalwyr at wasanaethau cymorth

perthnasol, cynnal ymweliadau â'r cartref, a darparu cymorth ymarferol, e.e. cludiant i'r ysgol i ddysgwyr (er bod yr ysgol o fewn pellter cerdded i'r mwyaf ohonynt) a chynorthwyo rhieni/gofalwyr i lenwi ffurflenni pwysig.

> "Y llynedd doedd gan deulu ddim llawer ar gyfer y Nadolig. Felly, llwyddais i gael teganau a phethau iddyn nhw. Dywedodd y rhiant mai dyma un o'r pethau gorau sydd erioed wedi digwydd iddyn nhw." (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Fel rhan o'r gwaith hwn, fe helpodd y swyddog ymgysylltu â theuluoedd i sefydlu Siop Shafins, siop a redir gan rieni/gofalwyr sy'n darparu bwyd, dillad (e.e. gwisgoedd ysgol ail-law) a llyfrau am ddim. I ddechrau, rheolodd y swyddog ymgysylltu â theuluoedd weithrediadau'r siop, gan gynnwys cyrchu rhoddion gan archfarchnadoedd lleol. Fodd bynnag, mae bellach yn cael ei redeg yn llwyddiannus gan rieni/gofalwyr, a ganfu fod teuluoedd yn aml yn fwy cyfforddus yn ceisio cymorth gan gymheiriaid ag amgylchiadau tebyg nag yn uniongyrchol gan yr ysgol. Arweiniodd y cydweithrediad hwn rhwng rhieni/gofalwyr at sefydlu cymdeithas rhieni ac athrawon am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer.

Yn fwy cyffredinol, mae gwaith y swyddog a gwaith ehangach y strategaeth wedi rhoi pwyslais penodol ar ymgysylltu â'r gymuned, megis:

- dysgwyr yn ymweld yn rheolaidd â chartref gofal preswyl Plas Maesincla ochr yn ochr â'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd
  - mae'r cartref gofal hwn yn darparu gofal i bobl hŷn, pobl â dementia, pobl ag anableddau dysgu, a phobl â phroblemau iechyd meddwl, ynghyd â gofal preswyl a gofal seibiant
  - mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis canu a garddio, yn ogystal â thrigolion yn ymweld â'r ysgol am de prynhawn
- mae dysgwyr hefyd wedi ymweld â'r Frondeg, canolfan i oedolion ag anawsterau dysgu, i ddathlu pen-blwydd y ganolfan yn 50 oed
- mynd i Porthi Dre, sef canolfan gymunedol yng Nghaernarfon sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi, lleihau gwastraff bwyd, a mynd i'r afael ag unigrwydd, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft gydag aelodau'r gymuned leol
- ymweld â Palas Print, siop lyfrau annibynnol leol, i gynnal sesiynau darllen gydag aelodau staff

Mae gweithgareddau eraill a drefnir gan yr ysgol yn cynnwys bore coffi Macmillan i godi arian ar gyfer unigolion sy'n byw gyda chanser, yn ogystal ag arwerthiant cist car a gynhelir ar dir yr ysgol i ymgysylltu â'r gymuned leol a'i chefnogi.

> "Rwy'n meddwl ei bod hi mor bwysig bod y gymuned yn gwybod ein bod ni yma, ond hefyd ein bod ni'n gwybod bod yna gymuned sy'n ein cefnogi ni hefyd." (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Er bod Maesincla yn ysgol cyfrwng Cymraeg, myfyriodd y cyfranogwyr nad yw gwaith y strategaeth ysgolion bro wedi cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn bennaf oherwydd mai'r Gymraeg yw'r brif iaith yn y gymuned leol eisoes.

*Galluogwyr a rhwystrau i weithredu*

Adroddwyd mai un ffactor allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth yn llwyddiannus yn gynnar oedd sicrhau'r unigolyn cywir ar gyfer rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Myfyriodd amryw o gyfranogwyr fod yr ysgol yn elwa ar gael swyddog ymgysylltu â theuluoedd sy'n deall cyd-destun yr ysgol a'r gymuned, sydd wedi bod yn hanfodol wrth feithrin ymddiriedaeth a datblygu cydberthnasau ystyrlon â theuluoedd. Mae strwythur y rôl hefyd yn cefnogi blaenoriaethu ymgysylltu â'r gymuned oherwydd bod y swyddog yn treulio pedwar diwrnod ar draws y ddwy ysgol ac un diwrnod yn y gymuned, fel yr amlinellwyd gan y rheolwr ysgolion bro blaenorol ym manyleb wreiddiol y swydd. Adroddwyd hefyd fod gan y swyddog gysylltiadau lleol cryf a gwybodaeth am y gymuned, ar ôl gweithio yn yr ysgol mewn rôl arall o'r blaen, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i sefydlu partneriaethau. Mae hefyd wedi cysylltu â busnesau yn yr ardal leol i feithrin cysylltiadau.

Ffactor pwysig arall a nodwyd oedd ymrwymiad eang gan yr aelodau staff i egwyddorion y strategaeth ynghyd â dealltwriaeth eang ohonynt. Roedd profiad blaenorol y swyddog ymgysylltu â theuluoedd o weithio yn yr ysgol yn golygu bod cydberthnasau ag aelodau staff a rhieni/gofalwyr eisoes wedi'u sefydlu, a oedd yn gefnogol iawn wrth sicrhau bod y fenter yn cael ei chyflwyno'n ddidrafferth. Mae'r aelodau staff yn gwbl ymwybodol o amcanion a phrosesau'r strategaeth, ar ôl trafod y rhain yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Mae presenoldeb cyson y swyddog yn yr ysgol am ddau ddiwrnod bob wythnos yn sicrhau gweledadd a hygyrchedd, gan ymgorffori'r rhaglen ymhellach ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Mae athrawon yn aml yn ymgysylltu â'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd i rannu pryderon am ddysgwyr, gan adlewyrchu ymrwymiad cyffredin i'r dull a chydweithrediad cryf ar draws y tîm.

Er gwaethaf y galluogwyr cadarnhaol hyn, mae heriau'n parhau o ran pontio i'r ysgol uwchradd, yn enwedig pan nad yw'r ysgolion sy'n derbyn yn ymgysylltu â'r strategaeth eu hunain. Roedd sicrhau parhad cymorth a chynnal y cydberthnasau a ddatblygwyd drwy'r strategaeth wrth i ddysgwyr symud i addysg uwchradd yn faes a nodwyd ar gyfer datblygiad pellach. Fel y nodwyd, mae'r ysgol uwchradd y mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd hefyd yn gweithio gyda hi y tu allan i glwstwr Maesincla. Myfyriodd aelodau staff yr ysgol y byddai ymrwymiad gan ragor o aelodau staff yn yr ysgolion uwchradd o fewn yr awdurdod lleol yn cefnogi'r nod hwn.

Her arall i'r ysgol wrth gyflwyno'r strategaeth fu'r ansicrwydd ynghylch cyllid. Tynnodd amryw o randdeiliaid sylw at ddiffyg tryloywder canfyddedig o ran y gyllideb, sydd wedi creu heriau ar gyfer cynllunio ariannol. Gwaethygwyd yr her hon gan ymadawiad y rheolwr gwreiddiol yn haf 2025, ac nid oedd unrhyw olynydd ar gael ar unwaith i roi cymorth. Esboniodd uwch-arweinwyr na allai cyllideb yr ysgol gynnal swydd y swyddog na gweithgareddau'r strategaeth ehangach yn annibynnol, gan adael yr

ysgol yn ddibynnol iawn ar gyllid y strategaeth ysgolion bro. Codwyd pryderon ynghylch yr effaith helaeth ar y ddarpariaeth pe bai'r cyllid hwn yn cael ei dynnu'n ôl. Gwnaethant awgrymu gyflwyno cylch ariannu hwy, tair blynedd i gefnogi diogelwch swydd i'r swyddog a chynllunio a gweithredu’r strategaeth ysgolion bro.

Rhwystr arall wrth weithredu'r strategaeth yw bod y swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi'i leoli yn yr ysgol am ddau ddiwrnod yr wythnos yn unig. Tynnodd amryw o aelodau staff a llywodraethwyr sylw at y lefel uchel o angen o fewn cymuned yr ysgol ac awgrymodd y byddai sefydlu swydd amser llawn yn darparu cymorth mwy cyson ac effeithiol i deuluoedd ym Maesincla.

Her bellach a brofodd yr ysgol oedd y diffyg canllawiau clir ar ddechrau'r rhaglen, wrth i ganllawiau Llywodraeth Cymru gael eu rhyddhau'n raddol yn dilyn lansio'r cyllid. I ddechrau, roedd ansicrwydd ynghylch amcanion cyffredinol y strategaeth a’r canlyniadau a ddymunir ganddi, er i'r rhain ddod yn gliriach dros amser. Mynegodd aelodau staff y byddai canllawiau ysgrifenedig a ddarparwyd ar y dechrau, megis pecyn cynhwysfawr yn amlinellu diben, strwythur a disgwyliadau’r strategaeth, wedi bod yn hynod ddefnyddiol.

Cydnabu arweinwyr yr ysgol a'r swyddog hefyd yr heriau o ran ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, oherwydd bod rhai yn amharod i ddechrau i gael cymorth neu gydnabod bod angen help. Myfyriodd y swyddog ar yr amynedd y mae ei angen a'r ymdrechion ymroddedig i feithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau cadarnhaol â theuluoedd, yn enwedig y rheini a allai fod wedi cael profiadau negyddol o'r system addysg yn y gorffennol. Serch hynny, mae nifer y teuluoedd sydd bellach yn ymgysylltu yn dangos llwyddiant y dull ymroddedig hwn ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer datblygiad pellach.

> “Mae cymaint yn dibynnu ar sut mae rhieni’n gweld addysg a’u profiadau eu hunain yn yr ysgol. Mae rhai yn gweld addysg fel bygythiad, lle nad oeddent yn ffitio i mewn neu wedi methu, neu efallai nad yw'n bwysig iddynt. Mae’r [strategaeth] wedi dangos iddynt fod mwy i'r ysgol na dim ond addysg. Mae'r prosiect hwn wedi ein galluogi i wneud cynnydd o ran hen heriau a allai fod wedi bod ganddyn nhw ers amser maith.” (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

*Canlyniadau*

Er bod y strategaeth yn parhau i fod yng nghyfnodau cynnar ei datblygiad yn Ysgol Gynradd Maesincla, mae rhanddeiliaid o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach eisoes wedi nodi ystod o ganlyniadau cadarnhaol. Un effaith allweddol fu cryfhau cydberthnasau rhwng teuluoedd, yr ysgol, y gymuned a dysgwyr. Er enghraifft, o fewn yr ysgol, mae rhieni/gofalwyr wedi dod yn fwy agored a pharod i geisio cymorth, gan adlewyrchu'r ymddiriedaeth a adeiladwyd trwy waith y swyddog ac ymdrechion yr ysgol ehangach i newid rhai canfyddiadau negyddol hirhoedlog o leoliadau addysgol.

Mae hyn wedi arwain at sôn am y peth ar lawr gwlad yn cefnogi ymgysylltu pellach gan rieni.

Y tu hwnt i hyn, mae'r swyddog hefyd wedi cefnogi athrawon i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau y mae rhieni/gofalwyr yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â'r ysgol, gan feithrin mwy o empathi a chydweithio.

Yn yr un modd, i ddysgwyr, adroddwyd bod y strategaeth yn darparu math gwahanol o berthynas o'i gymharu â'r dynameg nodweddiadol rhwng athrawon a disgyblion. Nododd aelodau staff yr ysgol fod dysgwyr yn aml yn teimlo'n fwy cyfforddus yn rhannu pryderon personol â'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd nag y byddent gyda'u hathro/athrawes, gan adlewyrchu'r ymddiriedaeth a'r berthynas y mae'r swyddog wedi'u meithrin. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy cyfforddus yn siarad â'r swyddog, roeddent yn gallu cael gafael ar y cymorth oedd ei angen arnynt yn well a chynnal ymgysylltu â lleoliad yr ysgol.

> “Heb y strategaeth, byddai plant yn mynd drwy'r rhwyd.” (Aelod o dîm arwain yr ysgol)

Canlyniad nodedig arall o'r strategaeth yw datblygu sgiliau a hyder dysgwyr trwy ymgysylltu â'r gymuned. Er enghraifft, pan ymwelodd trigolion cartref gofal preswyl Plas Maesincla â'r ysgol, cynorthwyodd y dysgwyr i baratoi'r te prynhawn, gweithgaredd a ddatblygodd nid yn unig eu sgiliau bywyd ymarferol ond a wnaeth feithrin rhyngweithio cymdeithasol ac a atgyfnerthodd eu hymdeimlad o gymuned.

Tynnodd athrawon sylw at y ffaith bod llawer o ddysgwyr yn treulio llawer iawn o amser gartref, gan wneud cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn arbennig o werthfawr. Yn yr un modd, mae aelodau'r gymuned wedi elwa ar ryngweithio cymdeithasol cynyddol a theimlad cryfach o berthyn trwy eu gwaith ymgysylltu â'r ysgol.

> “Mae'r sgiliau mae ein plant yn eu cael mor bwysig yn ogystal â'r sylw mae pob unigolyn hŷn yn ei gael. Mae'r cydweithrediad rhyngddynt yn meithrin empathi ac mae'r plant yn dod i ddeall ein cymdeithas yn well.” (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Adroddwyd hefyd fod meithrin cydberthnasau cryf a hybu hyder dysgwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb. Gwelodd uwch-arweinwyr welliannau amlwg ym mhresenoldeb ymhlith y dysgwyr a'r teuluoedd y mae'r swyddog wedi bod yn ymgysylltu'n agos â hwy.

> “Yn yr ysgol, mae plentyn sydd ddim eisiau dod i mewn bob dydd. Ond drwy feithrin hyder, bydd nawr yn dod allan i'r gymuned ac yn siarad â'r henoed, pan o'r blaen, pan oedd gyda'r athro, roedd yn eistedd ar ei ben ei hun. Felly, mae'n rhywbeth bach fel hyn y gallwn ni ei wneud.” (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

#### 3.3.2.4. Gwersi

Mae'r astudiaeth achos hon yn adlewyrchu ystod eang o weithgareddau y mae Ysgol Gynradd Maesincla wedi'u gwneud i gefnogi ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Yn benodol, mae eu pwyslais ar fynd â dysgwyr i leoliadau cymunedol, gan gynnwys canolfannau gofal, siopau llyfrau a hybiau cymunedol, wedi galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac ymarferol hanfodol wrth wneud cyfraniadau cadarnhaol i garfannau o'r gymdeithas sy'n aml yn cael eu hanwybyddu. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cryfhau cydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol, gan gyd-fynd yn agos â nodau'r strategaeth. Efallai fod y pwyslais hwn wedi cael ei annog gan sefydlu diwrnod allgymorth cymunedol pwrpasol bob wythnos gan y rheolwr ysgolion bro blaenorol ar gyfer y swyddog ymgysylltu â theuluoedd.

Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi wynebu heriau o ran cefnogi pontio dysgwyr i addysg uwchradd, yn enwedig pan nad yw rhai ysgolion uwchradd yn y dalgylch yn ymwneud â'r strategaeth eu hunain. Yn y bôn, mae Maesincla yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar y swyddog ymgysylltu â theuluoedd i gyflawni'r strategaeth, gan godi pryderon ynghylch cynaliadwyedd y cyllid. Er gwaethaf hyn, mae'n ymddangos bod y strategaeth wedi bod o fudd amlwg i ddysgwyr, teuluoedd, staff yr ysgol, a'r gymuned ehangach. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y byddai sefydlu'r rôl fel un amser llawn yn arbennig o werthfawr o ystyried y lefel uchel o angen yn yr ysgol.

### 3.3.3. Castell-nedd Port Talbot

#### 3.3.3.1. Trosolwg

Mae'r strategaeth wedi'i hen sefydlu yng Nghastell-nedd Port Talbot o'i gymharu â llawer o rannau eraill o Gymru. Hyd yn oed cyn cychwyn cylch hwn y strategaeth yn 2022, hyrwyddwyd dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned gan yr awdurdod lleol fel rhan o flaenoriaeth polisi i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Dros amser, mae'r awdurdod lleol wedi adeiladu tuag at fodel lle mae gan y mwyaf o'r ysgolion fynediad at swyddog ymgysylltu â theuluoedd, mae strwythurau ar waith er mwyn sicrhau dysgu ar y cyd a goruchwyliaeth effeithiol, ac mae gweithgareddau'n cael eu llywio gan dystiolaeth a gwerthusiad.

Mae'r astudiaeth achos yn canolbwyntio'n bennaf ar dair ysgol gynradd o amgylch Castell-nedd a ymwelwyd yr hwy gan y tîm gwerthuso fel rhan o Wythnos Dathlu Ysgolion Bro ym mis Mawrth 2025 – Ysgol Gynradd Coed-ffranc, Ysgol Gynradd yr Abaty, ac Ysgol Maes y Coed.

#### 3.3.3.2. Cyd-destun yr astudiaeth achos

Er yr oedd yn ganolfan ddiwydiant yng Nghymru yn hanesyddol, yn enwedig y diwydiant cynhyrchu dur o amgylch Port Talbot, mae'r awdurdod lleol wedi wynebu heriau gyda diweithdra a dirywiad ers canol yr ugeinfed ganrif. Mae pymtheg o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yr awdurdod lleol wedi'u rhestru yn y 10%

mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef un o'r cyfrannau uchaf yng Nghymru. Mae amddifadedd wedi'i grynhoi arbennig o amgylch ardaloedd cyn-ddiwydiannol megis Sandfields ym Mhort Talbot, a chymunedau cyn-lofaol yn y Cymoedd. Mae gan yr awdurdod lleol gyfran uwch na'r cyfartaledd o oedolion heb gymwysterau, sef 12.2% (StatsCymru, 2025). Mae lleoliad gwledig llawer o gymunedau'r awdurdod lleol hefyd yn cyfyngu ar fynediad at wasanaethau a chymorth.

Mae awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi pwyslais cryf ar addysg i liniaru'r effeithiau y gallai'r heriau hyn eu cael ar blant. Arweiniodd ymdeimlad cryf o annibyniaeth i Gastell-nedd Port Talbot adael consortia addysg rhanbarthol Cymru yn 2020, gan deimlo ei fod mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau'n lleol. Galluogodd hyn fwy o ymreolaeth o ran polisi addysgol, gan gynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac arwain ar y strategaeth ysgolion bro o'r cychwyn cyntaf. Roedd adroddiad Estyn yn 2025 yn cydnabod ymdrechion Castell-nedd Port Talbot o ran addysg, gan dynnu sylw at lwyddiannau nodedig wrth ddefnyddio swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (Estyn, adnoddau, 2025).

Mae gan Ysgol Gynradd Coed-ffranc boblogaeth o 310 o ddisgyblion, ac mae 31% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd presenoldeb yn yr ysgol yn 90.3% yn 2024. Coed-ffranc oedd un o'r ysgolion cynharaf i beilota'r strategaeth ysgolion bro, gydag arweinwyr yn teithio i Efrog Newydd ar daith ddysgu tua 2015. Mae Ysgol Gynradd yr Abaty yn ysgol newydd a gyfunodd dair ysgol gynradd yn ddiweddar yn un cyfleuster mawr, modern. Mae tua 16% o ddysgwyr yr ysgol yn gymwys am brydau ysgol am ddim, a 92.2% yw presenoldeb yr ysgol. Mae Ysgol Maes y Coed yn ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer 120 o ddisgyblion o bob oed gydag amrywiaeth o anawsterau dysgu cymhleth.

#### 3.3.3.3. Canfyddiadau

*Cefndir*

Fel y nodwyd eisoes, roedd Castell-nedd Port Talbot yn arweinydd wrth weithredu'r strategaeth ysgolion bro, gyda phedair ysgol leol yn cymryd rhan mewn cynlluniau peilot a theithiau ymchwil i Efrog Newydd yng nghanol y 2010au. Rhoddodd cyhoeddiad a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y strategaeth gyfle i adeiladu ar y gwaith a oedd yn bodoli eisoes.

Mae'r strategaeth yn rhan o adran gwella ysgolion yr Adran Addysg, a nodwyd fel galluogwr pwysig, oherwydd bod y dull wedi'i seilio ar degwch addysgol a chydweithio â chymunedau. Targedwyd ysgolion i ddechrau trwy ddefnyddio data MALI a data dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, gan nodi pa ysgolion oedd eisoes yn ariannu swyddog ymgysylltu â theuluoedd drwy eu Grant Datblygu Disgyblion. Y flaenoriaeth oedd nodi a llenwi bylchau er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws yr awdurdod lleol, gyda'r nod o ddarparu 15 awr o amser gyda'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yr wythnos i bob ysgol. Rhannwyd rhai swyddogion ar draws clystyrau o ysgolion llai er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.

Ar adeg y gwaith maes gwerthuso, roedd 28 o swyddogion mewn swyddi, a bwriedir i'r nifer hwn gynyddu i 43 erbyn diwedd 2025. Mae tri rheolwr cymunedau dysgu wedi'u penodi i ddarparu cymorth i'r swyddogion, ac mae'r rhain yn gweithredu rhwng yr ysgol a'r rheolwr ysgolion bro. Ar gyfer ysgolion heb fynediad at swyddog ymgysylltu â theuluoedd, cânt eu cefnogi i recriwtio 'hyrwyddwr cymunedol' a all fynychu cyfarfodydd rhwydwaith y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rhannu gwybodaeth bwysig.

Mae tîm y strategaeth wedi sefydlu rhwydwaith cymunedol bob hanner tymor mewn un gymuned ddysgu, gan wahodd pob asiantaeth a sefydliad perthnasol i feithrin cysylltiadau a galluogi cymorth cyfannol. Mae'r rhain yn cael eu hwyluso gan bartneriaeth hirhoedlog gydag Achub y Plant, sydd wedi darparu cymorth i ddatblygu'r model peilot cyffredinol ar gyfer y strategaeth, gan adeiladu ar brosiect FamilyConnect blaenorol, a gefnogodd waith ymgysylltu â rhieni. Mae cyfeiriadur o asiantaethau hefyd wedi'i ddatblygu i gefnogi'r swyddogion gyda chyfeirio.

Mae monitro a gwerthuso wedi'u rhoi wrth wraidd y dull ysgolion bro yn Nghastell-nedd Port Talbot. Sefydlodd yr awdurdod lleol 'Tîm Teulu' fel model peilot gan ddefnyddio'r cylch cyntaf o gyllid ysgolion bro. Mae Tîm Teulu yn dîm o bum swyddog sy'n gweithio ar draws pob ysgol gynradd yng nghlwstwr Llangatwg, yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol ac yn cael eu rheoli gan y rheolwr ysgolion bro. Cafodd y cynllun peilot ei lywio gan ymgynghoriad â'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd presennol, ac, yn 2023, comisiynwyd Achub y Plant i gynnal astudiaeth dichonoldeb ar y dull hwn. Mae Castell-nedd Port Talbot hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Athro Janet Goodall ym Mhrifysgol Abertawe er mwyn sicrhau bod y dull wedi'i lywio'n gadarn gan dystiolaeth.

Mae rhwydwaith o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd hefyd wedi'i sefydlu ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnwys is-grwpiau sy'n gweithio ar themâu penodol megis pontio. Yn ogystal â chyswllt rheolaidd drwy gyfrwng WhatsApp, mae'r swyddogion yn cyfarfod bob hanner tymor i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt a gwrando ar drafodaethau wedi'u targedu.

Canolbwyntiodd Cam 1 o'r strategaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ar oruchwylio'r swyddogion wrth iddynt ddarparu cymorth i deuluoedd. Ar adeg y gwaith maes gwerthuso, roedd yr awdurdod lleol yn symud i Gam 2 o'i ddull, a oedd yn anelu at hyfforddi cymunedau ysgol gyfan ac ymgorffori ethos y strategaeth yn llawn ledled yr awdurdod lleol. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi tyfu'n gyson. Yn y digwyddiad dathlu yr oedd y tîm gwerthuso yn bresennol ynddo, roedd hanner y 62 ysgol yn yr awdurdod lleol yn bresennol. Nododd y rheolwr ysgolion bro mai dim ond un ysgol a fynegodd ddiddordeb pan lansiwyd y strategaeth i ddechrau.

*Cyflwyno'r strategaeth ysgolion bro*

Yng Nghoed-ffranc, fe benodwyd gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd tua 2016 yn dilyn y daith ddysgu i Efrog Newydd. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ymyrraeth gynnar

a meithrin cydberthnasau ymddiriedus â theuluoedd, gan gydnabod y gall rhieni/gofalwyr ei chael hi'n anodd trosglwyddo cyfrifoldeb am eu plant i'r ysgol. Datblygwyd dull y gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd mewn ymateb i gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru yn 2019, gan ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim yr wythnos, a alluogodd fwy o rieni/gofalwyr i weithio. Creodd hyn angen a chyfle i'r ysgol ddarparu cymorth cofleidiol i blant o bob oed. Dechreuodd rôl y gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd gyda grwpiau chwarae i blant iau, gan ddatblygu'n grwpiau o deuluoedd mewn ystafell bwrpasol, sydd bellach yn cael ei defnyddio gan lu o bartneriaid ac asiantaethau. Ar adeg ymweliad y tîm gwerthuso, roedd 118 o blant a rhieni/gofalwyr yn cael eu cefnogi.

Anfonwyd cynorthwyydd addysgu arall ar secondiad i ysgol gyfun, ac mae bellach yn gweithio gyda phlant hŷn yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol arweinydd ysgolion bro hefyd, y mae ei rôl yn cynnwys croesawu rhieni/gofalwyr a dysgwyr wrth y drws a goruchwylio elfennau o waith cydlynu'r strategaeth. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau a gwasanaethau fel timau lleferydd ac iaith, ymwelwyr iechyd, nyrsys, a meddygon teulu. Mae Dechrau'n Deg wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol, gan alluogi atgyfeiriadau ac yn alinio darpariaeth. Mae'r ysgol wedi ymgymryd â mesurau 'diogelu rhag tlodi' mewn cydweithrediad â'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (ynghyd ag wyth ysgol arall ar draws Castell-nedd Port Talbot), sy'n anelu at leihau cost mynychu'r ysgol i deuluoedd a chodi ymwybyddiaeth o dlodi ymhlith aelodau staff yr ysgol. Ymhlith y mentrau eraill y mae siop gyfnewid y gymdeithas rhieni ac athrawon sydd wedi'i lleoli yn y maes chwarae, sy'n ceisio lleihau stigma ynghylch fforddiadwyedd.

Mae Ysgol Gynradd yr Abaty wedi cyflogi swyddog ymgysylltu â theuluoedd ers tair blynedd, am dri diwrnod yr wythnos. Roedd y swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi gweithio yn y blynyddoedd cynnar yn yr ysgol yn flaenorol, ac roedd ganddi gydberthnasau sefydledig â theuluoedd. Dangosodd ymgynghoriad cynnar â rhieni/gofalwyr fod rhieni/gofalwyr am fod yn fwy cysylltiedig â'r ysgol, ac nad oedd cyfleusterau modern yr ysgol yn cael eu defnyddio a'u rhannu digon â'r gymuned. Mae rôl y swyddog yn cynnwys chwilio am gyllid grant ychwanegol, cynnal gweithdai a grwpiau rhiant a phlentyn, a chryfhau'r gymdeithas rhieni ac athrawon. Oherwydd profiadau a diddordebau personol y swyddog, mae llawer o weithgareddau wedi canolbwyntio ar ADY a rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i rieni/gofalwyr i gefnogi eu plant. Mae gan yr ysgol ganolfan ar gyfer asesu ADY yn rhan ohoni, ac mae'r swyddog wedi achub ar y cyfle i ymgysylltu â'r rhieni/gofalwyr hyn a'u cefnogi hefyd. Mae safle'r ysgol wedi cael ei rannu â sefydliadau ac asiantaethau eraill, fel grwpiau seicoleg addysg, drama a chelfyddydau, llyfrgell chwarae leol, a'r 'Knitting Nanas'.

Ym Maes y Coed, fe ddefnyddiwyd cyllid y strategaeth i gyflogi swyddog amser llawn. Mae gan yr ysgol hanes cryf o ymgysylltu â theuluoedd, ar ôl ennill gwobr yn ystod pandemig COVID-19, ond y dirprwy bennaeth oedd yn gwneud y gwaith hwn yn flaenorol. Adroddwyd bod penodiad y swyddog wedi ei rhyddhau'n sylweddol i

ganolbwyntio ar flaenoriaethau eraill. Mae rôl y swyddog yn canolbwyntio ar wella presenoldeb trwy sgyrsiau rheolaidd, ymweliadau â'r cartref, ac ymgysylltu'n gynnar cyn y flwyddyn ysgol, yn ogystal â gweithio gyda rhieni/gofalwyr trwy weithdai a sesiynau anffurfiol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cymorth ymarferol, fel banc bwyd llawn stoc, talebau, a blychau gwyliau, ac yn sicrhau nad oes unrhyw arweinwyr yn cael eu heithrio o deithiau na gweithgareddau am resymau ariannol.

Oherwydd bod llawer o ddysgwyr yn dod i'r ysgol ar fws neu mewn tacsi, mae ymgysylltu â rhieni wedi bod yn fwy heriol yn absenoldeb cymuned 'giât ysgol'. Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i feithrin cysylltiadau drwy gylchlythyrau, Class Dojo (platfform cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhiant/gofalwr), Facebook, a chyngor rhieni (a oedd ar fin cael ei sefydlu adeg y gwaith maes). Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn mynychu digwyddiadau rhwydwaith, sydd hefyd yn helpu i oresgyn y profiad o deimlo'n ynysig y gellir ei achosi o fod mewn lleoliad ar ei ben ei hun. Mae'r ysgol yn cysylltu'n agos â sefydliadau lleol ac yn cynnal digwyddiadau megis ffeiriau crefftau yn yr ysgol, sy'n hybu cysylltiadau â'r gymuned ac yn codi arian i'r ysgol.

*Galluogwyr a rhwystrau i weithredu*

Mae ymrwymiad Castell-nedd Port Talbot i ymchwil a gwerthuso wedi golygu bod arferion da yn cael eu cofnodi a'u rhannu. Mae rhwydweithiau ymholiadau cydweithredol wedi'u sefydlu i archwilio sut y gall arweinwyr ysgolion gefnogi ei gilydd trwy ymchwil. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi bod yn datblygu pecyn cymorth hunanwerthuso ar gyfer ysgolion er mwyn deall sut maen nhw'n lliniaru effaith tlodi. Serch hynny, adroddodd cyfranogwyr eu bod wedi mynd i'r afael â heriau o ran rhagnodi yn erbyn hyblygrwydd, hyd yn oed wrth i fwy o dystiolaeth ddod i'r amlwg ar ba mor effeithiol yw gwahanol arferion.

> "[Rydyn ni wedi bod] yn ymgodymu ag e am y tair blynedd diwethaf o ran, a ydyn ni'n llunio strwythur, sut ydyn ni'n dilyn y canllawiau? Ac mae'n wirioneddol anodd cael y cydbwysedd hwnnw'n iawn. Mae'n rhywbeth rwy'n teimlo fy mod i'n hynod ofalus yn ei gylch ar hyn o bryd." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Mae'r strategaeth ysgolion bro yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi gwneud defnydd o sawl ased unigryw. Er enghraifft, mae gan yr awdurdod lleol wasanaeth seicoleg addysg cymunedol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, sef un o ychydig yn unig ledled Cymru. Mae'r tîm hwn o bump wedi'i ariannu gan Dechrau'n Deg a'r awdurdod lleol ac mae'n darparu cyngor, cymorth ac asesiadau cyfannol ag ethos amlasiantaeth. Mae wedi gweithio o fewn sawl ysgol yn yr ardal, yn groes i'r angen arferol am atgyfeiriadau ffurfiol a rhestrau aros i blant weld seicolegwyr addysg (Wright, 2023).

Adroddwyd bod rhwydweithio rhwng swyddogion ymgysylltu â theuluoedd wedi galluogi gweithredu arferion a chysylltiadau newydd â gwasanaethau ac asiantaethau na fyddent wedi bod yn hysbys fel arall. Yn fwy cyffredinol, gwelwyd bod yr ethos cydweithredol ledled yr awdurdod lleol, gan gynnwys rhwydweithiau cymunedol, yn

ganolog i lwyddiant y strategaeth. Adroddodd rhai cyfranogwyr fod ymgysylltu â phartneriaid cymunedol yn her, gan deimlo bod dealltwriaeth gyfyngedig o'r strategaeth ynghyd ag anawsterau yn cadw partneriaid wedi'u hymgysylltu ac yn rhagweithiol. Fodd bynnag, nid oedd eraill yn rhannu'r farn hon a gwnaethant nodi bod partneriaid cymunedol wedi bod yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r dull gweithredu. Mae hyn yn debygol o amrywio yn ôl ardal.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr ba mor bwysig ydyw hi i gael yr 'unigolyn cywir' mewn rolau allweddol, fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rheolwyr ysgolion bro, ac o fewn yr awdurdod lleol. I bob pwrpas, fe ddaeth swyddogion ymgysylltu â theuluoedd / gweithwyr ymgysylltu â theuluoedd â'u sgiliau a'u angerdd eu hunain i deilwra'r rôl, ond tynnwyd sylw at y ffaith bod cydberthnasau lleol a gwybodaeth ddofn am y gymuned, bod yn agored ac yn agos-atoch, ac agwedd ragweithiol a chadarnhaol i gyd yn hanfodol.

> "Mae'r unigolion yn y rolau hynny'n hanfodol. Mae angen iddyn nhw feddu ar set benodol o sgiliau, ynghyd â dull penodol. Rhaid iddyn nhw fod yn ddidwyll iawn. Nid oes rhaid iddyn nhw fod o'r gymuned o reidrwydd, ond mae'n rhaid iddyn nhw allu dangos empathi a gallu rhoi eu hunain yn y sefyllfa honno a bod yn hawdd mynd atyn nhw, gan wybod bod ein teuluoedd yn cael diwrnodau da, ynghyd â diwrnodau drwg hefyd." (Aelod o dîm arwain ysgol)

Mae tîm ysgolion bro Castell-nedd Port Talbot yn pwysleisio'r angen i ysgolion ddeall eu cymunedau eu hunain, er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu priodol a hefyd fel proses ymgysylltu fuddiol ynddi'i hun. Roedd dulliau ysgolion wedi'u seilio ar ymgynghori a dysgu parhaus. Defnyddiwyd offer fel arolygon, Class Dojo, ac ymgysylltu ansoddol i gyd i ddeall dymuniadau ac anghenion cymunedau a mynd i'r afael â'r rhain.

> "Rydyn ni bob amser yn ymwybodol o, chi' mod, fod gwahanol garfannau'n newid, mae eu hanghenion yn newid. Felly [rydym yn] ymwybodol o'r hyn y gallwn ei gynnig, neu ofyn i'r rhieni beth y mae ei angen arnynt, fel y gallwn roi pethau ar waith wedyn i'w cefnogi." (Aelod o dîm arwain ysgol)

Mae llawer o'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ledled Castell-nedd Port Talbot yn cael eu cyflogi gan ysgolion yn hytrach na'r awdurdod lleol. Mae hyn ar adegau wedi arwain at anghydraddoldebau o ran strwythur y rôl, y cyflog, a chynnydd. Ni all swyddogion sy'n cael eu cyflogi mewn ysgolion weithio yn ystod gwyliau'r ysgol, gan adael bylchau yn y ddarpariaeth. Mae rhai mesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith, e.e. mae cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio ar agor i bob swyddog waeth beth fo'u strwythur cyflogaeth. Yng Nghoed-ffranc, fe ofynnodd yr ysgol i'r awdurdod lleol ddarparu goruchwyliaeth ar gyfer y gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd (trwy raglen Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gymorth i'r rheini sy'n gweithio ym maes

amddiffyn plant), mae hyn wedi galluogi cymorth annibynnol priodol ar gyfer llesiant y gweithiwr hwn.

Yn Ysgol Coed-ffranc ac Ysgol yr Abaty, mae'r gweithiwr/swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac yn cael eu hariannu gan yr ysgol trwy gyllid y Grant Datblygu Disgyblion, weithiau wedi'i ategu gan grantiau bach. Disgrifiodd staff hyn fel rhywbeth a ganiataodd iddynt “aros yn yr un fan, heb allu gwneud cynnydd” oherwydd cyfyngiadau ariannol ac ansicrwydd grantiau tymor byr. Tynnwyd sylw at effaith cylchoedd ariannu tymor byr ar gynllunio a chynaliadwyedd ar draws pob grŵp o gyfranogwyr.

> “Mae’n ymwneud â diogelwch hirdymor cyllid, oherwydd ni allwn barhau i gael y frwydr hon flwyddyn ar ôl blwyddyn a gorfod dewis rhwng cael cymorth yn y dosbarth a chael cymorth y tu allan iddo.” (Aelod o dîm arwain ysgol)

Tynnwyd sylw at rôl llywodraethwyr fel galluogwyr. Mae’r strategaeth ysgolion bro wedi cael ei galluogi yng Nghoed-ffranc gan gorff llywodraethu ymroddedig sydd wedi blaenoriaethu’r strategaeth ac ymgysylltu cynnar ac wedi neilltuo cyllid ar eu cyfer, er gwaetha’r heriau a’r aberthau ariannol parhaus. Mae eu llywodraethwr cymunedol yn chwarae rhan weithredol yn hyrwyddo a chefnogi’r strategaeth ysgolion bro yn yr ysgol. Mae'r gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd yn cynhyrchu adroddiadau tymhorol i'r llywodraethwyr i ddangos effaith a gwerth y gwaith. Ym Maes y Coed, cadeirydd y corff llywodraethu yw rhiant-lywodraethwr, gan sicrhau bod ymgysylltu rhwng rhieni a theuluoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Er bod y strategaeth yn rhan o gynlluniau gwella a hunanwerthuso ysgolion, fe dynnodd cyfranogwyr sylw at ba mor bwysig yw hi i’w rhoi ar waith fel ethos ysgol gyfan. Un enghraifft o arfer da oedd ysgol gynradd lle mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi cynnal sesiynau gydag athrawon i feithrin eu dealltwriaeth a'u hyder wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr a'u cefnogi i gyflawni eu gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd eu hunain.

Yn Ysgol yr Abaty, mae rhieni/gofalwyr wedi cael eu gwahodd i ddosbarthiadau i ddysgu gyda'u plant. Mae hyn yn cael yr effaith ddeuol o feithrin dealltwriaeth ac ymrwymiad staff yn y broses o ymgysylltu â theuluoedd, wrth ddatblygu cydberthnasau rhieni/gofalwyr â'r ysgol.

> “Mae'n fwy na dim ond ei gael mewn cynllun. Dyma'r dull cyfannol rydyn ni'n ei gymryd tuag ato. A gwyddoch chi, wyddoch chi, [y swyddog ymgysylltu â theuluoedd / y gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd] yw wyneb hynny, yn amlwg. Felly mae [y swyddog ymgysylltu â theuluoedd / y gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd] allan ar y drws ffrynt yn rheolaidd yn cyfarfod ac yn cyfarch rhieni, ac ar gael i rieni os oes ei hangen arnynt. Mae hi'n cynnal cyfarfodydd presenoldeb â theuluoedd, yn codi'r ffôn, yn

cysylltu â hwy. Felly, y dull cyfannol hwnnw ydyw yn hytrach na, wyddoch chi, ei fod yn cael ei wneud oherwydd ei fod yn rhan o gynllun. Mae'n bopeth rydyn ni'n ei wneud." (Aelod o dîm arwain ysgol)

Rhannwyd yr ethos hwn ar draws yr awdurdod lleol, gan bwysleisio cred mewn dull cynaliadwy, ysgol gyfan o gefnogi teuluoedd. Mae hyfforddiant wedi'i ddatblygu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ac arweinwyr lefel ganol, ac roedd hyfforddiant yn cael ei ddatblygu ar gyfer llywodraethwyr. Roedd y tîm ysgolion bro hefyd yn archwilio ymgysylltiad hyrwyddwyr cymunedol o fewn ysgolion, er mwyn sicrhau nad oedd y rheolwr ysgolion bro, ac arweinwyr ymroddedig, yn gyfrifol yn gyfan gwbl am hyrwyddo'r strategaeth. Mae cynrychiolwyr yr awdurdod lleol, gan gynnwys y rheolwr ysgolion bro, yn mynychu grwpiau fel cyfarfodydd penaethiaid ledled Castell-nedd Port Talbot a grwpiau atal tlodi oherwydd costau byw i rannu gwerth y strategaeth a sicrhau ei bod yn cael ei chadw ar yr agenda.

*Canlyniadau*

I lawer o ysgolion, cafwyd effeithiau gweladwy a mesuradwy ar draws sawl metrig gwahanol, gan gynnwys presenoldeb, gwaharddiadau, a boddhad rhieni â'r ysgol. Cydnabu adroddiad Estyn ar gyfer Ysgol Coed-ffranc fod gwaith ymgysylltu â theuluoedd yr ysgol yn eithriadol (Estyn, 2022). Canfu astudiaeth dichonoldeb a gwerthuso Achub y Plant yng nghlwstwr Llangatwg fod swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, a'r rhwydwaith cymunedol, wedi bod yn hwyluswyr allweddol o ran ysgogi newidiadau cadarnhaol mewn ymgysylltiad â theuluoedd, er bod capasiti staff a chyllid parhaus wedi peri heriau (Achub y Plant, heb ei gyhoeddi). Ystyriwyd bod y strategaeth yn galluogi mynediad at ystod eang o wasanaethau ac asiantaethau "ar y stepen drws" ar gyfer ysgolion nad oeddent yn ymwybodol ohonynt neu â mynediad atynt o'r blaen.

Mewn llawer o leoliadau, fe adroddwyd bod y strategaeth wedi llwyddo i greu cydberthnasau cryf â rhieni/gofalwyr a theuluoedd. Nododd llawer o gyfranogwyr, er bod hyn wedi bod yn heriol ar y dechrau, fod meithrin cydberthnasau cyson dros amser wedi goresgyn y rhwystrau cychwynnol yn llwyddiannus. Nodwyd 'profi a methu' fel ffactor pwysig, a sicrhau nid yn unig y gweithgareddau, ond y ffordd y cawsant eu cyfleu, wedi'u teilwra'n ddigonol ar gyfer anghenion teuluoedd.

> "Mae'n dipyn o newid diwylliannol mewn gwirionedd, i rieni a staff. Ond efallai nad oes gan rai rhieni brofiad da o'r ysgol ac maen nhw ychydig yn ofnus neu'n betrusgar i ddod i mewn. Gyda'r gweithdy mathemateg, cawsom bresenoldeb da iawn, iawn. Ond efallai nad oedd presenoldeb cystal yn y dysgu cydweithredol. Oherwydd nad oedden nhw'n hollol siŵr beth oedd dysgu cydweithredol yn ei olygu, chi' mod. Felly, mae'n ymwneud â gwneud hynny mor eglur â phosibl, ac yn amlwg gwneud i rieni deimlo'n gyfforddus yn yr amgylchedd hefyd." (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Pan fynychodd y tîm gwerthuso grŵp rhiant a baban a gynhaliwyd gan y gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd yn Ysgol Coed-ffranc, fe ddisgrifiodd rhieni/gofalwyr ef fel lle cefnogol sy'n meithrin hyder sydd wedi eu helpu i deimlo'n llai ar eu pennau eu hunain ac wedi'u cysylltu'n fwy â chymuned yr ysgol. Clywodd llawer am y grŵp drwy gysylltiadau presennol â'r ysgol neu Dechrau'n Deg, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â rhieni/gofalwyr eraill, rhannu cyngor, a sefydlu arferion dyddiol. Siaradon nhw am ddysgu caneuon a gweithgareddau y gallen nhw eu defnyddio gartref, darganfod cyfleoedd lleol na fydden nhw wedi gwybod amdanyn nhw fel arall, a meithrin ymddiriedaeth a hyder yn yr ysgol. Nododd un rhiant ba mor hwylus yw cael ei holl blant yn cael eu haddysgu ar yr un safle, gan werthfawrogi ymdrechion yr ysgol i gynnwys teuluoedd trwy ddigwyddiadau megis cyngherddau Nadolig.

Yn Ysgol Maes y Coed, fe ddisgrifiodd rhieni/gofalwyr y sesiynau wythnosol a gynhelir gan y swyddog ymgysylltu â theuluoedd fel ffynhonnell hanfodol o gymorth, cyfathrebu a chysylltiad. Roeddent yn gwerthfawrogi cael eu hymgynghori'n rheolaidd ynghylch yr hyn a fyddai'n eu helpu a gweld yr ysgol yn ymateb i'w hawgrymiadau. Tynnodd llawer sylw at sut roedd cyfathrebu'n llawer cryfach nag mewn lleoliadau prif ffrwd, gyda diweddariadau a lluniau dyddiol yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad â dysgu eu plant pan all cyfathrebu llafar gartref fod yn anodd. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd hefyd yn trefnu gweithgareddau cynhwysol, megis digwyddiadau Calan Gaeaf, tripiau sinema, a sesiynau chwarae meddal, sy'n caniatáu i deuluoedd gymryd rhan mewn profiadau heb ofni cael eu barnu, tra hefyd yn helpu rhieni/gofalwyr i feithrin cyfeillgarwch a dod yn llai unig. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig cyfleoedd i ddysgu sgiliau ymarferol, fel iaith arwyddion, ac i fynd â strategaethau adref i gefnogi eu plant.

Adroddwyd am ganlyniadau cadarnhaol ac arferion da gan ysgolion eraill ar draws Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal â'r rheini a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwerthusiad. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Croeserw yng Nghwm Afan, arweiniodd proses gydlunio gydag athrawon, dysgwyr a rhieni/gofalwyr at ddatblygu polisïau newydd fel cydnabyddiaeth gadarnhaol o ymddygiad dysgwyr. Roedd hyn yn gysylltiedig â gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau ac amserlenni â llai o oriau, cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n mynd i nosweithiau rhieni, a chynnydd mewn sgoriau llythrennedd. Yn Ysgol Gynradd Melin yng Nghastell-nedd, nod y rhaglen 'Ready, Steady, School' oedd cefnogi'r cyfnod pontio o'r ysgol feithrin, gan arwain at newidiadau cadarnhaol yn amgylchedd yr ysgol a sgiliau'r staff. Datblygwyd hyn ar y cyd â chynrychiolwyr o seicoleg addysg, therapi iaith a lleferydd, a therapi galwedigaethol, yn ogystal â rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Yn Ysgol Gynradd Eastern ym Mhort Talbot, fe ddatblygwyd prosiect mapio data manwl gan ddefnyddio metrigau, gan gynnwys lwfans ceisio gwaith, y defnydd o fanciau bwyd, a lefel cymwysterau, i nodi lefelau anghenion cymorth ymhlith teuluoedd. Arweiniodd targedu'r teuluoedd hynny â'r lefel fwyaf o angen at gynnydd mewn presenoldeb a gwelliant o ran ymgysylltiad rhieni, ac ysgogodd nifer o rieni/gofalwyr i ddilyn cyrsiau achredig.

Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw dull awdurdod lleol cyfan gan y cyfranogwyr wrth godi proffil y strategaeth ysgolion bro fel rhan allweddol o'r dull addysgol, nid baich ychwanegol. Dywedodd cynrychiolwyr awdurdod lleol fod gweledigaeth Castell-nedd Port Talbot yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru, ac mai ‘nawr oedd yr amser’ ar gyfer y strategaeth ysgolion bro, o ystyried y cyfleoedd a ddarperir gan y Cwricwlwm i Gymru a newidiadau ehangach ar draws addysg.

> “Rwy’n credu mai’r hyn y mae’r strategaeth hon wedi’i wneud yn bendant yw codi proffil [y strategaeth] oherwydd fy mod i’n credu y gallai hynny ddibynnu ar y pennaeth, neu’r uwch-dîm arwain neu’r aelodau staff. Ond mae’r strategaeth hon yn codi proffil ysgolion bro a’r buddion sydd ynghlwm wrthynt […] Y ffordd y mae Castell-nedd Port Talbot wedi'i wneud, sef bron fel ymdrech ledled yr awdurdod lleol – rwy'n credu bod hynny wedi gwella ein canfyddiad ohoni, a'i hystyried nid fel rhywbeth ychwanegol, na rhywbeth sy'n cael ei adeiladu ar ben yr hyn a wnawn eisoes, ond, yn hytrach, rhywbeth y gellir ei ymgorffori yn ein hysgol gan beidio â chreu llwyth gwaith ychwanegol i bobl.” (Aelod o dîm arwain ysgol)

Roedd digwyddiadau dysgu megis yr wythnos ddathlu ym mis Mawrth 2025 wedi rhoi cyfleoedd i hyrwyddo’r strategaeth a'i llwyddiannau, gan feithrin diddordeb ac ymrwymiad gan ysgolion a allai fod wedi bod yn betrusgar. Mae eu llwyddiant yn amlwg yn y nifer gynyddol o ysgolion sy'n ymgysylltu â’r strategaeth ar draws Castell-nedd Port Talbot. Er gwaethaf yr heriau, roedd ymdeimlad o gyffro ymhlith llawer o’r rheini a gymerodd ran ynghylch y nifer cynyddol o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ar draws ysgolion yr awdurdod lleol a’r ffaith eu bod yn parhau i greu momentwm.

#### 3.3.3.4. Gwersi

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad cryf i’r strategaeth a chynllun gweithredu clir, aml-gam sydd wedi galluogi’r strategaeth i gael ei hymsefydlu ar draws rhai lleoliadau. Mae'r dull wedi rhoi pwyslais cryf ar deilwra gan randdeiliaid lleol, wedi'i lywio gan gydweithio agos â dysgwyr, teuluoedd a chymunedau ehangach, gan sicrhau cynlluniau sy'n briodol i’r ardal leol. Ar yr un pryd, mae hyn wedi'i ategu gan ymrwymiad cryf i fonitro a gwerthuso, rhwydweithiau cymunedol, a rhwydweithiau o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, sy'n caniatáu i wybodaeth ac arferion da gael eu rhannu ar draws yr awdurdod lleol, fel bod pob ysgol yn cael lefel gyson o gymorth.

Serch hynny, mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag adnoddau annigonol ac anghyson. Mae contractau tymor byr yn creu problemau o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal ag effeithio ar lesiant staff, tra bo tanariannu ar lefel yr ysgol yn golygu bod y seilwaith wedi dirywio, ac nid yw bob amser yn addas i gyflwyno’r strategaeth yn y ffordd orau posibl. Mae'r elfen hon yn

dangos na ellir gwella effeithiolrwydd a chynaliadwyedd heb ddigon o gyllid dros yr hirdymor.

### 3.3.4. Canolfan Ddysgu Sir Benfro

#### 3.3.4.1. Trosolwg

Mae Canolfan Ddysgu Sir Benfro yn Uned Cyfeirio Disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n cynnig addysg a chymorth arbenigol i blant a phobl ifanc o oedran ysgol statudol nad oes modd diwallu eu hanghenion ymddygiadol, emosiynol neu gymdeithasol, neu anghenion dysgu ychwanegol eraill, ar hyn o bryd o fewn amgylchedd ysgol brif ffrwd.

Roedd ethos sy'n canolbwyntio ar y gymuned eisoes yn rhan annatod o ddiwylliant y ganolfan trwy ei chyfranogiad mewn prosiect tebyg. Fodd bynnag, mae'r strategaeth ysgolion bro wedi atgyfnerthu a dilysu'r dull hwn ymhellach trwy gymorth pwrpasol gan swyddog ymgysylltu â theuluoedd sydd wedi helpu i weithredu'r strategaeth trwy gynnal gweithgareddau eang i deuluoedd a’r gymuned, a gweithgareddau amlasiantaeth, o fewn y lleoliad. Yn ôl y rheini a gymerodd ran, un o ganlyniadau mwyaf nodedig y dull hwn fu gwelliant sylweddol yn enw da’r ysgol o fewn y gymuned leol. Trwy herio canfyddiadau hirhoedlog sy'n gysylltiedig ag Unedau Cyfeirio Disgyblion a meithrin cydberthnasau ystyrlon, mae Canolfan Ddysgu Sir Benfro wedi cryfhau ei chysylltiad â theuluoedd a rhanddeiliaid lleol, gan wella ymddiriedaeth ac ymgysylltiad ar draws y gymuned.

#### 3.3.4.2. Cyd-destun yr astudiaeth achos

Mae'r ganolfan ddysgu yn wasanaeth sirol sy'n cynnig lleoliadau tymor byr i dymor canolig wedi'u cynllunio i sefydlogi a chefnogi dysgwyr, gyda'r nod o'u hailgyflwyno i addysg brif ffrwd pan fo'n briodol neu eu trosglwyddo i lwybrau addysgol tymor hir addas. Cyngor Sir Penfro, sy'n gwasanaethu fel yr awdurdod derbyn, sy'n rheoli'r broses dderbyn. Caiff pob cais ei adolygu gan banel amlasiantaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth cynhwysiant, y gwasanaeth seicoleg addysg, ac ysgolion enwebedig. Ar adeg ysgrifennu, mae'r gymuned ddysgu yn cefnogi tua 150 o ddysgwyr, ond mae’n disgwyl i'r nifer hon godi erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd y galw cynyddol am leoliadau arbenigol.

Mae'r ganolfan yn darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer dysgwyr ag anghenion amrywiol drwy'r darpariaethau canlynol:

- Mae’r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion cymhleth trwy gynnig dosbarthiadau bach, staff addysgu arbenigol, a chwricwlwm hyblyg wedi'i deilwra i’r unigolyn
- Mae Stepping Stones yn cynnig cymorth gwell i ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 sy'n cael trafferth mynd i addysg brif ffrwd oherwydd lefelau uchel o orbryder neu iechyd meddwl gwael

    - mae'r ddarpariaeth yn cynnig cwricwlwm personol, mynediad at gymwysterau, ochr yn ochr â chymorth cymdeithasol ac emosiynol pwrpasol
- Mae Allgymorth yn darparu pecynnau addysg pwrpasol ar gyfer dysgwyr sy'n symud rhwng ysgolion neu leoliadau arbenigol, yn ogystal ag ar gyfer y rheini nad ydynt wedi bod yn cymryd rhan yn y system addysg am gyfnod estynedig
    - mae'r rhaglen yn hwyluso'r broses o ailintegreiddio unigolion ac yn sicrhau dilyniant dysgu

Mae'r ganolfan hefyd yn darparu cymorth i ddysgwyr cynradd, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, gan ganolbwyntio ar gymorth gydag ymddygiad a llesiant emosiynol.

Er bod ardal Neyland, lle mae'r gymuned ddysgu wedi'i lleoli, wedi'i rhestru fel ardal ag amddifadedd cymedrol yn ôl MALIC, nid yw hyn yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach o ddysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn teithio o'r tu allan i'r ardal i gael mynediad at y cymorth arbenigol a gynigir gan y gymuned ddysgu, gan adlewyrchu ystod ehangach o gefndiroedd ac anghenion economaidd-gymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae 44% o ddysgwyr y ganolfan yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Teimlwyd bod anghenion y garfan hon yn cyfrannu at absenoldeb parhaus, sy'n gyffredin ymhlith 70% o ddysgwyr.

#### 3.3.4.3. Canfyddiadau

*Cefndir*

Roedd Canolfan Ddysgu Sir Benfro ymhlith y lleoliadau addysgol cyntaf yn Sir Benfro i gael cyllid ysgolion bro, gyda chyflwyniad rôl swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn 2022. Fe'i dewiswyd oherwydd ei chyfran uchel o ddysgwyr o oedran ysgol uwchradd a'r nifer sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, roedd egwyddorion craidd y fenter ysgolion bro eisoes wedi'u hen sefydlu o fewn y lleoliad, ac wedi'u cefnogi gan ymrwymiad cryf gan yr uwch-arweinwyr a chyfranogiad blaenorol fel safle peilot ar gyfer y rhaglen ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned.

O'i chymharu â lleoliadau eraill sy'n gweithredu'r strategaeth, mae'r ganolfan yn wynebu heriau penodol. Fel Uned Cyfeirio Disgyblion, mae llawer o ddysgwyr yn cael eu cludo yno o bob cwr o Sir Benfro, gan gyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i ryngweithio'n anffurfiol yn y mannau lle caiff y plant eu gollwng yn y buarth chwarae, sydd fel arfer yn gyfle i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Ceir hefyd lawer o achosion pan fo profiadau negyddol y rhieni/gofalwyr o'u hamser yn yr ysgol yn effeithio ar eu parodrwydd i ryngweithio â'r ganolfan ddysgu ac addysg eu plentyn. Felly, un o brif flaenoriaethau'r ganolfan yw meithrin ymdeimlad o berthyn a chymuned i bob unigolyn ifanc sy'n mynychu a'u teuluoedd.

Ar ben hynny, mae diffyg dalgylch yn cymhlethu ymdrechion i feithrin cysylltiad ystyrlon â'r gymuned leol, oherwydd nid yw llawer o’r teuluoedd yn byw yn yr ardal leol.

> “Rwy’n credu ei bod hi’n anoddach i leoliad fel Canolfan Ddysgu Sir Benfro weithredu’r model oherwydd ei bod yn gwasanaethu’r sir gyfan, nid dalgylch yn unig. Mae plant o bob cwr o'r sir yn ei mynychu am un rheswm neu'i gilydd.” (Cynrychiolydd o’r awdurdod lleol)

Mae'r stigma sy'n gysylltiedig ag Unedau Cyfeirio Disgyblion, sy'n cynnwys cysylltiad â dysgwyr sydd wedi’u gwahardd, cynrychiolaeth negyddol yn y cyfryngau, a dealltwriaeth gyfyngedig ymhlith y cyhoedd o anghydraddoldebau cymdeithasol sylfaenol, wedi llesteirio ymdrechion ymgysylltu â'r gymuned yn hanesyddol. Mewn ymateb, ac ochr yn ochr â'i waith sy’n ymwneud â’r strategaeth ysgolion bro, fe ailenwyd y lleoliad yn Ganolfan Ddysgu Sir Benfro (a elwid gynt yn ‘Uned Cyfeirio Disgyblion’) fel rhan o ymdrechion ehangach i newid canfyddiadau a meithrin hunaniaeth fwy cynhwysol.

*Cyflwyno’r strategaeth ysgolion bro*

Mae’r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn chwarae rôl sylfaenol wrth ymwreiddio ethos y strategaeth yn y gymuned ddysgu, sef y pwynt cyswllt dynodedig i lawer o deuluoedd. Mae'r swyddog yn chwarae rhan arbennig o hanfodol yn y cyd-destun hwn, o ystyried anghenion sylweddol dysgwyr a'u teuluoedd. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn ariannu contract y swyddog am dri diwrnod, ac mae’r ganolfan ddysgu yn talu costau'r ddau ddiwrnod ychwanegol. Gan gydnabod pa mor hanfodol yw ymgysylltu â theuluoedd wrth gefnogi dysgwyr, fe wirfoddolodd y gymuned ddysgu i fod yn lleoliad peilot ar gyfer y rhaglen ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned yn 2021. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys cyfres o sesiynau hyfforddi i rieni/gofalwyr dros ddeg wythnos, gan ymdrin â phynciau megis coginio, darllen, cymorth gyda gwaith cartref, a grymuso rhieni/gofalwyr yn gyffredinol yn eu rolau. Er bod y rhaglen ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned yn mabwysiadu dull anfeirniadol sy’n ystyriol o drawma, fe welwyd yn eang bod llawer o rieni/gofalwyr yn wynebu rhwystrau sylweddol sy’n eu hatal rhag ymgysylltu, megis profiadau negyddol yn y gorffennol gydag addysg, a all wneud mynediad i'r ysgol yn brofiad brawychus. Cyfrannodd yr hyn a ddysgwyd at ddatblygiad y dull ysgolion bro. Deallwyd bod rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn hanfodol wrth annog cyfranogiad, meithrin ymddiriedaeth, a meithrin cydberthnasau ystyrlon â theuluoedd.

> “Mae rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn hanfodol er mwyn cael perthynas waith gref gyda’r teuluoedd. Os oes gennych chi’r teuluoedd yn eich cefnogi, rydych chi’n aml yn gweld hynny yn ymddygiad y plant ac mae hynny’n eu helpu i ddysgu neu oresgyn unrhyw rwystrau. Mae wir yn allweddol.” (Aelod o staff yr ysgol)

Pwysleisiodd pob rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad fod rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn y gymuned ddysgu yn darparu pwynt cyswllt hanfodol rhwng teuluoedd, yr ysgol, a gwasanaethau statudol eraill. Cyflawnir hyn drwy gyfathrebu rheolaidd â theuluoedd drwy alwadau ffôn, Class Dojo, ymweliadau â'r cartref, a phan fo rhieni/gofalwyr yn dewis hynny, cyfarfodydd mewn lleoliadau mwy niwtral (e.e. caffis). Pwyslais pwysig y rôl yw gwella presenoldeb, yn enwedig ymhlith dysgwyr sy'n absennol yn gyson. Mae'r swyddog hefyd yn chwarae rhan eirioli bwysig, gan gefnogi rhieni/gofalwyr yn ystod cyfarfodydd a all yn aml deimlo'n frawychus neu fod yn llawn jargon dryslyd. Mae ymateb i deuluoedd sy'n wynebu anghenion critigol wrth wraidd eu rôl.

Y tu hwnt i hyn, y swyddog ymgysylltu â theuluoedd sy'n gyfrifol am gyfeirio pobl at wasanaethau perthnasol a gwneud atgyfeiriadau iddynt, gwneud cais am gyllid, a threfnu digwyddiadau sy'n wynebu'r gymuned gyda'r nod o gryfhau cydberthnasau â theuluoedd a meithrin ymdeimlad o berthyn yn y gymuned ehangach. Dylid nodi nad yw'r ganolfan ddysgu yn cael ei goruchwylio gan reolwr ysgolion bro, ac mae'r pennaeth cynorthwyol (bugeiliol) yn gweithredu fel rheolwr llinell ar gyfer y swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Adroddwyd bod y dull hwn o ddarparu rheolaeth linell wedi bod yn effeithiol yng Nghanolfan Ddysgu Sir Penfro, yn bennaf oherwydd bod yr arweinwyr yn cefnogol iawn ohono.

Mae gan y swyddog ymgysylltu â theuluoedd gyllideb bwrpasol i ddarparu cymorth lle bo angen, e.e. pan ddaeth dysgwr i'r gymuned ddysgu heb ddim wedi'i ddarparu ar gyfer penwythnos i ffwrdd, roedd y swyddog yn gallu prynu rhai pethau hanfodol ar ei gyfer.

> "Pethau annisgwyl yn unig yw'r rheiny y mae'n rhaid i chi fod yn eithaf adweithiol iddynt a chael y cyllid hwnnw ar gael fel, pan fydd arnoch ei angen, y gallwch wneud yn siŵr eich bod chi'n gwybod bod ganddyn nhw'r hyn y mae ei angen arnyn nhw." (Aelod o dîm arwain yr ysgol)

Mae'r nifer o fentrau sy'n gysylltiedig â'r strategaeth a gynhaliwyd gan y ganolfan wedi'u categoreiddio isod i adlewyrchu helaethrwydd y gwaith a wneir gan y ganolfan ar draws ymgysylltu â theuluoedd, ymgysylltu â'r gymuned, a gwaith amlasiantaeth. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn gorgyffwrdd ac yn gweithredu'n gyfnewidiol, e.e. mae llawer o ddigwyddiadau gyda theuluoedd a'r gymuned yn cael eu cyflwyno mewn cydweithrediad â phartneriaid amlasiantaeth.

*Ymgysylltu â theuluoedd*

- Ymrwymiad parhaus i brosiect ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned ers 2021/22.
- Mae grwpiau darllen gyda rhieni yn rhoi cyfle i rieni/gofalwyr a dysgwyr weithio trwy destunau a rennir gyda'i gilydd, lle mae strategaethau darllen effeithiol yn cael eu modelu i fagu hyder ymhlith teuluoedd i'w cymell i barhau â'r arfer gartref.

    - Er mwyn annog darllen gartref, fe gafodd y rheini a gymerodd ran gymhellion megis llyfrau addas i'w hoedran, silff lyfrau, a bag ffa i helpu i greu gofod darllen pwrpasol yn y cartref.
    - Trefnodd y grwpiau deithiau i'r llyfrgell leol hefyd i gymell dysgwyr i ddwlu ar darllen a'u hannog i ddefnyddio'r llyfrgell.
- Caffi Croeso yw caffi dros dro misol i rieni/gofalwyr sydd wedi'i gynllunio a'i redeg gan ddysgwyr. Mae'r arian a godir yn cael ei ailfuddsoddi mewn gweithgareddau yn y gymuned.
- Cynigir sesiynau galw heibio i rieni bob pythefnos, wedi'u hanelu'n benodol at deuluoedd dysgwyr newydd, sy'n cydnabod bod dysgwyr yn dechrau ar draws blwyddyn ysgol mewn Uned Cyfeirio Disgyblion.
    - Rhoddodd y sesiynau hyn gyfleoedd i gyfarfod â'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd, meithrin cydberthnasau, a datrys unrhyw heriau cynnar.
- Darparu gwisg ysgol am ddim i bob dysgwr i feithrin ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â'r ganolfan ddysgu, wrth gael gwared hefyd ar unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â'r baich ariannol o gostau gwisg ysgol.
- Parseli bwyd wythnosol a ddarperir i deuluoedd ac atgyfeiriadau i PATCH (sefydliad elusennol sy'n anelu at leddfu effeithiau tlodi ar unigolion a theuluoedd yn Sir Benfro) i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw.
- Cynllun ffrwythau (dosbarthu ffrwythau bob wythnos i ddysgwyr) er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael byrbrydau iach yn ystod y diwrnod ysgol.
- Mae Clwb Brecwast Greggs yn sicrhau bod brecwastau iach a maethlon yn cael eu darparu bob dydd, fel bod dysgwyr yn dechrau'r diwrnod yn barod i ddysgu.
    - Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd bod gan lawer o ddysgwyr deithiau hir i'r ganolfan ddysgu ac efallai nad ydynt wedi cael y cyfle i fwyta cyn cyrraedd y safle.
- Mae cronfa galedi Greggs Foundation yn galluogi aelodau staff y ganolfan i wneud cais am gymorth hanfodol i'r aelwyd (nwyddau gwyn, gwelyau, talebau siopa bwyd, talebau dillad, a chymorth cyfleustodau) ar ran teuluoedd.
    - Dim ond ceisiadau gan bartneriaid atgyfeirio sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw gan Greggs Foundation y mae'r gronfa'n eu derbyn, ac mae Canolfan Ddysgu Sir Benfro yn un ohonynt.
- Cyfleoedd celf a chrefft sy'n rhan o raglen Sbardun i deuluoedd, gan gynnwys gosod mosaig wrth y brif fynedfa er mwyn creu gofod dysgu mwy croesawgar.
- Mae'r clwb gwyliau yn darparu sesiynau wedi'u targedu ar gyfer dysgwyr/teuluoedd (er eu bod yn agored i bawb) er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at weithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol.

*Ymgysylltu â'r gymuned*

- Mae mentrau cydweithredol gyda Chyngor Tref Neyland wedi cefnogi digwyddiadau lleol i wella cysylltiadau â'r gymuned:

    - er enghraifft, cynnal digwyddiad gŵyl y gaeaf yn 2024, a oedd yn agored i drigolion lleol a'r gymuned ehangach, gyda mynediad at lawr sglefrio ar iâ ac atyniadau eraill
- Agorodd cyfleusterau'r ysgol ar ôl oriau i gynnal ystod eang o grwpiau a gwasanaethau, gan gynnwys Clwb Pêl-droed Neyland, gwasanaeth ieuenctid, Sgowtiaid y Môr, Gweithredu dros Blant, rhaglen plant bach GroBrain, hyfforddiant ysgolion sy'n wybodus am drawma, grŵp chwarae Dechrau'n Deg Neyland, a meithrinfa ddydd Doodles.
- Cyfleoedd dysgu pellach i oedolion a ddarperir trwy Sbardun, sy'n cynnig cyrsiau am ddim i oedolion a theuluoedd i ddatblygu eu sgiliau mathemateg a rhifedd mewn ysgolion partner yn Sir Benfro.

*Ymgysylltu â phartneriaid amlasiantaeth*

- Gwasanaethau ar y safle ac yn cynnal cyfarfodydd amlasiantaeth yn rheolaidd, megis y Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol (TAPPAS) ac ysgolion mewngymorth, gan sicrhau gweithio cydgysylltiedig.
- Cymorth pontio i ddysgwyr sy'n pontio i opsiynau ôl-16, gan gynnwys Coleg Sir Benfro, PRP Training, Gwaith yn yr Arfaeth, ac allgymorth ieuenctid.
- Cynllunio gyrfaoedd wedi'i ymgorffori trwy gydweithio agos â Gyrfa Cymru.
    - Canolfan Ddysgu Sir Benfro yw'r Uned Cyfeirio Disgyblion gyntaf yng Nghymru i gyflawni Cam 2 o'r wobr Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith.
- Mae cysylltiadau cyflogaeth a ffurfir drwy bartneriaethau â chyflogwyr lleol, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn gwella mynediad dysgwyr at gyfleoedd yn y byd go iawn ac yn datblygu eu sgiliau.

*Galluogwyr a rhwystrau i weithredu*

Galluogwr pwysig ar gyfer gwaith y swyddog ymgysylltu â theuluoedd a gweithrediad ehangach y strategaeth ysgolion bro oedd ymrwymiad cryf gan arweinwyr. Roedd y tîm uwch-arweinwyr a'r pwyllgor rheoli (sy'n cyfateb i lywodraethwyr ysgol ac yn cynnwys ystod eang o unigolion, gan gynnwys gwasanaethau statudol yr awdurdod lleol a phartneriaethau) yn cydnabod gwerth y dull ysgolion bro, ac adroddwyd bod eu cefnogaeth wedi creu effaith gadarnhaol ledled y lleoliad, gan ddylanwadu ar athrawon a staff cymorth fel ei gilydd.

Yn fwy cyffredinol, priodolwyd llwyddiant y strategaeth yn y ganolfan ddysgu i ymrwymiad unigolion angerddol, gan gynnwys y swyddog ymgysylltu â theuluoedd, uwch-arweinwyr, ac aelodau staff allweddol eraill, a ddaeth â dealltwriaeth ddofn o'r gymuned ac a oedd yn meddu ar ddull nad oedd yn feirniadol ac a oedd yn empathetig yn gyson. Cafodd y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn y ganolfan ddysgu, yn arbennig, ganmoliaeth gan y tîm uwch-arweinwyr a'r staff addysgu fel ei gilydd am ei amynedd, ei ddyfalbarhad a'i empathi, rhinweddau a ystyriwyd yn hanfodol i gyflwyno'r rhaglen yn llwyddiannus.

Ffactor arall a fu'n gyfrifol am lwyddiant gweithredu'r strategaeth yn y ganolfan ddysgu oedd argaeledd rhwydwaith o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gydlynwyd gan yr awdurdod lleol. Mae'r rhwydwaith hwn yn dwyn ynghyd swyddogion o bob cwr o Sir Benfro mewn cyfarfodydd bob hanner tymor, gan ddarparu fforwm gwerthfawr i rannu arferion effeithiol, trafod heriau cyffredin, a chreu datrysiadau ar y cyd. Gwahoddir siaradwyr gwadd yn rheolaidd i gyflwyno arferion gorau ac amlygu gwasanaethau lleol, gan feithrin cyfleoedd ar gyfer partneriaeth a hyrwyddo gweithio amlasiantaeth. Nododd partneriaid cymunedol a'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd fod y rhwydwaith yn hanfodol ar gyfer cynnal cysondeb ac alinio arferion gorau ledled Sir Benfro. Ochr yn ochr â hynny, mae'r ganolfan wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y swyddog a staff eraill drwy hwyluso mynediad at hyfforddiant ar ymarfer sy'n ymwybodol o drawma, dull a ystyrir yn allweddol i lwyddiant y fenter.

Er bod trosiant aelodau staff yn peri her bosibl ym mhob lleoliad, teimlai staff yr ysgol fod ethos y strategaeth wedi'i wreiddio'n dda yn y ganolfan ddysgu, a ddylai sicrhau cynaliadwyedd dros yr hirdymor hyd yn oed os bydd yr aelodau o staff yn newid. Atgyfnerthir hyn ymhellach trwy gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn nghynllun gwella'r ysgol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod cael cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn hanfodol er mwyn ei ganiatáu i hyrwyddo'r strategaeth ysgol bro mewn ffordd effeithiol.

Er bod y ganolfan yn cael incwm rheolaidd drwy ffïoedd lleoliadau ysgol ac yn elwa ar gefnogaeth Cyfeillion Canolfan Ddysgu Sir Benfro (grŵp o wirfoddolwyr sy'n codi arian i gynnig profiadau sy'n cyfoethogi i'r dysgwyr yn y ganolfan), mae'n aml yn ofynnol i'r ysgol ddod o hyd i ddatrysiadau creadigol i gynnal yr ystod eang o fentrau y mae'n eu darparu. Mae hyn yn cynnwys cynnal digwyddiadau â thâl a chynhyrchu incwm drwy osod cyfleusterau ar rent ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

Er gwaetha'r ymdrechion hyn, myfyriodd y pwyllgor rheoli fod sicrhau cyllid cyson ar gyfer y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn parhau i fod yn bryder penodol. Y brif broblem yw cylch cyllido tymor byr y strategaeth, sy'n creu ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y rôl, yn enwedig oherwydd nad yw'r cyllid ar gyfer y fenter yn eglur ar ôl blwyddyn ariannol 2025/26. Awgrymwyd y byddai model ariannu tymor hwy yn cynnig mwy o sefydlogrwydd ac yn cefnogi cynllunio ariannol mwy effeithiol.

> "O safbwynt swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, maen nhw ar gontractau treigl 12 mis o hyd, felly dydyn nhw ddim yn gwybod a oes ganddynt ddiogelwch yn eu swyddi ai peidio. A'r pryder yw ein bod ni'n uwchsgilio'r bobl hyn sy'n gwneud swyddi gwych, ond y risg yw na fyddan nhw'n aros gyda ni. Felly, rydym wedi colli rhai swyddogion ymgysylltu â theuluoedd da iawn [ledled yr awdurdod lleol] y flwyddyn academaidd hon [… oherwydd] datblygiad gyrfa neu [maen nhw wedi] mynd ymlaen i rywle lle mae ganddyn nhw fwy o ddiogelwch yn eu swydd, ac mae hynny'n bryder."
> (Aelod o'r pwyllgor rheoli)

Rhwystr arall y mae'r ganolfan yn ei wynebu yw seilwaith. Er bod yr adeilad wedi'i drefnu ar gyfer gwaith ailddatblygu, mae hyn wedi'i ddadflaenoriaethu, gan adlewyrchu heriau ehangach sy'n effeithio ar y sector Unedau Cyfeirio Disgyblion ar hyn o bryd. Er eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael, mae cyfyngiadau'n parhau oherwydd yr angen am adeilad newyddach.

Yn ogystal, mae'r ganolfan yn parhau i addasu i ddisgwyliadau rhieni sy'n newid, yn enwedig yn dilyn pandemig COVID-19, sydd wedi cael effaith barhaol ar deuluoedd a'u hymgysylltiad ag addysg. Er bod ymdrechion i gryfhau cydberthnasau â rhieni/gofalwyr wedi bod yn gadarnhaol dros ben, mae hyn, ar adegau, wedi creu heriau o ran ymdopi â disgwyliadau nad ydynt yn realistig. Mae staff wedi sylwi bod nifer fach o rieni/gofalwyr weithiau'n mynegi disgwyliadau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gall yr ysgol ei ddarparu'n rhesymol. Ar ben hynny, er bod y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn chwarae rhan amhrisiadwy wrth gefnogi'r ysgol a'r gymuned ehangach, cydnabyddir na all ddatrys yr holl heriau cymdeithasol ehangach y gall teuluoedd eu profi.

*Canlyniadau*

Un o brif ganlyniadau’r dull ysgolion bro yn y ganolfan ddysgu, yr adroddwyd amdano gan y rheini a gymerodd ran, yw gwelliant nodedig yn enw da'r ysgol yn y gymuned leol. Trwy herio canfyddiadau blaenorol yn weithredol a meithrin cydberthnasau ystyrlon, mae'r ganolfan wedi cryfhau ei pherthynas â theuluoedd a rhanddeiliaid lleol. Er bod ethos sy'n canolbwyntio ar y gymuned eisoes wedi'i wreiddio yn niwylliant y ganolfan, mae’r menter ysgolion bro wedi atgyfnerthu a dilysu pwysigrwydd y dull hwn. Myfyriodd y pwyllgor rheoli ar y ffaith bod cyflwyno swyddog ymgysylltu â theuluoedd hefyd wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo'r uchelgeisiau hyn, gan ‘ddilysu’ gwaith allgymorth y ganolfan ymhlith rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach mewn ffordd effeithiol. Ar ben hynny, fe ddangosodd model y pwyllgor rheoli yn y ganolfan fod gwasanaethau'r awdurdod lleol (e.e. gwasanaethau cymdeithasol) wedi elwa ar waith allgymorth y ganolfan, a gefnogodd gydweithio mwy effeithiol ar draws gwasanaethau statudol.

Tynnodd partneriaid cymunedol a staff addysgu sylw at y ffaith y gallai llawer o rieni/gofalwyr fod wedi cael profiadau negyddol o'r ysgol, a oedd wedi cyfrannu, i ddechrau, at eu hamharodrwydd i ymgysylltu â'r ganolfan ac ysgolion blaenorol. Fodd bynnag, mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi chwarae rhan hanfodol wrth feithrin cydberthnasau ymddiriedus nad ydynt yn feirniadol gyda'r teuluoedd hyn, gan helpu i chwalu rhagdybiaethau hirhoedlog am leoliadau addysg. Mae'r cydberthnasau hyn yn aml yn anodd i staff addysgu eu sefydlu, yn enwedig oherwydd methiannau cyfathrebu blaenorol neu gysylltu athrawon â rolau disgyblu, gan wneud swydd y swyddog yn arbennig o werthfawr. O ganlyniad i'r gwaith hwn o feithrin ymddiriedaeth, mae llawer o rieni/gofalwyr bellach yn fwy parod i gael mynediad at gymorth iddyn nhw eu hunain a'u plant. Er enghraifft, mae'r swyddog wedi darparu cymorth lles hanfodol yn ystod cyfnodau o argyfwng, megis yn dilyn cyfnod pan aeth rhiant i’r

ysbyty yn ddiweddar, yn ogystal â sicrhau cyllid i gefnogi teuluoedd sy'n ei chael yn anodd yn ariannol, yn enwedig oherwydd yr argyfwng costau byw.

> “Yn achos y teuluoedd hynny y mae’r [swyddog ymgysylltu â theuluoedd] wedi bod yn gweithio gyda nhw, weithiau mae angen i ni gael sgyrsiau anodd a newid y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion dros dro, ac ni fydd rhieni bob amser yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol. Bydd [y swyddog] yn dod i'r cyfarfodydd hynny i gefnogi'r rhieni yn bennaf a bydd bob amser drwy gydol y cyfarfod yn gwirio llesiant y rhieni yn gyson, gan ofyn, ‘A ydych chi'n deall yr hyn sy'n cael ei ddweud?’ ac ‘Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei ofyn?’ Weithiau gall eich llethu cryn dipyn pan fyddwch chi'n rhiant yn eistedd mewn cyfarfod â gweithwyr proffesiynol. Efallai y byddem yn defnyddio terminoleg y byddem yn ei deall, ond efallai y byddant yn teimlo’n rhy chwithig i ofyn beth oeddem yn ei olygu. Yn yr achosion hynny, yr adborth gan rieni fyddai mai [y swyddog ymgysylltu â theuluoedd] yw eu mecanwaith cymorth yn y sefyllfaoedd anodd hynny.”(Aelod o staff yr ysgol)

Yn ogystal, mae digwyddiadau a arweiniad gan y swyddog wedi creu cyfleoedd i rieni/gofalwyr ffurfio cysylltiadau rhyngddynt eu hunain. Mae mentrau megis y Caffi Croeso wedi galluogi teuluoedd i ffurfio rhwydweithiau cefnogol o gymheiriaid, gyda rhieni/gofalwyr yn nodi eu bod wedi gallu creu cysylltiadau dros brofiadau a rennir a chynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i’w gilydd, ac ymdeimlad o berthyn.

Canlyniad pwysig arall o gyflwyno rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn y ganolfan yw lleihau'r pwysau ar y staff addysgu a staff cymorth. Mynegodd yr holl randdeiliaid proffesiynol fod presenoldeb swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi cynyddu'r capasiti cyffredinol, gan alluogi staff i ganolbwyntio mwy ar waith yn yr ystafell ddosbarth, yn hytrach na rheoli materion teuluol cymhleth nad oes ganddynt efallai'r amser na'r sgiliau arbenigol ar eu cyfer. Roedd staff hefyd yn cydnabod bod y swyddog yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth ac arbenigedd. Mae dealltwriaeth ddofn y swyddog o gyd-destunau teuluoedd unigol a'i wybodaeth am wasanaethau cymorth allanol wedi bod yn amhrisiadwy wrth arwain datrysiadau ac atgyfeiriadau staff. Drwy’r gwaith hwn, mae’r swyddog wedi datblygu dealltwriaeth ddofn o’r heriau cymhleth y mae’r ganolfan yn eu hwynebu o ran presenoldeb, ymgysylltiad rhieni, cydberthnasau cymunedol, a gweithio mewn partneriaeth.

Yn bwysig, mae’r strategaeth hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw wrth gefnogi llesiant staff ochr yn ochr â llesiant teuluoedd. Tynnodd staff sylw at y ffaith bod mentrau megis sesiynau blasu ar goginio gartref, iechyd y perfedd, therapïau amgen, a gwneud torchau wedi'u trefnu ar gyfer staff a theuluoedd, gan adlewyrchu dull cymuned gyfan o lesiant yn y ganolfan.

Mae effaith rôl y swyddog hefyd wedi ymestyn i ddysgwyr, yn enwedig mewn perthynas â phresenoldeb a llesiant dysgwyr. Er y gall mesur gwelliannau mewn presenoldeb fod yn heriol mewn lleoliad fel y ganolfan ddysgu, pan fydd dysgwyr ar

leoliadau tymor byrrach, ac yn aml yn cyrraedd yng nghanol y flwyddyn academaidd, cydnabuwyd gan uwch-arweinwyr a chynrychiolydd o'r awdurdod lleol fod y swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi cyfrannu'n ystyrlon at reoli presenoldeb a pherfformiad. Roedd un enghraifft yn cynnwys mynd â dysgwyr a'u teuluoedd ar daith o amgylch y ganolfan y tu allan i oriau arferol i'w helpu i addasu i'r amgylchedd. Yn fwy cyffredinol, mae rôl y swyddog wedi'i nodi fel ffactor allweddol y tu ôl i lwyddiant a sefydlogrwydd rhai lleoliadau myfyrwyr.

> “Mae’n debyg ei bod wedi achub rhai lleoliadau. Rwy'n meddwl y bydden ni wedi cael sefyllfaoedd lle roedden ni'n crafu ein pennau yn ceisio darganfod beth i'w wneud oherwydd nad oedd yn gweithio. Doedd y rhieni ddim yn cydweithio gyda ni, doedd y [plentyn] ddim yn dod [i mewn] o dan unrhyw amgylchiadau. Ac rwy'n credu bod gwaith [y swyddog ymgysylltu â theuluoedd] wedi osgoi rhai o'r sefyllfaoedd hynny.” (Cynrychiolydd o’r awdurdod lleol)

Canlyniad pwysig arall i ddysgwyr fu cael mynediad at brofiadau newydd na fyddent wedi'u cael fel arall heb y strategaeth ysgolion bro. Yn y ddarpariaeth gynradd, er enghraifft, fe fyfyriodd athrawon ar y ffaith bod dysgwyr wedi elwa ar weithgareddau oddi ar y safle a gweithgareddau allgyrsiol, megis ymweliadau â ffermydd a sesiynau paffio. Yn ogystal, mae digwyddiad Gŵyl y Gaeaf, a drefnir mewn cydweithrediad â Chyngor Tref Neyland, yn rhoi cyfle i bobl ifanc na fyddent wedi'i brofi fel arall oherwydd y costau sydd ynghlwm wrth fynd i ddigwyddiadau o'r fath mewn lleoliadau eraill. Mae'r cyfleoedd hyn nid yn unig yn cyfoethogi eu dysgu, ond maent hefyd yn cefnogi eu datblygiad personol a’u llesiant.

Yn fwy cyffredinol, fe bwysleisiodd staff yn gyson bod gwir effaith y strategaeth i’w gweld gorau mewn astudiaethau achos dysgwyr unigol, sy'n tynnu sylw at yr effeithiau pwysig ac, yn aml, trawsnewidiol ar deuluoedd a dysgwyr.

#### 3.3.4.4. Gwersi

Mae astudiaeth achos Canolfan Ddysgu Sir Benfro yn tynnu sylw at rôl hanfodol y swyddog ymgysylltu â theuluoedd wrth hyrwyddo dull y strategaeth, sy'n cael ei gwella pan gaiff y rôl ei pharchu o fewn y lleoliad a phan roddir yr ymreolaeth a'r adnoddau i ddeiliad y rôl gyflawni ei gyfrifoldebau (e.e. rheolaeth dros ei gyllideb ei hun). Pan gaiff y strategaeth ei chyfuno â chefnogaeth gref gan arweinwyr ac ymrwymiad staff ehangach yr ysgol, mae’r strategaeth wedi profi'n llwyddiannus ar draws amgylcheddau addysgol amrywiol, yn enwedig pan gaiff ei gweithredu gyda chreadigrwydd i fynd i'r afael â rhwystrau a heriau lleol (er enghraifft, pan nad yw rhieni/gofalwyr yn gollwng eu plant yn y buarth chwarae). Yn hollbwysig, mae gan y fenter ysgolion bro y potensial i gryfhau ymdrechion i wella canfyddiadau negyddol y gymuned, yn enwedig yn achos Unedau Cyfeirio Disgyblion, y mae rhagdybiaethau negyddol yn eu cylch yn barod.

Fodd bynnag, mae'r astudiaeth achos hon hefyd yn adlewyrchu heriau sy'n gyson â themâu ehangach a nodwyd yng ngwerthusiad y strategaeth, yn enwedig yr ansicrwydd ynghylch cyllid grant a phroblemau seilwaith sy’n mynd rhagddynt, yn enwedig y rheini sy’n gysylltiedig ag adeiladau ysgolion. Er bod y strategaeth wedi dangos datrysiadau arloesol i'r heriau hyn, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y byddai’r strategaeth ysgolion bro yn elwa ar gymorth ariannol mwy cynaliadwy ac eang.

## 3.3.5. Ysgolion uwchradd Wrecsam

### 3.3.5.1. Trosolwg

Mae’r strategaeth ysgolion bro yn Wrecsam yn cael ei harwain gan ddull gwaith ieuenctid, sy'n pwysleisio ymddiriedaeth, cyfranogiad a grymuso fel modd o sicrhau canlyniadau addysgol a chymdeithasol ar gyfer pobl ifanc. Mae tîm ysgolion bro Wrecsam wedi blaenoriaethu gweithio gydag ysgolion uwchradd i gychwyn, gyda'r gwaith yn ymestyn allan i ysgolion cynradd clystyrau. Mae'r ddwy ysgol uwchradd sydd wedi bod yn rhan o'r broses hyd yn hyn ill dau o dan fesurau arbennig ar hyn o bryd, ac mae’r tîm ysgolion bro wedi datblygu dulliau wedi'u teilwra i gefnogi teithiau newid a gwella'r ysgolion.

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn yr astudiaeth achos hon yn ymwneud ag Ysgol Clywedog, oherwydd bod rhagor o staff ar gael i gymryd rhan yn y gwerthusiad.

### 3.3.5.2. Cyd-destun yr astudiaeth achos

Wrecsam yw'r anheddiad mwyaf yn y Gogledd, a dyfarnwyd statws dinas iddi yn 2022, gan ei gwneud yn un o ddinasoedd newyddaf y DU. Rhagwelwyd y byddai'r datblygiad hwn yn creu cyfleoedd ar gyfer adfywio a gwella economaidd a chymdeithasol, gan arwain at well defnydd a buddsoddiad mewn asedau diwylliannol a chyfle i feithrin balchder o’r fro (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, 2021). Mae bwrdeistref sirol Wrecsam yn cynnwys pocedi o amddifadedd difrifol, sy'n gysylltiedig â dirywiad diwydiannau a gwariant cyhoeddus is yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae diogelwch cymunedol yn fater penodol. Mae gan y fwrdeistref gyfraddau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol llawer uwch na'r cyfartaledd, yn enwedig yng nghanol y dref. Er bod cyfraddau cyflogaeth yn unol â chyfraddau Cymru gyfan, mae cyfradd y bobl 16–64 oed heb unrhyw gymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd (StatsCymru, 2025).

Mae Ysgol Clywedog yn ysgol gynhwysfawr fawr ar gyrion canol tref Wrecsam, gydag 800 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae dros 20% o ddysgwyr yr ysgol yn Dduon, Asiaidd, ac o gefndir ethnig leiafrifol, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd poblogaeth nad yw'n wyn y fwrdeistref, sy’n llai na 7%. Cafodd yr ysgol ei blaenoriaethu ar gyfer y strategaeth ysgolion bro yn rhannol oherwydd ei hasedau, gan gynnwys presenoldeb gweithwyr ieuenctid yn yr ysgol, ei chanolfan chwaraeon, a’r ffaith bod y tîm addysg yn gyfarwydd â chyd-destun yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi wynebu hanes heriol yn ddiweddar. Mae wedi bod mewn mesurau arbennig ers 2019, gydag

adroddiad Estyn yn tynnu sylw'n benodol at heriau o ran safonau, profiadau addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth a rheolaeth (Estyn, 2019). Mae dros 30% o ddysgwyr Ysgol Clywedog yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac 82.7% oedd ei phresenoldeb yn 2024, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 88%.

Mae'r ysgol uwchradd arall sy'n ymwneud â'r strategaeth ysgolion bro, 'Ysgol Uwchradd A', wedi'i lleoli mewn pentref gwledig sydd â hanes cyfoethog o fwyngloddio a phoblogaeth uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae tua thraean o'i dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi bod dan fesurau arbennig ers dechrau 2025, gyda meysydd i'w gwella sy'n cynnwys presenoldeb, ansawdd addysgu, a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, tynnodd adroddiad Estyn sylw hefyd at bethau cadarnhaol, gan gynnwys ymgysylltu'n effeithiol â llais y disgybl, ymgysylltu â theuluoedd, a dull yr ysgol o ymdrin â llesiant disgyblion, sy'n cynnwys cydweithio ag asiantaethau a phartneriaid allanol i ddarparu cymorth ac ystod o weithgareddau i gefnogi'r cyfnod pontio i'r ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 newydd.

#### 3.3.5.3. Canfyddiadau

*Cefndir*

I ddechrau, nododd y tîm ysgolion bro fod Ysgol Clywedog yn ysgol â blaenoriaeth, yn seiliedig ar ddata a oedd yn tynnu sylw at heriau o ran ymddygiad a phresenoldeb. Ar ôl rhai heriau cychwynnol wrth feithrin dealltwriaeth o'r strategaeth, roedd penodi pennaeth newydd yn 2024 wedi rhoi cyfle i ddechrau datblygu a gwreiddio dull y strategaeth fel rhan o newidiadau ehangach yn yr ysgol. Dechreuodd y gwaith yn Ysgol Uwchradd A yn ddiweddarach, gan fanteisio hefyd ar gyfle pennaeth newydd, a chan anelu at adeiladu ar waith sefydledig o ymgysylltu â theuluoedd o fewn ysgolion cynradd y clwstwr i fynd i'r afael â heriau ar y lefel uwchradd.

Datblygodd y tîm ysgolion bro strategaeth fanwl yn 2024, gan ei rhannu'n ddau glwstwr, pob un â'i ddangosyddion perfformiad allweddol a'i gynllun gweithredu ei hun. Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn canolbwyntio ar dri phrif faes, sef cefnogi disgyblion, cefnogi teuluoedd, a gwaith cymunedol. Mae'r dull gweithredu wedi'i ategu gan strwythurau rheoli cadarn, gan gynnwys goruchwyliaeth reolaidd, cyfarfodydd tîm, a chyfarfodydd ehangach rhwng timau'r awdurdod lleol.

Mae'r ddwy ysgol yn gwasanaethu gwahanol gymunedau ac yn wynebu heriau a chyfleoedd penodol, a gall llwyddiant cymharol gwahanol elfennau o'r strategaeth ysgolion bro ym mhob lleoliad daflu goleuni ar sut y gellir teilwra dulliau'r strategaeth yn dibynnu ar gyd-destunau. Yng Nghlywedog, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr ac ymgysylltu â'r gymuned fel llwybr i ymgysylltu â theuluoedd, tra bo ymdrechion ymgysylltu â theuluoedd wedi bod yn gryfach yn Ysgol Uwchradd A, wedi'u galluogi gan gymuned glos a gwaith ymgysylltu parhaus mewn ysgolion cynradd yn y clwstwr.

*Cyflwyno’r strategaeth ysgolion bro*

Mae’r strategaeth ysgolion bro yn Wrecsam yn rhan o ffrwd Atal a Chymorth adran addysg yr awdurdod lleol, gan gydweithio'n agos â'r ddwy ffrwd arall, sef ADY a Chynhwysiant a Gwella Ysgolion. Ystyriwyd bod Atal a Chymorth yn cyd-fynd orau â'r dull gwaith ieuenctid yr oedd y tîm yn bwriadu ei fabwysiadu. Mae cyllid ysgolion bro yn cael ei gadw a'i ddyrannu gan yr adran addysg, yn hytrach na'i ddosbarthu i ysgolion. Y sail resymegol dros y dull hwn oedd y byddai hyn yn haws ei olrhain a'i fonitro, ac er mwyn sicrhau bod y cyllid wedi'i dargedu yn unol ag egwyddorion y strategaeth. Mae chwe swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol, gyda dau wedi'u lleoli ym mhob un o'r ysgolion uwchradd ac yn cefnogi'r clystyrau. Yn fwy diweddar, mae dau swyddog arall wedi cael eu cyflogi, un yn canolbwyntio ar ddysgu oedolion a theuluoedd ac un yn canolbwyntio ar ddysgwyr mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Ar y cyfan, roedd y rheini a gymerodd ran o'r farn bod y dull ariannu wedi gweithio'n dda. Dywedodd y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ei bod yn fuddiol eu bod yn cael eu ystyried yn annibynnol ar yr ysgolion, oherwydd bod hyn yn goresgyn canfyddiadau negyddol a allai fod gan rai rhieni/gofalwyr a dysgwyr ynghylch ymgysylltu ag ysgolion. Budd pwysig arall oedd bod gan y tîm ysgolion bro bersbectif ehangach ar anghenion y gymuned o'i gymharu ag ysgolion unigol, gan alluogi targedu mwy effeithiol.

> “Mae’r [rheolwr ysgolion bro] mewn ysgolion eraill ac mae hi'n gweld y tebygrwydd rhwng yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned a'r hyn sydd ei angen ar y gymuned. Dydw i ddim yn meddwl y gall ysgol wneud hynny, oherwydd does gennym ni ddim y bobl drwy'r amser i fynd allan i'r gymuned honno yn yr un ffordd.” (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Yn Ysgol Uwchradd A, mae gweithgareddau ymgysylltu â rhieni wedi cynnwys boreau coffi bob pythefnos, sesiynau dysgu i oedolion, a chydweithio â'r Little Learning Company i gyflwyno sesiynau crefft. Mae cyfeirio at wahanol wasanaethau ac asiantaethau hefyd wedi bod yn un o’r pethau y canolbwyntir arno, yn ogystal â dilyniant gyda rhieni/gofalwyr a atgyfeiriwyd i olrhain eu cynnydd. Adroddwyd bod nifer o bobl wedi mynd i sesiynau ymgysylltu â rhieni a'u bod wedi cael eu derbyn yn gadarnhaol, gyda'r niferoedd yn cynyddu dros amser a buddion ychwanegol yn datblygu, fel grwpiau WhatsApp rhieni.

Yng Nghlywedog, mae'r tîm ysgolion bro yn cael atgyfeiriadau o bobl ifanc y mae angen cymorth arnynt gan yr ysgol, ac yna'n eu ‘brysbennu’ yn seiliedig ar anghenion cyffredin. Mae'r tîm yn darparu rhywfaint o gymorth uniongyrchol i bobl ifanc, gan gynnwys ymweliadau â’r cartref ac ymgysylltu un-i-un. Cyfeiriwyd at ystafell y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn Ysgol Clywedog fel ‘man diogel’ lle gallai dysgwyr ddod pe byddent yn cael trafferth drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd hefyd yn cefnogi rhai grwpiau bach o ddysgwyr â chymwysterau Agored o ran llesiant, hyder ac iechyd meddwl. Pan fo’r strategaeth

ysgolion bro yn targedu presenoldeb, mae'n mabwysiadu dull llai cosbedigol yn benodol, gan anelu at ddeall rhwystrau dysgwyr i bresenoldeb a'u cefnogi trwy ddulliau sy'n seiliedig ar gryfderau.

Yn unol â'i ethos gwaith ieuenctid, nod tîm ysgolion bro Wrecsam yw ymgysylltu â phobl ifanc fel cam cyntaf a gwrando ar yr hyn y mae ei angen arnynt, yna chwilio am gyfleoedd priodol i fynd i'r afael â hwy. Nodwyd y gall y dull hwn wrthdaro â hierarchaethau mwy ‘traddodiadol’ llawer o ysgolion, ac, ar adegau, adroddodd y tîm ysgolion bro eu bod yn cael trafferth cyfleu eu hethos. Roedd hyn yn arbennig o wir lle'r oedd pobl ifanc yn cael eu tynnu allan o'r ystafell ddosbarth i fynd i weithgareddau, oherwydd bod staff ac arweinwyr yr ysgol yn pryderu y byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar addysg dysgwyr, tra oedd y tîm ysgolion bro wedi datgan y byddai'n fuddiol.

Mae’r tîm ysgolion bro wedi gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau lleol i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr, ac mae asedau lleol fel Clwb Ieuenctid Vic wedi cael eu defnyddio i gynnal darpariaeth. Un fenter a grybwyllwyd yn aml oedd gyda chlwb bocsio lleol, lle dewiswyd pobl ifanc i ymuno â dosbarthiadau bocsio yn seiliedig ar faterion a nodwyd ynghylch presenoldeb, ymddygiad a gorbryder. Myfyriodd y rheini a gymerodd ran, i bobl ifanc a oedd yn cael trafferth yn yr ysgol, fod y dosbarthiadau hyn yn rhoi ymdeimlad o allu a balchder ynddynt eu hunain. Nododd un unigolyn a gymerodd ran, yn ystod y dosbarthiadau bocsio hyn, y gallai rhai pobl ifanc mynegi a chyfleu teimladau nad oeddent wedi teimlo'n ddiogel i'w mynegi o'r blaen.

Ymhlith y partneriaid cymunedol eraill y mae Academi Gerddoriaeth RockWorks. Rhoddwyd enghraifft o unigolyn ifanc a oedd yn cael trafferth gyda'r newid i'r ysgol uwchradd a gafodd fynediad at wersi cerddoriaeth a drefnwyd gan swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Arweiniodd hyn at yr unigolyn ifanc yn perfformio’n fyw mewn gŵyl gerddoriaeth leol, gan awgrymu ei fod yn fwy hyderus yn ogystal â dysgu sgìl newydd a allai fod yn sgìl gydol oes.

Tynnwyd sylw at Bwyd a Hwyl hefyd fel menter bwysig. Yn ogystal â'i buddion ymarferol o ran cynnig cymorth a hamdden dros yr haf, fe nododd y rheini a gymerodd ran ei bod yn galluogi cysylltiadau ac atgyfeiriadau newydd i rai teuluoedd a phobl ifanc nad oeddent wedi ymgysylltu o'r blaen. Mae ysgol goedwig hefyd wedi'i chyflwyno, a nodwyd ei bod yn effeithiol wrth gefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth. Mae’r tîm ysgolion bro wedi gweithio gyda Groundwork Gogledd Cymru i gyflwyno dosbarthiadau dysgu oedolion ar gyfer rhieni/gofalwyr, er bod y nifer sy'n mynychu wedi bod yn gyfyngedig yn Ysgol Clywedog.

Mae’r strategaeth ysgolion bro hefyd wedi cyfrannu at ymdrechion cydlyniant cymunedol. Llwyddodd y rheolwr ysgolion bro i ddod ag amrywiaeth o randdeiliaid cymunedol ynghyd, gan gynnwys Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, yn dilyn rhai materion a godwyd ynghylch hiliaeth o fewn Ysgol Clywedog. Mae cyllid ysgolion bro hefyd wedi cyfrannu at sefydlu ystafell weddïo aml-ffydd yn yr ysgol.

Mae cyllid cyfalaf wedi'i sicrhau ar gyfer adeilad allanol ar safle'r ysgol, sydd wedi'i fwriadu i gynnal cyfleoedd dysgu, gan gynnwys cwrs barista i rieni/gofalwyr a dysgwyr. Bu pwyslais hefyd ar ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol er budd y gymuned, gyda chyfranogwyr yn teimlo nad oedd y rhain wedi cael eu defnyddio digon yn y gorffennol. Defnyddiwyd cyllid cyfalaf ysgolion bro hefyd i wella cyfleusterau ysgolion, gan gynnwys ystafelloedd newid yn y cyfleusterau chwaraeon ac ystafelloedd dosbarth allanol a ddefnyddir ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth gyda'r ysgol brif ffrwd.

*Galluogwyr a rhwystrau i weithredu*

Nododd y cyfranogwyr fod diffyg dangosyddion perfformiad allweddol i ddechrau wedi caniatáu hyblygrwydd a chreadigrwydd, ond wrth i anghenion a blaenoriaethau ddod yn gliriach, roedd cynlluniau gweithredu strwythuredig wedi sicrhau cysondeb a thargedu. Roedd angen cydbwysedd parhaus rhwng osgoi gorlwytho staff a sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu monitro a'u holrhain yn effeithiol.

Ar y lefel strategol, mae'r gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol cryf, lle mae rhannu adnoddau a gwybodaeth yn ganolog. Disgrifiodd un cyfranogwr y dull fel "siarad yn gyson". Rhagwelwyd y byddai'r strategaeth ysgolion bro yn rhan ganolog o ymdrechion ehangach i symud tuag at ddull mwy cyfannol a chydweithredol o ddarparu gwasanaethau ar draws yr awdurdod lleol.

> "Bydd pobl yn herio, byddant yn dweud mewn gwirionedd na ddylech chi fod yn gwneud hynny, dyna waith [yr ysgolion]. [...] un peth dydyn ni, dydyn ni ddim yn fregus. Mae unrhyw beth sydd gennym ni yn eiddo i bawb." (Cynrychiolydd o'r awdurdod lleol)

Ystyriwyd bod y dull gwaith ieuenctid yn werthfawr yng nghyd-destun Clywedog, lle adroddwyd bod gan lawer o rieni/gofalwyr a theuluoedd gydberthnasau negyddol â'r ysgol a'r gwasanaethau statudol. Trwy weithio gyda dysgwyr i ddechrau a rhoi profiadau cadarnhaol iddynt y gallent eu rhannu gartref, tybiwyd y gallai hyn agor y drws i newid canfyddiadau rhieni.

> "Mae'n rhaid i chi ddechrau yn rhywle, ac ni allwch fynd i mewn i lawer o'r cartrefi'r unigolion hyn a chael canlyniad cadarnhaol oherwydd mae llawer o bobl yn gweld gwasanaethau fel rhai eithaf negyddol […] Felly, os gallwch chi ddod i mewn i'r ysgolion a dangos i'r plant nad yw [gwasanaethau] yn bobl gas, nid ydyn nhw yma i'ch beirniadu, maen nhw yma i helpu." (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Ystyriwyd hefyd fod ethos gwaith ieuenctid yn bwysig i gefnogi llesiant a datblygiad pobl ifanc a oedd yn cael trafferth gyda phroblemau ynghylch presenoldeb ac ymddygiad, yn unol â'r dull llai cosbedigol a grybwyllwyd yn flaenorol.

> "Dydych chi ddim bob amser yn clywed stori'r unigolyn ifanc. Mae'n cael ei gysgodi gan rieni'n siarad, oedolion yn cael sgyrsiau. Felly rwy'n meddwl

> mai ffordd [y rheolwr ysgolion bro] o wneud hyn wrth ddod i mewn yw ei bod hi'n cael y sgyrsiau oedolion hynny, wyddoch chi, ond mae hi hefyd yn ymwybodol iawn bod gan yr unigolyn lais hefyd.” (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Yn Ysgol Uwchradd A, nodwyd bod strwythurau ymgysylltu â theuluoedd sy'n bodoli eisoes ar y lefel gynradd yn alluogwr pwysig wrth ddarparu cyfleoedd i swyddogion ymgysylltu â theuluoedd adeiladu ar gydberthnasau sy’n bodoli eisoes ac annog rhieni/gofalwyr i barhau i ymgysylltu yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd, yn hytrach na dechrau o'r dechrau. Galluogwyd yr ymdrechion ymgysylltu hyn ymhellach gan y gymuned fach, glos ym mhentref yr ysgol, lle'r oedd llawer o rieni/gofalwyr yn adnabod ei gilydd ac yn fwy agored i ymuno â digwyddiadau a mentrau cymunedol.

Mewn cyferbyniad, cafodd heriau ymgysylltu Ysgol Clywedog eu gwaethygu gan ei lleoliad daearyddol. Mae wedi'i lleoli wrth ymyl prif ffordd, ac nid o fewn ardal breswyl. Mae gobaith y gallai’r strategaeth ysgolion bro alluogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion i ddigwydd mewn mannau cymunedol mwy canolog, er mwyn lliniaru'r her hon yn y dyfodol.

Myfyriodd rhai cyfranogwyr ar y rhesymau pam roedd ymgysylltu â rhieni yn fwy heriol ar y lefel uwchradd yn gyffredinol. Nodwyd bod rhieni/gofalwyr yn tueddu i ystyried eu plant yn fwy annibynnol ar y lefel uwchradd, gan ystyried bod llai o angen ymgysylltu. Yn yr un modd, efallai y bydd dysgwyr sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd am gofleidio eu hannibyniaeth a pheidio â bod eisiau i'w rhieni/gofalwyr fynd i ddigwyddiadau a rhyngweithio ag athrawon.

Nid oedd yn hawdd cael ymrwymiad i’r strategaeth mewn cyd-destun lle mae ysgol yn wynebu heriau dwfn a brys. Yn enwedig ar y dechrau, adroddodd y rheini a gymerodd ran am anawsterau wrth argyhoeddi arweinwyr ysgolion i flaenoriaethu rhywbeth a ystyrid yn fenter ychwanegol allanol, pan oeddent yn wynebu argyfyngau o ddydd i ddydd heb ddigon o adnoddau. Tynnwyd sylw at broblemau gyda rhannu gwybodaeth gan ysgolion, a oedd yn ei gwneud yn heriol cynllunio a datblygu'r cynnig ysgolion bro ar y dechrau. Nodwyd rhai heriau parhaus, megis y ffaith bod staff y strategaeth weithiau ddim yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau lle gallent fod wedi hyrwyddo eu cynnig. O ystyried y pwyslais ar lesiant dysgwyr yn Ysgol Clywedog, mae’r tîm ysgolion bro weithiau wedi gorfod gwrthsefyll cael ei ystyried yn wasanaeth ymddygiad neu bresenoldeb. Nodwyd heriau cynnar wrth egluro rolau'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i staff ehangach yr ysgol, nad oeddent yn deall pam nad oeddent yn ysgwyddo cyfrifoldebau fel monitro'r neuadd.

Priodolwyd y problemau hyn i'r angen i feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth, ac i staff ac arweinwyr yr ysgol gydnabod ac ymrwymo’n llawn i'r hyn y gallai'r tîm ysgolion bro ei gynnig. Elfen o hyn oedd yr angen i newid diwylliant ac agweddau, a dod o hyd i ffyrdd o alinio’r strategaeth ysgolion bro â strwythurau ysgolion mewn ffyrdd sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Yn Ysgol Clywedog, sefydlodd y rheolwr ysgolion bro gyfarfodydd rheolaidd â'r pennaeth i ddatblygu cynllun ar y cyd ar gyfer ysgolion bro a

sut mae'n ffitio o fewn yr ysgol. Adroddwyd bod y cyfarfodydd hyn yn anffurfiol ac yn cael eu nodweddu gan agwedd agored, gonestrwydd, a pharch at ei gilydd. Dros amser, dechreuodd y dull hwn chwalu camddealltwriaethau ac oedi cychwynnol, a gallai'r tîm ysgolion bro deilwra ei ddull yn effeithiol i ddiwallu anghenion yr ysgol.

> "I mi, y rhwystrau mwyaf o ran y strategaeth ysgolion bro yw'r ffensys o amgylch yr ysgolion, ond rydyn ni'n deall pam eu bod nhw yno. Rwy'n defnyddio'r [trosiad] hwnnw oherwydd bod y rhwystrau i ysgolion bro yn ddwyffordd. Mae gennym ni'r anawsterau, y rhwystrau, yr heriau rydyn ni'n eu hwynebu o fewn strwythurau'r ysgol, oherwydd rydyn ni'n anghytuno â strwythur yr ysgol mewn llawer o ffyrdd, ond rydyn ni'n ei ategu mewn llawer o ffyrdd ac maen nhw'n ein hategu ni, ac rydyn ni'n cefnogi ein gilydd, felly rydyn ni wedi mynd trwy daith go iawn yno." (Cynrychiolydd o'r awdurdod lleol)

Yn ganolog i oresgyn heriau o'r fath oedd neilltuo amser a sicrhau bod angen cyfathrebu clir i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r strategaeth ysgolion bro a'i rhoi ar waith ledled ysgolion a chymunedau. Awgrymodd rhai o'r unigolion a gymerodd ran y gallai ymgorffori ymagwedd fwy strwythuredig tuag at y strategaeth ysgolion bro ei gwneud yn haws i randdeiliaid ddeall pethau fel, er enghraifft, gweithredu cylch gorchwyl, datblygu a dosbarthu deunyddiau ar-lein, a chynnal cyfarfodydd rheolaidd sy'n cael cyhoeddusrwydd da.

*Canlyniadau*

Mae'r strategaeth ysgolion bro yn ei dyddiau cynnar yn Wrecsam o hyd, ond mae dull cydweithredol a pharchus rhwng y tîm ysgolion bro ac arweinwyr ysgolion yn dechrau agor y drws i ffyrdd newydd o feddwl a chanlyniadau cychwynnol. Yn Ysgol Uwchradd A, adroddwyd bod ymgysylltu â rhieni yn arwain at fod yn fwy onest a pharod i ofyn am gymorth a systemau cymorth gwell yn gyffredinol, gan leihau straen ar rieni. Galluogwyd hyn gan hyblygrwydd swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i gefnogi unigolion mewn ffyrdd wedi'u teilwra ynghyd â'u gallu i feithrin cydberthnasau ymddiriedus.

Mae angen mwy o waith i gynnwys pob aelod o staff a'r timau arwain a gwneud defnydd llawn o'r cynnig ysgolion bro, ond roedd rhanddeiliaid mewn ysgolion a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn ystyried bod y strategaeth ysgolion bro yn ganolog i daith Ysgol Clywedog allan o fesurau arbennig. Adroddwyd ei fod wedi eu galluogi i ddysgu o ysgolion eraill, wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio gyda dysgwyr a theuluoedd, ac wedi hwyluso cysylltiadau â grwpiau cymunedol.

> "Mae'r [tîm ysgolion bro] yn fendith, yn y bôn. Felly, po fwyaf y gallwn ni eu defnyddio – [ar hyn o bryd] dydyn ni ddim yn eu defnyddio ar gyfer popeth sydd ganddyn nhw. Ond hebddyn nhw, rwy'n meddwl y byddem ni ar goll." (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Adroddwyd rhywfaint o dystiolaeth gychwynnol o bresenoldeb ac ymddygiad cynyddol yn Ysgol Clywedog, maes targed pwysig ar gyfer gwella'r ddwy ysgol. Priodolwyd hyn i'r dull llai cosbedigol a mwy cyfannol o gefnogi dysgwyr, yn ogystal â chynnydd yn y gallu i nodi a thargedu'r rheini oedd yn ei chael yn anodd. Yn ogystal â bod yn bwysig ynddo'i hun, fe welwyd presenoldeb cynyddol fel dangosydd o ganlyniadau ehangach, anoddach eu mesur fel ymddiriedaeth rhieni a chanfyddiadau gwell o'r ysgol.

> "Rydym yn dechrau gweld [presenoldeb cynyddol], ond mae hynny eto oherwydd y cyfathrebu hwnnw, y gallu i siarad â'r rhieni hynny. Oherwydd, wyddoch chi, fe gafodd llawer ohonyn nhw eu ceryddu eu hunain fel plant neu eu trin mewn ffordd benodol, ac nid yw'r syniad o ddod i'r ysgol ac eistedd yn swyddfa'r pennaeth i siarad yn rhesymol am eu plentyn eu hunain i gefnogi presenoldeb yn mynd i weithio." (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Myfyriodd nifer o randdeiliad ysgol fod y strategaeth yn cynrychioli ffordd wahanol o feddwl am ysgol, a allai ddechrau newid diwylliannau sydd wedi eu hen sefydlu nad oeddent wedi gwasanaethu'r ysgol yn dda yn y gorffennol. Roedd rhai yn ystyried bod ymgorffori'r strategaeth fel polisi ysgol a sicrhau bod y tîm yn amlwg ac yn rhagweithiol yn yr ysgol yn ffactor pwysig wrth ddylanwadu ar athrawon mwy 'traddodiadol' nad oeddent mor agored i ddulliau cyfannol.

> "Mae'r strategaeth [ysgolion bro] yn dangos i rai o'r athrawon hynny fod ffyrdd eraill o fynd i'r afael â diffyg cymhelliant rhywun, neu anhawster rhywun i herio ei hun, neu farn negyddol rhywun ar rywbeth. Wyddoch chi, maen nhw wedi rhoi rhwystrau yn eu lle, ac mae yna ffyrdd eraill y gallwch chi gael gwared ar y rhwystr." (Rhanddeiliaid mewn ysgolion)

Adroddwyd bod y strategaeth yn gwella natur gyfannol y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, mewn cyd-destun lle'r oedd adnoddau'n brin i allu rhoi cymorth amserol a hirdymor. Gallai cysylltiadau â phartneriaid cymunedol megis clybiau bocsio alluogi pobl ifanc i gael eu 'dal' wrth iddynt aros i gael cwnsela neu gymorth iechyd meddwl arall ac ar ôl iddynt orffen y sesiynau a neilltuwyd iddynt. Roedd y rheini a gymerodd ran o'r farn bod hyn yn gwella ymdeimlad o ymddiriedaeth dysgwyr yn system gymorth yr ysgol, a gobeithiwyd y byddai hyn yn cael effeithiau canlyniadol ar eu hymgysylltiad cyffredinol â'r ysgol.

Yn gysylltiedig, dywedwyd bod y strategaeth yn creu cysylltiadau â dysgwyr a theuluoedd nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, oherwydd gallai swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rheolwyr ysgolion bro weithredu'n annibynnol, gan oresgyn canfyddiadau negyddol ynghylch ymgysylltu â'r ysgol neu wasanaethau statudol.

> "Byddai'r [strategaeth] yn ein helpu gyda'r plant anoddaf eu cyrraedd. Ac rwy'n credu oherwydd ei bod yn lefel wahanol o ymgysylltu. Wyddoch chi, efallai fod gan bobl ganfyddiadau am yr ysgol, ond pan ddaw rhywun o'r tu allan ac yna'n dechrau siarad â hwy mewn gwahanol ffyrdd, a siarad â hwy

> am sut y gallant helpu mewn gwirionedd, a sut y bydd o fudd iddyn nhw, a sut y bydd o fudd i'r teulu hefyd – rwy'n credu eu bod nhw'n darparu ffordd wahanol o'i gyfleu i bobl.” (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Ystyriwyd hefyd fod gan bartneriaethau cymunedol a sefydlwyd gan y strategaeth effeithiau pwysig wrth gynnig cyfleoedd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr na fyddai ganddynt fynediad fel arall at bethau a allai gael effeithiau pwysig ar eu hiechyd a'u llesiant, fel dosbarthiadau chwaraeon a gweithgareddau cyfoethogi. Roedd ymdeimlad cyffredinol bod y strategaeth yn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth nad oedd gan ysgolion yr adnoddau na'r strwythurau i'w darparu.

> “Rwy’n credu ei bod yn rhoi cyfleoedd i’r disgyblion na fyddent wedi’u cael fel arall efallai. Mae'n rhoi gwasanaeth cymorth ychwanegol iddyn nhw yn yr ysgol i helpu gyda'u haddysg. Mae'n rhoi cysylltiad i'r teuluoedd â'r ysgol na fyddent wedi'i gael o'r blaen a bod yr unigolyn hwnnw a all fynd i gyfarfod â'r teuluoedd hyn a'r ysgol i fod yno fel cymorth iddyn nhw na fyddent wedi'i gael o'r blaen chwaith. Ac mae’r ffaith bod ganddyn nhw’r unigolyn cyson hwnnw yn eu bywydau, mae hynny'n gwneud gwahaniaeth iddyn nhw, ac yn helpu addysg y disgyblion ac yn cefnogi llesiant y teulu cyfan.” (Swyddog ymgysylltu â theuluoedd)

Roedd rhai o’r unigolion a gymerodd ran o'r farn bod y dull ysgolion bro yn arwain at gysylltiad ac ymwybyddiaeth well rhwng gwasanaethau ac asiantaethau, a allai ymhen amser arwain at strwythurau gwell ar gyfer gweithio amlasiantaeth.

> “Rwy’n sicr yn credu ei bod wedi agor llawer o’r asiantaethau rydych chi’n clywed amdanyn nhw ac sy’n cael eu rhoi i chi bob amser gyda rhif ffôn. Mae gennych chi gyfle nawr i'w gweld nhw wyneb yn wyneb.” (Rhanddeiliad yn yr ysgol)

Roedd rhai o’r unigolion a gymerodd ran o'r farn bod y cysylltiad lefel uwch hwn wedi'i ddatblygu llai ar y cam hwn, ac roeddent yn gobeithio am gynnig cliriach a mwy strwythuredig yn y dyfodol.

#### 3.3.5.4. Gwersi

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos gwerth y strategaeth ysgolion bro mewn lleoliadau lle mae ysgolion yn wynebu heriau dwys sydd wedi’u hen sefydlu. Yn hytrach na chreu gwaith ychwanegol a thynnu sylw ysgolion oddi wrth fynd i'r afael ag anghenion hollbwysig, fe adroddodd y rheini a gymerodd ran fod y dull ysgolion bro wedi lleihau'r baich ar ysgolion ac wedi darparu cymorth angenrheidiol iawn i ddysgwyr a theuluoedd. Credwyd bod y cymorth hwn yn cyfrannu at fynd i'r afael â phroblemau hirhoedlog o ran presenoldeb ac ymddygiad yr oedd yr ysgol yn ei chael yn anodd mynd i'r afael â hwy ar ei phen ei hun. Yn ganolog i'r llwyddiannau hyn oedd dull araf, parchus i'r ddwy ochr, o feithrin ymddiriedaeth a nodau cyffredin rhwng y tîm ysgolion bro ac arweinyddiaeth yr ysgol. Bydd y gwaith o ddatblygu ymhellach gynnig

a strwythur clir ar gyfer y strategaeth yn parhau i wella ymgysylltiad â’r gymuned ac ymgysylltiad â phartneriaid amlasiantaeth. Yn ogystal, mae'r gwaith yn Wrecsam yn tynnu sylw at werth dull gwaith ieuenctid, yn enwedig mewn cyd-destunau ysgolion uwchradd lle gall pobl ifanc agor y drws i ymgysylltu ehangach â theuluoedd.

Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng heriau Clywedog a llwyddiannau Ysgol Uwchradd A o ran ymgysylltu â rhieni/gofalwyr hefyd yn tynnu sylw at rwystrau ymarferol pwysig o ran gweithredu’r strategaeth ysgolion bro. Ar lefel sylfaenol, mae'n anoddach defnyddio ysgol fel ased cymunedol a meithrin cydberthnasau â theuluoedd pan nad yw'r ysgol yn hygyrch yn ddaearyddol. Mae cymunedau bach, clos sydd â chydberthnasau sy'n bodoli eisoes yn tueddu i fod yn fwy parod i ymgysylltu'n naturiol (er bod ymgysylltu effeithiol, gan gynnwys teilwra a chyfathrebu rhagweithiol, yn parhau i fod yn hanfodol). Nid oes datrysiad syml i hyn, ond mae rhai arwyddion cychwynnol y gallai addasu dulliau helpu, fel gweithio gyda phobl ifanc yn gyntaf fel cysylltiadau â'u teuluoedd a defnyddio mannau cymunedol mwy hygyrch ar gyfer ymgysylltu.

## 3.4. Crynodeb a thriongliant o’r canfyddiadau

Roedd canfyddiadau ar draws arolygon, cyfweliadau ac astudiaethau achos yn gyson iawn ar elfennau allweddol gweithredu’r strategaeth ysgolion bro. Daeth amrywiaeth o themâu i’r amlwg dro ar ôl tro, yn enwedig mewn perthynas â rolau allweddol, cydweithio a chyllid. Roedd enghreifftiau o arfer da yn pwysleisio’n gyson rôl ymddiriedaeth, gwybodaeth leol, ac ymarfer perthynol wrth ymgysylltu â theuluoedd a dysgwyr. Yn gysylltiedig, ar draws pob ffynhonnell, daeth presenoldeb swyddog ymgysylltu â theuluoedd ymroddedig a medrus i'r amlwg fel un o alluogwyr mwyaf pwerus y strategaeth, gydag ysgolion yn gyson yn priodoli eu gallu i ymgysylltu â theuluoedd, cydlynu partneriaethau a chyflwyno gweithgareddau i ansawdd a sefydlogrwydd y rôl hon. Nododd y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd eu hunain ffactorau pwysig i hwyluso eu rôl ymhellach, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi, contractau tymor hwy a mwy cyson, datblygiad proffesiynol, a rhwydweithio.

Daeth ansicrwydd o ran cyllido i'r amlwg fel pryder cyffredinol. Ar draws yr astudiaethau achos a'r cyfweliadau, fe wnaeth cylchoedd ariannu tymor byr a chynlluniau hirdymor aneglur greu gorbryder ynghylch diogelwch swyddi a chyfyngu ar allu rhanddeiliaid i gynllunio mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd yn agos ag ymatebion i’r arolwg ysgolion byr, sy'n nodi diffyg adnoddau fel y rhwystr mwyaf cyffredin i weithredu'n llawn.

Roedd cytundeb cryf hefyd ar draws ffynonellau data bod diffyg canllawiau cychwynnol wedi arwain at rywfaint o ddryswch ac anghysondeb. Fodd bynnag, tynnodd astudiaethau achos sylw at ba mor bwysig yw hyblygrwydd a dulliau wedi'u teilwra'n lleol, gan ddangos bod angen dod o hyd i gydbwysedd rhwng cysondeb ac addasu. Cafodd amrywiad ei lunio'n gryf gan strwythurau a hanes awdurdodau lleol. Cynhyrchodd buddsoddiad hirdymor Castell-nedd Port Talbot mewn ymgysylltu â

theuluoedd fodel cydlynol, wedi'i oruchwylio'n dda â disgwyliadau clir, tra oedd dulliau Caerdydd a Wrecsam yn fwy datblygol a hyblyg ac wedi'u llunio gan arweinyddiaeth unigolion. Mabwysiadodd ardaloedd gwledig neu denau eu poblogaeth megis Gwynedd a Sir Benfro y strategaeth ysgolion bro mewn ffyrdd a oedd yn dibynnu'n fwy ar gydberthnasau lleol dwfn a chymorth wedi'i dargedu yn hytrach na rhwydweithiau cymunedol ar raddfa fawr. Roedd gwahaniaethau hefyd yn amlwg rhwng y gwahanol fathau o ysgolion a chamau. Awgrymodd arolygon ac astudiaethau achos fod ysgolion cynradd fel arfer yn ei chael yn haws ymgysylltu â theuluoedd, tra oedd ysgolion uwchradd ac ysgolion nad ydynt yn brif ffrwd (e.e. Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig) yn wynebu rhwystrau mwy.

Roedd gwahanol elfennau gwerthuso hefyd yn darparu dyfnder a chyd-destun i ganfyddiadau gan eraill. Er enghraifft, roedd data o'r arolwg byr o ysgolion yn cofnodi canfyddiadau pwysig yn uniongyrchol o ysgolion nad oeddent yn gweithredu'r strategaeth, y gellid adrodd amdanynt yn anecdotaidd yn unig gan y rheini a gymerodd ran mewn cyfweliadau neu astudiaethau achos. Dangosodd yr ymatebion hyn, er bod ysgolion bron yn unfrydol yn ystyried ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn ganolog i'w gwaith, fod llawer hefyd yn nodi rhesymau cryf dros beidio â gweithredu'r strategaeth. Ymhlith y rhain oedd diffyg adnoddau, teimlo bod gormod yn cael ei ofyn ganddynt, a pheidio â chael digon o wybodaeth am beth yw'r strategaeth. Mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu profiadau rheolwyr ysgolion bro o heriau wrth ymgysylltu ag ysgolion penodol, tra hefyd yn darparu cyd-destun pellach ynghylch pam y gallai'r ysgolion hyn beidio ymateb. Yn syml, y tu hwnt i hynny, nid ydynt yn gweld gwerth y strategaeth. Yn ogystal, fe ddarparodd astudiaethau achos 'wrth-ddadleuon' i bryderon rhai ysgolion y byddai gweithredu'r strategaeth yn creu straen ychwanegol ar adnoddau cyfyngedig. Yn Wrecsam, er enghraifft, yn ôl y sôn, fe arweiniodd cydweithio agos rhwng y rheolwr ysgolion bro a phennaeth at lai o faich ar ysgol a oedd yn profi heriau sylweddol.

Mae'n nodedig, er bod data arolygon yn dangos mwy o gydweithio rhwng llawer o randdeiliaid a grwpiau allweddol, mai prin oedd yr adroddiadau gan ysgolion neu awdurdodau lleol o weithio gyda phartneriaid am y tro cyntaf. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau o gyfweliadau ac astudiaethau achos y gall y strategaeth fod yn arbennig o effeithiol wrth adeiladu ar strwythurau a chydberthnasau sy'n bodoli eisoes, a gall fod yn fwy heriol lle nad yw'r rhain ar waith i ddechrau.

Roedd canfyddiadau ar draws elfennau'r gwerthusiad hefyd yn cynnwys rhai anghysondebau sy'n tynnu sylw at wahaniaethau mewn cyd-destunau, camau gweithredu, a chanfyddiadau. Maes allweddol o wahaniaeth yw dealltwriaeth ysgolion ac awdurdodau lleol o'r strategaeth. Roedd ymatebwyr i'r arolwg ysgolion yn tueddu i nodi lefelau uchel o eglurder ynghylch beth yw'r strategaeth a sut i'w gweithredu, ac roedd dau o bob tri o reolwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ysgolion yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn deall y strategaeth. Fodd bynnag, roedd mwy na hanner y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn peidio â chredu bod yr ysgolion yr oeddent yn

gweithio gyda nhw yn deall y strategaeth. Mae'r anghysondeb hwn yn awgrymu nad yw dealltwriaeth o’r strategaeth yn gyson ar draws rolau staff neu gyd-destunau ysgolion, ac y gallai ymarferwyr rheng flaen fod yn wynebu ansicrwydd ymarferol neu gamdybiaethau sy'n llai gweladwy ar y lefel strategol. Ychwanegodd cyfweliadau ac astudiaethau achos ddyfnder pellach, oherwydd bod y rheini a gymerodd ran yn aml yn pwysleisio dryswch ar y cychwyn, canllawiau cyfyngedig ar y dechrau, a phroses raddol o fireinio'r dull dros amser.

Yn olaf, er bod arolygon yn awgrymu canlyniadau cynnar cryf ar draws ymgysylltu, llesiant, a gweithio mewn partneriaeth, roedd yr astudiaethau achos yn peintio darlun mwy gofalus ac amrywiol. Dywedodd llawer o gyfranogwyr ei bod yn rhy gynnar i briodoli newid mesuradwy i’r strategaeth, gan bwysleisio bod gwelliannau'n aml yn gynnil, yn berthynol, ac yn cael eu datblygu’n araf. Er bod rhai lleoliadau wedi nodi tystiolaeth gynnar o ganlyniadau fel presenoldeb neu hyder gwell ymhlith dysgwyr, fe bwysleisiodd eraill y byddai canlyniadau'n cymryd amser i ddod i'r amlwg ac yn dibynnu ar staffio cynaliadwy, cyllid sefydlog, a chydberthnasau hirdymor. Datgelodd astudiaethau achos rai canlyniadau annisgwyl hefyd. Er enghraifft, adroddwyd bod gweithredu’r strategaeth yng Nghymuned Ddysgu Sir Benfro wedi arwain at leihau stigma a gwella'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach.

# 4. Prif ganfyddiadau a chasgliadau

Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau uchod, gan fynd i'r afael ag amcanion allweddol y gwerthusiad o ran deall dosbarthiad cyllid, ffyddlondeb y broses o weithredu, galluogwyr a rhwystrau, a chanlyniadau sy'n dod i'r amlwg.

## 4.1. Dosbarthu cyllid ysgolion bro

Ar draws yr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y gwerthusiad, drwy arolygon a gwaith ansoddol, roedd yn ymddangos bod dulliau ariannu'n perthyn, yn fras, i'r strwythurau canlynol:

- cedwir yr holl gyllid ysgolion bro o fewn yr awdurdod lleol, a'r awdurdod lleol sy'n gwneud yr holl benderfyniadau mewn perthynas â'i ddyraniad
    - gall y penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar ddata fel y Grant Datblygu Disgyblion, dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a MALIC, yn ogystal â gwybodaeth leol timau
- cedwir cyllid y strategaeth o fewn yr awdurdod lleol, a nhw sy'n gwneud y penderfyniad terfynol mewn perthynas â'i ddyraniad, ond mae gan ysgolion rywfaint o fewnbwn, e.e. trwy wneud cais i gael mynediad at swyddog ymgysylltu â theuluoedd
- mae'r awdurdod lleol yn cadw rhywfaint o gyllid y strategaeth, gan ddefnyddio hwn yn aml i gyflogi personél allweddol megis rheolwr ysgolion bro, ac yn dyrannu'r gweddill yn uniongyrchol i ysgolion i benderfynu'r ffordd orau i'w wario
    - gellir dewis yr ysgolion hyn yn seiliedig ar ddata, neu drwy wneud cais i gael mynediad at y cyllid
- mae'r awdurdod lleol yn dosbarthu'r holl gyllid ysgolion bro i ysgolion iddynt benderfynu ar y ffordd orau i'w wario (ni chrybwyllwyd y dull hwn yn unrhyw un o'r data ansoddol, ond adroddwyd amdano gan rai cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yn yr arolwg)

Ar lefel yr ysgol, roedd yr arian a ddyrannwyd drwy'r strategaeth yn aml yn cael ei 'ychwanegu' ato gan ysgolion drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, neu gyllidebau canolog, er mwyn cyflogi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Mewn sawl ardal, roedd y timau ysgolion bro yn cefnogi ysgolion a phartneriaid i gael mynediad at grantiau ariannu ychwanegol. Mae'n bosibl bod dulliau gwahanol yn bodoli mewn awdurdodau lleol na chymerodd ran yn y gwerthusiad.

Fodd bynnag, nid oedd strwythur dosbarthu'r cyllid bob amser yn gwbl glir. Roedd diffyg eglurder eang ymhlith y rheini a gymerodd ran ym mhob grŵp ynghylch natur, swm a strwythur y cyllid ysgolion bro sydd ar gael. Mae hyn yn cael ei amlygu'n arbennig gan y canfyddiad nad oedd dros hanner y 22 ysgol a ymatebodd i'r arolwg manwl yn ymwybodol bod cyllid cyfalaf ysgolion bro ar gyfer seilwaith yn bodoli. Rhoddwyd gwybodaeth wrthgyferbyniol ynghylch faint o gyllid oedd ar gael ar gyfer

ymgysylltu â theuluoedd, ac yn aml roedd y rheini a gymerodd ran yn cymysgu trafodaethau ar gyllid cyfalaf a chyllid ar gyfer rolau.

Adroddodd rhai o'r unigolion a gymerodd ran, pan oedd awdurdodau lleol yn cadw cyllid ysgolion bro, y gallent fod yn araf i rannu gwybodaeth am amserlenni, symiau, neu'r hyn y gellid defnyddio'r cyllid ar ei gyfer o fewn yr awdurdod lleol. Nid oedd hyn yn berthnasol i'r rheini a gymerodd ran mewn ysgolion yn unig, ond adroddodd rhai rheolwyr ysgolion bro hefyd nad oeddent yn cael gwybodaeth bwysig gan eu hawdurdod lleol. I lawer o randdeiliaid, profwyd hyn fel diffyg tryloywder. Mynegodd rhai o'r unigolion a ymatebodd i'r arolwg byr ar gyfer ysgolion nad oeddent yn gweithredu'r strategaeth eu bod yn teimlo rhwystredigaeth nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar gyllid ysgolion bro, neu, yn wir, nad oeddent wedi clywed amdano o gwbl.

> "Nid oes digon o eglurder ynghylch sut i gael mynediad at y cronfeydd arian o fewn yr awdurdod lleol hwn – nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei rhannu am y mentrau a ariennir gan ysgolion bro na sut i gael mynediad at y cyllid – nid yw'r dyraniad mewn blynyddoedd blaenorol yn ymddangos yn 'deg' / dim eglurder/cyfathrebu – mae angen gwneud mwy i gefnogi POB ysgol i gael mynediad at y cyllid." (Ymatebydd i'r arolwg byr ar gyfer ysgolion)

## 4.2. Ffyddlondeb ac addasiad wrth gyflwyno'r strategaeth ysgolion bro

Dangosodd y gwerthusiad fod y strategaeth yn edrych yn wahanol iawn ledled Cymru, oherwydd bod yr hyblygrwydd hwn a'r teilwra lleol yn ganolog i ddyluniad y strategaeth. Mae cyllid y strategaeth wedi galluogi darparu ystod eang o gymorth, mentrau a gweithgareddau. Isod ceir detholiad dangosol wedi'i gategoreiddio o dan tair ffrwd ysgolion bro (er, yn ymarferol, mae llawer o weithgareddau'n gorgyffwrdd ar draws mwy nag un ffrwd):

- ymgysylltu â theuluoedd: Ymweliadau â chartref gan y swyddog ymgysylltu â theuluoedd a chymorth un-i-un i deuluoedd a dysgwyr; cymorth lles; gweithdai rhieni a boreau coffi; dosbarthiadau dysgu teuluol (e.e. llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol); darpariaeth gwyliau (e.e. Bwyd a Hwyl); cymorth gyda phresenoldeb a phontio; cyrsiau rhianta a sesiynau llesiant; banciau bwyd ysgolion ac ymgyrchoedd cyfnewid gwisg ysgol; blychau gweithgareddau gwyliau a phecynnau adnoddau i'r teulu
- ymgysylltu â'r gymuned: Defnyddio cyfleusterau ysgol ar gyfer digwyddiadau cymunedol; clybiau ar ôl yr ysgol a chlybiau ieuenctid; ffeiriau cymunedol a digwyddiadau codi arian; cyfleoedd dysgu i oedolion mewn partneriaeth â sefydliadau lleol; partneriaethau â sefydliadau gwirfoddol lleol; gweithgareddau

ysgol goedwig a dysgu yn yr awyr agored; gerddi cymunedol a mannau gwyrdd a rennir; ystafelloedd gweddïo aml-ffydd; mentrau cefnogi o ran bwyd a dillad

- ymgysylltu â phartneriaid amlasiantaeth: Cydweithio ag ymwelwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a swyddogion lles addysg; integreiddio â rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf; paneli presenoldeb a chyfarfodydd ymyrraeth gynnar; partneriaethau â gwasanaethau tai a chyflogaeth lleol; cysylltiadau â'r heddlu lleol a thimau cyfiawnder ieuenctid; rhwydweithio a dysgu gan gymheiriaid rhwng ysgolion; ymgysylltu â thimau diogelu a llesiant yr awdurdod lleol.

Mae gweithgareddau ysgolion bro, yn benodol, wedi targedu dysgwyr a theuluoedd sy'n profi rhwystrau i addysg. Roedd pob astudiaeth achos yn ymwneud â lleoliadau â lefelau uwch na'r cyfartaledd o amddifadedd, ac yn dangos ffyrdd y gall cymorth cyfannol ddechrau mynd i'r afael â rhai ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb addysgol. Mae awdurdodau lleol wedi defnyddio setiau data fel MALIC a chymhwysedd i gael prydau bwyd am ddim i benderfynu sut i dargedu adnoddau, tra, ar lefel yr ysgol, defnyddiwyd data ar ddysgwyr a theuluoedd i nodi'r unigolion hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Adroddwyd bod y strategaeth yn darparu cyfleoedd cyfoethogi i ddysgwyr a theuluoedd na fyddent wedi cael mynediad atynt fel arall, megis cyfleusterau BMX a chyrsiau dysgu oedolion achrededig ym Mhartneriaeth Gymunedol Dwyrain Caerdydd (gweler yr astudiaeth achos yn adran 3.3.1). Mae’r strategaeth hefyd wedi cefnogi dysgwyr sy'n profi heriau amrywiol yn llwyddiannus, gyda'r astudiaeth achos yn Sir Benfro yn dangos canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr ag anghenion ymddygiadol, anghenion dysgu ychwanegol, a lefelau uchel o orbryder neu iechyd meddwl gwael.

Yn bwysig, roedd yn ymddangos bod gweithgareddau a ddarparwyd drwy’r strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad. Adroddodd rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos eu bod am fod yn rhan o ddysgu eu plant, cael sianeli cyfathrebu agored gyda'r ysgol, a theimlo eu bod yn cael eu gwrando arnynt a'u cefnogi. Roedd llawer yn gwerthfawrogi’r ffaith bod y staff yn hawdd mynd atynt a’r cydberthnasau dibynadwy, yn enwedig â swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithdai a digwyddiadau anffurfiol lle roeddent yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael eu cefnogi. Cryfhaodd cymorth ymarferol, fel banciau bwyd, ymgyrchoedd cyfnewid gwisg ysgol, a gweithgareddau yn ystod y gwyliau, y cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol hefyd.

Yn ogystal â theilwra'n fwriadol i ddiwallu anghenion lleol, dylanwadwyd ar y gwahaniaethau gan sawl ffactor. Roedd safle’r strategaeth ysgolion bro o fewn yr awdurdod lleol yn effeithio ar y dull gweithredu. Er enghraifft, yn Wrecsam, roedd y strategaeth o fewn Atal a Chymorth yn addas ar gyfer dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar waith ieuenctid, tra yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd y strategaeth o fewn Gwella Ysgolion yn cyd-fynd â'r pwyslais ar roi dulliau sy'n seiliedig

ar dystiolaeth ar waith yng nghlystyrau ysgolion. Yn yr un modd, dylanwadodd cefndir, sgiliau a diddordebau personél allweddol fel y rheolwr ysgolion bro, arweinwyr awdurdodau lleol, a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ar eu dull ar gyfer y strategaeth.

Er enghraifft, mae rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn Ysgol Gynradd Maesincla yng Ngwynedd wedi'i strwythuro fel bod un diwrnod yr wythnos yn cael ei neilltuo i weithio yn y gymuned. Mae'r dull hwn wedi arwain at ymgysylltu cryf rhwng dysgwyr a lleoliadau ar draws canolfannau gofal, siopau llyfrau a hybiau cymunedol. Mae dulliau tebyg wedi'u mabwysiadu mewn ardaloedd eraill, gyda swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn ymgymryd â rolau pwrpasol sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned, dysgu oedolion, ADY, neu feysydd eraill fel y bo'n briodol yn lleol. Cafodd teilwra lleol a dulliau hyblyg eu hamlygu'n aml fel buddion pwysig o’r model ysgolion bro, a rhoddodd cyfranogwyr nifer o enghreifftiau o’r ffyrdd yr oeddent wedi addasu eu gwaith i ddiwallu anghenion unigryw eu cymunedau.

Fodd bynnag, roedd lefel yr amrywiad yn peri mwy o broblemau mewn perthynas â monitro a gwerthuso a gynhaliwyd mewn gwahanol awdurdodau lleol, gyda rheolwyr ysgolion bro ac arweinwyr awdurdodau lleol yn fwy tebygol o flaenoriaethu’r gwaith o weithredu'r systemau hyn os oedd hyn yn rhan o'u cefndir proffesiynol. Yn arbennig, adroddodd 42% o’r awdurdodau lleol (pum awdurdod lleol) yn yr arolwg nad oeddent yn casglu unrhyw ddata monitro a gwerthuso mewn perthynas â’r strategaeth. Er bod addasiadau lleol o ran dull yn briodol (ac mae'n iawn bod gan yr unigolion a gyflogir gefndiroedd sy'n cyd-fynd â'r dull hwnnw), dylai elfennau hanfodol fel monitro a gwerthuso gael rhywfaint o safoni cenedlaethol.

## 4.3. Galluogwyr a rhwystrau i weithredu

Tynnwyd sylw at y ffaith bod cydberthnasau cryf ac ymrwymiad yn hanfodol i alluogi'r newid yn niwylliant y mae ei angen ar gyfer llwyddiant y strategaeth – ond pwysleisiodd cyfranogwyr yn gyson fod hyn yn cymryd amser a chysondeb. Adroddwyd bod y strategaeth yn gwella gwaith ysgolion yn sylweddol lle'r oedd arweinwyr eisoes wedi ymrwymo i ethos o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, gan fod timau ysgolion bro yn lleihau llwyth gwaith staff drwy ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn. Fodd bynnag, parhaodd heriau o ran creu’r ymrwymiad cychwynnol lle nad oedd arweinwyr ysgolion yn gweld gwerth y dull ysgolion bro yn eu lleoliad eu hunain. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion uwchradd, gyda'r her o nifer fwy o staff, gan ei gwneud yn anos i’r strategaeth ddod yn gwbl integredig ledled yr ysgol.

Yn ogystal, daeth gweledigaeth glir ar gyfer y strategaeth, wedi'i chefnogi gan gynllun gweithredu wedi'i egluro'n dda a dulliau strwythuredig o gyflawni, i'r amlwg fel galluogwyr pwysig ar gyfer ymrwymiad a gweithredu effeithiol. Pan oedd disgwyliadau, rolau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir, adroddodd rhanddeiliaid eu bod yn fwy hyderus yn y dull gweithredu a bod ganddynt ymdeimlad cryf o bwrpas cyffredin. Mae hyn yn awgrymu bod eglurder a strwythur nid yn unig yn cefnogi’r broses o weithredu yn

ymarferol, ond eu bod hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau ymgysylltu gan ysgolion a phartneriaid, yn enwedig mewn cyd-destunau sy'n profi pwysau ehangach a blaenoriaethau cystadleuol.

Gall ymrwymiad gael ei beryglu oherwydd bod y strategaeth yn cael ei hystyried yn bolisi tymor byr. Adroddodd rhai rheolwyr ysgolion bro am heriau i gael ysgolion i ymgysylltu, oherwydd mae arweinwyr yn dweud mai 'dim ond peth arall' a fyddai'n mynd heibio yn y pen draw yw'r strategaeth. Cafodd y canfyddiad hwn ei annog gan gyffredinrwydd cylchoedd ariannu tymor byr a chontractau dros dro, yn ogystal â hanes o roi'r gorau i fentrau tebyg (gan gynnwys fersiynau blaenorol o'r strategaeth) cyn y gellid ymsefydlu'r gwaith. Gan gyfeirio at gylch blaenorol o gyllid y strategaeth yn gynnar yn y 2000au, fe bwysleisiodd un cyfranogwr yr angen i lynu wrth bolisi yn yr hirdymor er mwyn gweld effeithiau.

> "Pe baem wedi glynu wrth hyn o ran polisi, o ran cyfeiriad gan Lywodraeth Cymru, pe baem wedi glynu wrth hyn am yr 20 mlynedd diwethaf, byddem mewn lle gwahanol iawn. […] Mae angen buddsoddiad hirdymor. […] Ar hyn o bryd, mae'r cyfan yn meddwl, 'efallai y bydd gennych chi swydd y flwyddyn nesaf, ond efallai na fydd gennych chi un. Efallai y byddwn yn gwneud hyn y flwyddyn nesaf, neu efallai y bydd y canllawiau'n newid.' Rwy'n meddwl bod angen ymrwymiad o ran – dyma'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae hyn yn gweithio, gadewch i ni fuddsoddi ynddo." (Rheolwr ysgolion bro)

Gellid lliniaru'r mater hwn mewn achosion lle'r oedd ymrwymiad strategol clir gan yr awdurdod lleol (fel y gwelwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot), lle mae dulliau ysgolion bro yn cael eu datblygu ar y cyd ag arweinyddiaeth ysgolion ac yn dangos aliniad â blaenoriaethau tymor hwy ysgolion (fel y gwelwyd yn Wrecsam), a lle gallai ysgolion ymrwymo i gynnig clir a chynaliadwy sy'n bodoli eisoes (fel y gwelwyd yng Nghaerdydd). Nodwyd hefyd fod cynnwys egwyddorion ysgolion bro fel rhan o fframweithiau arolygu Estyn yn effeithiol wrth ddangos i ysgolion a chyrff llywodraethu fod y strategaeth 'yma i aros'.

Awgrymodd sawl cyfranogwr fod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ysgolion bro fel polisi â blaenoriaeth, yn hytrach na'r ffaith bod ysgolion a thimau'r strategaeth yn gyfrifol. Awgrymodd rhai y dylai fod mwy o aliniad â meysydd polisi eraill a hyrwyddo fel rhan o ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â sectorau eraill, fel busnes, i ymgorffori'r ethos cyfannol hwn yn llawn ledled cymunedau Cymru.

> "Mae llawer o wybodaeth ar gael i ysgolion am beth yw ysgolion bro, ond a yw'r wybodaeth honno ar gael yr un mor dda i'r partneriaid cymunedol hynny yr ydym yn ceisio ymgysylltu â hwy? A ydyn nhw'n gwybod ei bod yn flaenoriaeth? Oherwydd rydyn ni'n curo ar ddrysau yn dweud, 'Rydyn ni'n ysgolion bro, mae hyn yn wirioneddol bwysig, dyma ganllawiau Llywodraeth Cymru. 'Ac maen nhw'n dweud, dydyn ni ddim wedi clywed am hynny. Ac

rwy'n credu, os yw'n bwysig – ac mae hi'n bwysig – y dylech chi fod yn ei hyrwyddo i bawb." (Rheolwr ysgolion bro)

Tynnodd y gwerthusiad sylw at ymrwymiad ac arbenigedd llawer o unigolion sy'n gyrru'r strategaeth yn ei blaen ar y lefelau lleol ac mewn ysgolion. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod cynnydd mewn rhai meysydd yn dibynnu'n fawr ar nifer fach o weithwyr proffesiynol ymroddedig iawn. Gall y ddibyniaeth hon beri risg i gynaliadwyedd, yn enwedig o ystyried heriau o ran cadw staff a chapasiti, sy'n gysylltiedig â chontractau tymor byr ac ansicrwydd ariannu. Mae gweithredu'r strategaeth yn gynaliadwy yn gofyn am ymgorffori egwyddorion ac arferion y strategaeth ar draws grŵp ehangach o weithwyr proffesiynol a'r gymuned, gan sicrhau cyd-berchnogaeth a chyd-arweinyddiaeth. Ymhlith yr enghreifftiau cadarnhaol o hyn oedd hyfforddiant ar y cyd i lywodraethwyr a ddatblygwyd rhwng awdurdodau lleol cyfagos, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn gweithio ochr yn ochr â staff addysgu i godi eu hyder wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr, ac integreiddio'r strategaeth ysgolion bro yn y cynlluniau datblygu ysgolion.

Mae rolau'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r rheolwr ysgolion bro yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth, a soniodd pob grŵp o gyfranogwyr am sgiliau ac angerdd yr unigolion hyn yn aml. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at amrywioldeb yn y ffordd y cafodd y rolau hyn eu strwythuro a'u cefnogi. Yn benodol, roedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn cael eu hystyried yn eang fel galluogwyr pwysig ar gyfer arfer effeithiol, ond disgrifiwyd y ddarpariaeth fel un anghyson a bylchog ar draws ardaloedd. Pan nad oedd rolau wedi'u lleoli'n eglur, megis swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn gweithredu rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion, neu reolwyr ysgolion bro yn gweithredu â llawer o ymreolaeth, gallai hyn arwain at oruchwyliaeth a chymorth cyfyngedig, gyda goblygiadau ar gyfer datblygiad proffesiynol, llesiant a hyder wrth lywio cyd-destunau diogelu cymhleth. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos rhai swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a oedd yn delio â chyd-destunau heriol o ran amddiffyn plant ac yn gweithio gyda theuluoedd sy'n agored iawn i niwed.

Nodwyd y materion hyn hefyd, yn enwedig mewn perthynas â chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygiad proffesiynol, fel rhwystr i recriwtio a chadw staff. Nodwyd rhai arferion da yn y maes hwn, e.e. yng Nghastell-nedd Port Talbot, fe ddarparwyd goruchwyliaeth gan yr awdurdod lleol i'r swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion, ac mae rheolwyr cymunedau dysgu yn darparu goruchwyliaeth a chymorth i'r tîm o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan yr awdurdod lleol.

Tynnwyd sylw at sawl rhwystr mewn perthynas â heriau hirdymor sydd y tu hwnt i reolaeth timau ysgolion bro. Nodwyd seilwaith (gan gynnwys gofod ffisegol ac ansawdd cyfleusterau) dro ar ôl tro, oherwydd nad oedd gan rai ysgolion y lle i gynnal digwyddiadau cymunedol, caniatáu i swyddogion ymgysylltu â theuluoedd weithio ar y safle, na chynnal gwasanaethau wedi'u cydleoli. Mewn rhai ardaloedd, mae diffyg

ymddiriedaeth hirhoedlog rhwng ysgolion a chymunedau wedi bod yn anodd ei chwalu, ac mae hyn wedi'i waethygu ar adegau gan rwystrau ymarferol fel lleoliadau ysgolion neu'r lle sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau. Ar gyfer lleoliadau â dalgylchoedd mwy lle mae llawer o ddysgwyr yn cyrraedd ar fws, fel Unedau Cyfeirio Disgyblion, ysgolion uwchradd mawr, a rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle siaredir Saesneg yn bennaf, mae ymgysylltu â theuluoedd yn naturiol yn anos oherwydd bod rhieni/gofalwyr yn llai tebygol o fynd i safle'r ysgol. Mae dulliau o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn wedi cynnwys defnyddio mannau cymunedol mwy hygyrch i gynnal digwyddiadau (fel yn Wrecsam) ac ymgynghori'n agos â theuluoedd i ddeall y cymhellion dros gymryd rhan (fel yn Sir Benfro).

## 4.4. Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg

Dywedodd llawer o gyfranogwyr ei bod yn rhy gynnar i allu priodoli canlyniadau mesuradwy i'r strategaeth, sy'n unol â'r hyn a ddisgwylid yn y cam hwn o'r broses weithredu. Fodd bynnag, cafwyd arwyddion cryf bod canlyniadau cadarnhaol yn dechrau dod i'r amlwg mewn lleoliadau lle roedd y strategaeth wedi cael amser i ymsefydlu.

Roedd y rhain yn cynnwys gwell cydberthnasau rhwng ysgolion a theuluoedd, mwy o ymgysylltiad a hyder ymhlith rhieni, presenoldeb a chyfranogiad uwch ymhlith dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau, ac ymdeimlad cryfach bod ysgolion yn perthyn i'r gymuned. Myfyriodd llawer o gyfranogwyr ar y ffordd y gallai gweithgareddau cadarnhaol a diddorol a ddarparwyd trwy'r strategaeth fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol hirhoedlog a oedd gan rieni/gofalwyr ynghylch yr ysgol, yn seiliedig ar eu profiadau anodd eu hunain gydag addysg. Disgrifiodd y cyfranogwyr hefyd fwy o gydweithio o fewn ac ar draws awdurdodau lleol, yn ogystal â phartneriaethau cryfach â sefydliadau lleol, a oedd mewn rhai ardaloedd yn ehangu cyfleoedd i ddysgwyr trwy fynediad at chwaraeon, cyfleusterau cymunedol, a chyfleusterau eraill a rennir.

Nododd cyfranogwyr hefyd arwyddion cynnar o lai o stigma wrth geisio cymorth a mwy o gydweithio rhwng ysgolion a phartneriaid lleol. Er enghraifft, un o ganlyniadau allweddol y strategaeth a adroddwyd yng Nghanolfan Ddysgu Sir Benfro oedd gwelliant pwysig yn enw da'r ysgol o fewn y gymuned leol, gan chwalu'r prinder o ymwybyddiaeth a'r stigma sy'n gysylltiedig ag Unedau Cyfeirio Disgyblion, a oedd wedi llesteirio ymgysylltiad â'r gymuned yn y gorffennol.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth y gallai'r strategaeth chwarae rhan flaenllaw wrth wella cydlyniant cymunedol mewn cyd-destunau lle mae mwy o amrywiaeth. Er enghraifft, adroddodd ysgol yng Nghaerdydd fod teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi mynd i rai digwyddiadau ysgolion bro, er yr oedd yn anodd ymgysylltu â hwy o'r blaen. Dywedodd rhieni yn yr un ysgol a oedd wedi symud i'r DU yn ddiweddar fod digwyddiadau yn yr ysgol wedi gwneud iddynt deimlo fel petaent yn perthyn yn fwy i'r gymuned. Yn Wrecsam, llwyddodd y tîm ysgolion bro i gydlynu ymateb amlasiantaeth i faterion yn ymwneud â hiliaeth mewn ysgol uwchradd.

Yn bwysig, er gwaethaf pryderon y byddai ysgolion bro yn gorlwytho ysgolion, adroddodd lleoliadau lle roedd y strategaeth wedi'i hen sefydlu ei bod yn lleihau'r baich arnynt. Trwy greu strwythurau cliriach ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a galluogi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd neu bartneriaid cymunedol i ymgymryd â rolau yr ymgymerwyd â hwy yn flaenorol gan staff addysgu, roedd ysgolion yn gallu canolbwyntio'n well ar ddysgu a llesiant. Disgrifiodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo mwy o gefnogaeth, gyda llwybrau atgyfeirio gwell, cydweithio cryfach ar draws gwasanaethau, a chyfrifoldeb wedi’i rannu am fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu.

## 4.5. Crynodeb

Mae data gwerthuso yn dangos bod gan ysgolion bro y potensial i gryfhau rôl ysgolion fel canolfannau ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned, gan gefnogi ysgolion i fynd i'r afael â rhai heriau sydd wedi hen sefydlu a gwella’r cyfleoedd sydd ar gael i deuluoedd a dysgwyr. Ledled awdurdodau lleol, mae cyllid ysgolion bro wedi cefnogi ystod enfawr o weithgareddau, ar draws rhaglenni ymgysylltu â theuluoedd, dysgu oedolion, cymorth cyfannol ar gyfer llesiant dysgwyr, darparu bwyd ac adnoddau, defnydd o gyfleusterau ysgolion gan y gymuned, a gwaith partneriaeth amlasiantaeth. Mae'n ymddangos bod gweithgareddau'n arbennig o werthfawr mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, lle gall y strategaeth ddarparu adnoddau pwysig a gweithredu fel cysylltiad canolog a phwynt cymorth i deuluoedd.

Mae'r gweithrediad wedi bod gryfaf lle mae arweinyddiaeth leol glir, cydberthnasau sydd wedi’u hen sefydlu ar draws cymunedau a phartneriaid, a staff ymroddedig, gan gynnwys swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Yn y lleoliadau hyn, mae’r strategaeth wedi gwella cydweithio rhwng ysgolion, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau lleol, gan wella atgyfeiriadau, ymyrraeth gynnar, a hyder rhieni. Mae mentrau fel caffis cymunedol, boreau coffi, a sesiynau dysgu i oedolion wedi cefnogi cysylltiadau cymdeithasol ac wedi diwallu anghenion ymarferol.

Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth wedi bod yn wastad ledled Cymru. Mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi llywio heriau, gan gynnwys cyllid tymor byr a darniog, cyfyngiadau o ran capasiti, dealltwriaeth anghyson o'r model ysgolion bro, ac anawsterau wrth sefydlu a chynnal cyfathrebu rhwng gwahanol bartneriaid.

Pan fo ysgolion bro wedi cael amser i sefydlu mewn cyd-destunau lleol, mae tystiolaeth ei bod yn cyfrannu at newidiadau diwylliannol pwysig, gan ail-lunio ysgolion fel rhan o'u hecosystemau lleol yn hytrach na sefydliadau annibynnol. Mae enghreifftiau mwyaf llwyddiannus y strategaeth yn dangos gwaith perthynol, meithrin ymddiriedaeth, a'r ffordd y gall defnyddio adnoddau liniaru’r achosion ac effeithiau cymhleth sydd ynghlwm wrth anghydraddoldeb addysgol.

# 5. Argymhellion

Un o amcanion y gwerthusiad oedd darparu argymhellion ymarferol i arwain gwelliant yn y dyfodol yn y fenter ysgolion bro. Mae'r adran hon yn cynnwys deg argymhelliad y dylid eu hystyried ar lefel Llywodraeth Cymru, lefel yr awdurdod lleol a lefel yr ysgol.

**Argymhelliad 1: Ymrwymo i'r strategaeth ysgolion bro fel dull hirdymor, gyda threfniadau ariannu cynaliadwy.**

Yr angen i weithredu dros yr hirdymor i alluogi newid ystyrlon a chynaliadwy oedd y canfyddiad cliriaf a ddaeth i'r amlwg o'r gwerthusiad hwn. Byddai symud i ffwrdd o gylchoedd ariannu blynyddol tuag at ymrwymiadau tymor hwy yn cryfhau cynllunio, recriwtio a sefydlogrwydd o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Byddai fframwaith ariannu clir a chyson, gan gynnwys eglurder ynghylch pa ffrydiau ariannu y gellir eu defnyddio ar gyfer pa weithgareddau, yn cefnogi gweithredu effeithiol ymhellach.

Er bod Llywodraeth Cymru fel arfer yn gweithredu ar gyllidebau un flwyddyn, gallai sefydlu ymrwymiadau ariannu tymor hwy gryfhau'r ymrwymiad gan ysgolion a phartneriaid petrusgar drwy ddangos bod y strategaeth yn rhan gadarn o ddyfodol addysgol Cymru. Byddai hefyd yn hwyluso recriwtio a chadw unigolion medrus a chymwys ar gyfer rolau allweddol drwy alluogi contractau tymor hwy a datblygiad proffesiynol. Yn hollbwysig, byddai amserlen hwy yn caniatáu i systemau a strwythurau gael eu sefydlu ar draws ysgolion a chymunedau i alluogi cynaliadwyedd, ac i ganlyniadau mesuradwy ddod i'r amlwg.

**Argymhelliad 2: Sefydlu canllawiau cenedlaethol cyson ar gyfer monitro a gwerthuso wrth gydnabod hyblygrwydd lleol.**

Ar hyn o bryd, mae arferion monitro a gwerthuso ar gyfer y strategaeth yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol, gan arwain at ddata anghyson neu anghyflawn ar ddarpariaeth ac effaith. Dylai Llywodraeth Cymru arwain adolygiad o arferion monitro presennol (yn y strategaeth ysgolion bro a mentrau cysylltiedig) a datblygu canllawiau cenedlaethol sy'n nodi'r disgwyliadau gofynnol ar gyfer adrodd wrth gynnal hyblygrwydd ar gyfer addasu lleol a dulliau ansoddol. Dylai'r adolygiad hwn ystyried a rhannu enghreifftiau o arferion gorau. Byddai hyn yn helpu er mwyn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu'n gyson ac yn ystyrlon ledled Cymru.

Mae hefyd yn bwysig bod fframweithiau monitro yn alinio â rhai mentrau cysylltiedig yn hytrach na'u priodoli'n llwyr i'r strategaeth. Yn aml, mae canlyniadau'n cael eu llunio gan gyfuniad o raglenni a pholisïau, gyda mentrau perthnasol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) diogelu rhag tlodi, ADY, cyllid y Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r Grant Datblygu Disgyblion. Byddai dull cydlynol yn galluogi dealltwriaeth fwy cywir o'r effaith gyfunol ac yn cefnogi'r broses o werthuso a dysgu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3: Sicrhau darpariaeth amserol o ganllawiau clir ac ymarferol ar gyfer mentrau yn y dyfodol.**

Ar ddechrau'r strategaeth, nid oedd y gyfres lawn o ganllawiau cenedlaethol wedi'u datblygu a'u cyhoeddi'n llawn eto. Creodd hyn rywfaint o ansicrwydd ynghylch disgwyliadau a rolau, a arafodd gynnydd mewn rhai ardaloedd ac arweiniodd at ddehongliadau anghyson o amcanion y dull. Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, dylid sicrhau bod canllawiau ar gael yn gynnar i gefnogi cynllunio effeithiol a dealltwriaeth a rennir ledled awdurdodau lleol ac ysgolion. Dylai hyn gynnwys disgrifiadau rôl clir (e.e. ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ac arweinwyr lleol), fframwaith monitro a gwerthuso ysgafn, ac enghreifftiau ymarferol o weithredu. Fodd bynnag, dylai hefyd bwysleisio hyblygrwydd, gan ganiatáu i ysgolion ac awdurdodau lleol addasu dulliau i'w cyd-destun lleol ac anghenion eu cymuned.

**Argymhelliad 4: Cryfhau seilwaith traws-sector a gwelededd cenedlaethol i wreiddio'r strategaeth yn ehangach.**

Bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cyflawni tuag at ddull polisi a seilwaith cyfannol sy'n cysylltu'r strategaeth ysgolion bro ag adrannau a sectorau eraill, gan sicrhau ei bod yn dod yn flaenoriaeth genedlaethol a rennir yn hytrach na menter a arweinir gan ysgolion. Gallai hyn gynnwys alinio amcanion y strategaeth â chytundebau grant busnes a chymunedau, integreiddio cyfleoedd y strategaeth o fewn ymrwymiadau gwerth cymdeithasol, ac ymgorffori'r dull mewn fframweithiau partneriaethau lleol a rhanbarthol. Byddai gwneud y strategaeth yn fwy amlwg yn genedlaethol a darparu mwy o ganllawiau yn helpu i sicrhau nad yw ymdrechion ymgysylltu yn dibynnu ar nifer fach o ysgolion neu unigolion gweithredol ond yn cael eu cefnogi'n systematig ar draws cymunedau.

**Argymhelliad 5: Dylai fersiynau yn y dyfodol o'r dull gynnwys canllawiau penodol i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn ysgolion bro.**

Mae cyfleoedd yn y strategaeth i alinio â strategaeth Cymraeg 2050, oherwydd bod ysgolion yn lleoliad pwysig ar gyfer datblygu'r Gymraeg, ac mae'r elfen ymgysylltu â theuluoedd hefyd yn darparu cyswllt ar gyfer dysgu oedolion. Mae canfyddiadau'n dangos y gallai'r strategaeth wneud mwy i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg. Gallai camau gweithredu gynnwys cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer mentrau Cymraeg ac ymdrechion ymgysylltu ffurfiol â sefydliadau Cymraeg.

Ar yr un pryd, dylid nodi y gallai timau'r strategaeth wynebu heriau penodol mewn cymunedau lle mae Saesneg yn cael blaenoriaeth uwchlaw'r Gymraeg yn gyffredin. Mewn ardaloedd lle mae rhwystrau i ddatblygiad y Gymraeg yn fwy amlwg, dylid llunio canllawiau, pan fo'n ymarferol, i hyrwyddo a chefnogi'r datblygiad hwn.

**Argymhelliad 6: Cryfhau mynediad teg at gymorth swyddog ymgysylltu â theuluoedd ar draws pob clwstwr ysgolion.**

Mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn ganolog i lwyddiant y strategaeth, ond mae mynediad atynt yn parhau i fod yn anwastad ledled Cymru ac o fewn awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar degwch er mwyn sicrhau bod ysgolion ac ardaloedd sydd â'r angen mwyaf yn cael blaenoriaeth ar gyfer cymorth swyddog ymgysylltu â theuluoedd, gan weithio tuag at y nod hirdymor o sicrhau bod gan bob clwstwr ysgolion fynediad at yr adnodd hwn. Gall dulliau ar lefel y clwstwr (e.e. dyrannu un swyddog ymgysylltu â theuluoedd fesul clwstwr) gryfhau'r cyfnod pontio rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd a helpu i ymgorffori ymgysylltu â theuluoedd yn fwy systematig. Gallai awdurdodau lleol sydd eisoes wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn rannu’r hyn a ddysgwyd ganddynt a modelau drwy rwydweithiau cenedlaethol i gefnogi'r broses gyflwyno ehangach.

**Argymhelliad 7: Clustnodi cyllid ysgolion bro o fewn awdurdodau lleol i amddiffyn ei ddiben strategol a sicrhau dyraniad teg a thryloyw.**

Gall neilltuo cyllid ysgolion bro o fewn awdurdodau lleol helpu i atal y cyllid hwn rhag cael ei amsugno i gyllidebau ehangach a sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu strategol â’r gymuned yn hytrach na phwysau gweithredol o ddydd i ddydd. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu bod y dull hwn yn cefnogi aliniad cryfach â strategaethau ysgolion bro lleol a chyflenwi mwy cyson ar draws ysgolion. Mae tryloywder a chydweithio rhwng awdurdodau lleol, rheolwyr ysgolion bro, ac arweinwyr ysgolion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch ariannu yn cael eu deall yn dda a'u bod yn cael eu hystyried yn deg.

**Argymhelliad 8: Sicrhau goruchwyliaeth strwythuredig a chymorth llesiant ar gyfer rheolwyr ysgolion bro a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd.**

